

Rhagair

Adroddiad Blynyddol 2010-2011



Rhagair

Rwy'n cyflwyno'r adroddiad blynyddol yma i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, a bydd y Gweinidog yn ei dro yn ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei drafod.

Dyma fy ail adroddiad blynyddol a hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf sy'n edrych yn ôl ar y canfyddiadau o flwyddyn gyntaf y cylch arolygu newydd a ddechreuodd ym mis Medi 2010. Mae'r adroddiad wedi'i seilio'n bennaf ar dystiolaeth o'r arolygiadau y gwnaethon ni eu cwblhau yn ystod blwyddyn academaidd 2010-2011. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sylw i nifer o'r arolygon y gwnaethon ni eu cynnal yn ystod yr un flwyddyn. Cafodd y rhan fwyaf o'r arolygon yma eu cwblhau mewn ymateb i geisiadau yn y cylch gwaith blynyddol mae'r Gweinidogion yn ei roi i Estyn.



Ann Keane

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan ar ffurf cyfres o ddogfennau annibynnol.

Ym mhrif ran yr adroddiad, rwy'n disgrifio'r cynnydd sydd i'w weld ar draws y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae adran arall yn crynhoi'r prif ganfyddiadau o'n harolygon cylch gwaith. Rwyf hefyd yn nodi rhai o'r pethau y gwelwn ni o'r dystiolaeth arolygu rydyn ni wedi'i chasglu dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Rwy'n rhoi sylw hefyd i rai o'r materion a gododd yn sgil y prif agweddau ar ein harolygiadau ac mewn arolygon mae AEM wedi'u gwneud. Yn olaf, mewn adroddiad data, rwy'n nodi ac yn rhoi sylwadau ar gyfres o siartiau sy'n dangos deilliannau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol a chanlyniadau arholiadau allanol.

Mae siartiau yn yr atodiadau i'r adroddiad blynyddol sy'n dangos sut mae graddau wedi'u dosbarthu ym mhob un o'r sectorau rydyn ni'n eu harolygu, yn ogystal â'r graddau a gafodd eu dyfarnu i bob un o'r darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu.

Eleni, rwyf wedi cynnwys atodiadau i'r adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r ymatebion i'r holiaduron rydyn ni'n eu dosbarthu i'r disgyblion a'u rhieni cyn arolygiadau. Mae'r darlun sy'n dod i'r amlwg o'u hymatebion yn un cadarnhaol ar y cyfan. Rwyf hefyd yn parhau'r arfer o gynnig astudiaethau achos sy'n darlunio arferion gorau'r darparwyr unigol y gwnaethon ni eu harolygu yn ystod 2010-2011. Rwy'n gobeithio y bydd y darparwyr yn manteisio ar y cyfle yma i rannu a thrafod yr arferion gorau â'u cydweithwyr. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd dysgwyr, rhieni a darllenwyr eraill yn gweld llawer o wybodaeth ddefnyddiol a diddorol yn yr astudiaethau achos ac yn wir yn y rhannau eraill o'r adroddiad.

Yn y rhagair yma, rwy'n sôn am rai o'r llwyddiannau a'r heriau sydd wedi dod i'r amlwg o'r dystiolaeth arolygu rydyn ni wedi'i chasglu yn ystod 2010-2011. Rhaid nodi bod nifer o agweddau ar addysg a hyfforddiant wedi gwella, ac mae arfer ychydig o ddarparwyr unigol yn arwain y sector.

Rydyn ni wedi gweld enghreifftiau o ragoriaeth ymhlith yr ysgolion a hefyd ymhlith y darparwyr eraill y bydd Estyn yn eu harolygu, ac mae'r rhain yn haeddu cael eu defnyddio gan sefydliadau eraill fel arfer enghreifftiol. Rydyn ni'n disgrifio'r arfer enghreifftiol yma yn yr adran astudiaethau achos ar wefan Estyn.

Mae llwyddiannau mwy cyffredinol y system yn cynnwys cyflwyno'r **Cyfnod Sylfaen** fesul cam i bob plentyn rhwng tair a saith oed. Mae'n amlwg bod y mwyafrif helaeth o blant o'r oed yma'n mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau mwy cyffrous ac amrywiol sydd ar gael yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhain wedi arwain at wella eu lles, eu hymddygiad a'u datblygiad corfforol. Mae dulliau dysgu gweithredol yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, yn helpu'r plant yma i ddod yn fwy a mwy annibynnol, hyderus a chreadigol. Maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u seilio ar chwarae ac sy'n gyfle iddyn nhw roi cynnig ar bethau heb deimlo pwysau i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf. O ganlyniad, maen nhw'n dal ati i wneud y gweithgareddau am gyfnodau hirach, ac maen nhw'n fwy parod i roi cynnig ar bethau newydd.

Mae llawer o fechgyn yn arbennig yn elwa ar y cyfleoedd rheolaidd i redeg, neidio, sefyll ar un droed, dringo, archwilio ac arbrofi, sy'n nodweddion cyffredin o'r Cyfnod Sylfaen. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnig cyd-destunau helaeth a chyfleoedd sy'n cymhell y plant i ddysgu darllen ac ysgrifennu. Ond nid yw lleiafrif o'r ysgolion a'r lleoliadau'n addysgu digon o ddarllen ac ysgrifennu'n uniongyrchol. Ni fyddwn yn gallu sôn am holl wahanol gyflawniadau'r garfan genedlaethol tan yr adroddiad blynyddol nesaf. Erbyn hynny bydd y garfan gyfan wedi cwblhau pedair blynedd yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae **lles** yn un o nodweddion pwysig y fframwaith arolygu newydd ac mae'r dystiolaeth gyffredinol yn awgrymu bod safonau lles yn uchel yn yr ysgolion ac yn y darparwyr eraill. Mae lles dysgwyr yn dda neu'n well yn bron yr holl leoliadau nas cynhelir, yr ysgolion a'r lleoliadau ôl-16 a gafodd eu harolygu.

Rydyn ni'n gwahodd dysgwyr i sôn am eu profiad o addysg drwy ymateb i holiadur. Mae bron pob un o'r disgyblion cynradd ac uwchradd a roddodd ymateb, yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod nhw'n gwybod â phwy y gallan nhw siarad os ydyn nhw'n gofidio neu'n poeni. Maen nhw i gyd bron yn dweud bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i fod yn iach, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dweud eu bod nhw'n cael llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff. Mae bron yr holl ddysgwyr mewn sefydliadau ôl-16 yn dweud eu bod nhw'n mwynhau dysgu a'u bod nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o unrhyw aflonyddu yn eu lleoliadau dysgu neu'u lleoliadau gwaith. Ond er gwaetha'r darlun cadarnhaol cyffredinol yma, nid yw lefelau presenoldeb yr ysgolion wedi gwella fawr ddim, ac mae bwlio'n dal yn bryder i ormod o bobl ifanc a'u teuluoedd.

Er bod lefelau lles yn dda ar y cyfan ac mae'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgogi'r plant, mae llawer i'w wneud eto i wella addysg yn fwy cyffredinol yng Nghymru. Mae canlyniadau arholiadau a chanlyniadau asesiadau athrawon yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn, ond nid ydyn nhw'n gwella mor gyflym ag yn y gwledydd cartref eraill. Mae'r dangosyddion allweddol, fel y

trothwy lefel 2 sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, yn gwella'n rhy araf.

Mae **perfformiad** pedair o bob pump o'r ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu a dwy o bob tair o'r ysgolion uwchradd, yn dda. Ond fe nodon ni fod angen ymweliadau dilynol gan Estyn ar ryw 25% o'r ysgolion, gan gynnwys 5% sy'n peri pryder difrifol. Fe gafodd 20% arall eu barnu'n 'dda' ar y cyfan, ond mae ganddyn nhw un neu fwy o feysydd pwysig i'w gwella. Rydyn ni'n gofyn i'r awdurdodau lleol am adroddiadau manwl ar y cynnydd y bydd yr ysgolion yma'n ei wneud.

Dim ond mewn dau o'r **awdurdodau lleol** a gafodd eu harolygu eleni y barnon ni fod perfformiad yn dda ar y cyfan. Mae angen gweithgarwch dilynol ar bump o'r saith awdurdod y gwnaethon ni eu harolygu. Dim ond digonol oedd tri awdurdod, roedd angen gwelliant sylweddol ar un ohonyn nhw, ac mae mesurau arbennig ar waith yn un arall.

Mae safonau'n amrywio gormod ym mhob un o'r darparwyr ôl-16 yr arolygon ni eleni. Er bod safonau'n dda yn chwech o'r wyth o leoliadau dysgu yn y gwaith a gafodd eu harolygu, roedden nhw'n amrywio o ragorol i anfoddfaol yn y pedwar sefydliad addysg

bellach, ac yn amrywio o ragorol i ddigonol yn y tri darparwr dysgu oedolion yn y gymuned.

Fe welon ni gryfderau yn llawer o agweddau ar y ddarpariaeth yn ystod 2010-2011, ond mae nifer o feysydd i'w datblygu hefyd ac mae angen gweithredu arnyn nhw cyn y gallwn ni wella safonau. Rydyn ni'n canolbwyntio'n fanylach ar **fedrau** dysgwyr yn y cylch presennol o arolygiadau, ac yn enwedig ar fedrau llythrennedd. Oni bai bod **llythrennedd** y dysgwyr wedi cyrraedd lefel briodol, ni allan nhw ddarllen yn ddigon da i gadw i fyny â'r gwaith yn eu gwersi. Ni fyddan nhw'n gallu symud ymlaen at addysg neu hyfforddiant ar lefel uwch, na chyfrannu'n llawn i'w cymuned ac i'r economi. Yn adroddiad blynyddol y llynedd dywedais fod lefel isel y medrau llythrennedd yn dal i beri problemau yng Nghymru, er bod y lefel wedi codi rhywfaint yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Mae hyn yn dal yn wir.

Mewn arolwg y gwnaethon ni eleni, fe ganfuon ni fod oed darllen 20% o ddisgyblion ar adeg eu derbyn i'r ysgol uwchradd yn is na naw mlwydd a chwe mis oed, sef y lefel sy'n cael ei derbyn yn gyffredinol fel lefel llythrennedd

“

“Yn adroddiad blynyddol y llynedd dywedais fod lefel isel y medrau llythrennedd yn dal i beri problemau yng Nghymru, er bod y lefel wedi codi rhywfaint yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Mae hyn yn dal yn wir.”



gweithredol. Mae oed darllen 20% arall rhwng chwech a 18 mis yn is na'u hoed gwirioneddol. Nid yw'r disgyblion yma'n dal i fyny bob amser yn yr ysgolion uwchradd. Rhywbeth arall sy'n peri pryder yw mai ond 17% sy'n cael eu nodi'n genedlaethol, mewn asesiadau athrawon o ddarllen ar ddiwedd eu haddysg ysgol gynradd, fel rhai nad ydyn nhw'n cyrraedd y lefel a ddisgwyliir. Mae'r ffigur yma i weld yn rhy isel.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd neu uwchradd, mae safonau ysgrifennu'n is na safonau darllen, ac nid yw medrau ysgrifennu'r disgyblion wedi datblygu'n dda. Ychydig o'r disgyblion sy'n ysgrifennu darnau hir o waith mewn pynciau heblaw am Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf. Mae'r ysgolion gorau wedi rhoi dull systematig ar waith i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion ym mhob un o feysydd y cwricwlwm. Ond yn amlach na pheidio, nid yw gwella llythrennedd y disgyblion yn cael rhan ddigon canolog yn y gwaith o gynllunio cwricwlwm yr ysgol.

Mae **cynllunio ar draws y cwricwlwm** yn wan yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae athrawon yn mynd ati i gynllunio'r cwricwlwm ar sail gofynion pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, heb feddwl digon am sut y gall pynciau fel hanes neu wyddoniaeth fod yn gyd-destun i'r disgyblion ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd neu dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gofyn i athrawon nodi'r manau lle byddan nhw'n rhoi sylw yn eu gwersi i agweddau ar lythrennedd, ond ychydig ohonyn nhw sy'n mynd ati i gynllunio'n fanwl er mwyn datblygu ac atgyfnerthu medrau ar draws y cwricwlwm cyfan. Dim ond ychydig o ysgolion uwchradd sy'n defnyddio cynllun i ddatblygu medrau fel man cychwyn, gan ddefnyddio'r cynllun hwnnw'n gyson wedyn fel sail i bob pwnc. Yn yr ysgolion yma, mae'r athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar

y dulliau o ddatblygu medrau penodol ac yn eu hatgyfnerthu mewn gwersi pwnc a gwersi â thema ar draws grwpiau blwyddyn.

Yn rhy aml, fel gyda llythrennedd, nid yw medrau **rhifedd** y dysgwyr, na'u gallu i siarad **Cymraeg fel ail iaith**, yn cael eu datblygu'n dda y tu allan i'r gwersi mathemateg neu'r gwersi Cymraeg. Dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n mynd ati'n systematig i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn defnyddio'n hyderus y medrau rhifedd maen nhw wedi'u dysgu yn eu gwersi mathemateg ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mewn llawer o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, nid oes digon o gyfleoedd heblaw yn y gwersi Cymraeg i'r disgyblion wella'u gallu i ddefnyddio'r iaith. Nid oes digon o gyfleoedd allgyrsiol iddyn nhw ymarfer eu Cymraeg.

Mae mynd ati'n systematig i gydlynu'r gwaith o gyflwyno medrau ar draws y gwahanol bynciau'n gofyn i arweinwyr a rheolwyr roi ar waith dulliau o addysgu a dysgu sy'n berthnasol i'r ysgol gyfan, a sicrhau bod pawb yn deall sut mae gwella medrau. Nid yw hyn yn digwydd mewn modd trefnus ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o ysgolion. Un o nodweddion cyffredin y rhan fwyaf o ysgolion yw'r amrywiaeth o fewn yr ysgol o ran safonau ac ansawdd **addysgu a dysgu**. Hyd yn oed lle mae ysgol wedi cael ei barnu'n 'dda' ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu neu'r dysgu'n aml yn wael yn rhai o'r gwersi neu'r adrannau unigol.

Er ei bod hi'n anodd gwneud cymhariaeth syml rhwng y graddau a ddyfarnwyd yn y cylch blaenorol, a'r barnau a gafodd eu gwneud yn y cylch presennol o arolygiadau, mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn y gyfran o addysgu 'rhagorol' neu 'eithriadol' sy'n cael ei nodi.

“

“Erbyn hyn rydym yn canolbwyntio llai o lawer ar gynnwys pynciau a mwy ar sut mae athrawon yn mynd ati i addasu'u deunydd i ddiwallu anghenion pob dysgwyr, a sut maen nhw'n mynd ati i wella medrau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr.”

“

“Yr unig bryd y bydd hunanarfarnu'n gwbl effeithiol yw pan mae arweinwyr a rheolwyr yn gallu pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella ar ôl monitro'r ddarpariaeth ac asesu'r deilliannau'n drylwyr.”



Yn y cylch arolygu diwethaf, roedd arsylwadau gwersi'n canolbwyntio'n bennaf ar addysgu a dysgu ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Erbyn hyn rydym yn canolbwyntio llai o lawer ar gynnwys pynciau a mwy ar sut mae athrawon yn mynd ati i addasu'u deunydd i ddiwallu anghenion pob dysgwyr, a sut maen nhw'n mynd ati i wella medrau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr. Rydyn ni hefyd yn disgwyl i athrawon gynllunio gwersi er mwyn cau'r bylchau yn yr hyn mae disgyblion wedi'i ddeall.

Mae angen i anghenion dysgu **grwpiau gwahanol o ddisgyblion** gael eu trin yn wahanol. Ar ôl adnabod y dysgwyr yma, mae angen cymorth penodol ac ar wahân arnyn nhw i'w helpu i gyflawni eu potensial. Ond rydyn ni'n gweld nad yw'r ddarpariaeth na'r dull o gyflwyno'r ddarpariaeth ar y cyfan yn cael eu gwahaniaethu na'u targedu'n ddigon gofalus i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn amlwg iawn yn y cynlluniau gwaith, ac mae'n un o nodweddion gormod o'r gwersi rydyn ni wedi'u harsylwi. Er bod disgyblion llai galluog yn aml yn cael cymorth da, nid oes digon yn cael ei wneud i gynllunio gweithgareddau a thasgau a fydd yn ymestyn grwpiau eraill, a disgyblion mwy galluog yn benodol.

Nid yw rheolwyr yn gwneud yn siŵr bob amser bod athrawon yn datblygu ac yn defnyddio'r medrau sy'n ofynnol i gynllunio gwaith a fydd yn diwallu anghenion grwpiau gwahanol o ddisgyblion, yn enwedig pan fyddan nhw'n addysgu dosbarthiadau o ddysgwyr o allu cymysg.

Yn rhy aml, mewn ysgolion a sefydliadau ôl-16, nid yw gwaith marcio'r athrawon yn helpu dysgwyr i ddeall pa mor dda maen nhw'n gwneud nac yn ddigon manwl iddyn nhw wybod sut i wella'u gwaith. Er bod polisiâu asesu'n ymddangos yn gadarn, nid yw athrawon yn eu defnyddio'n gyson.

Mae'n bosib olrhain llawer o'r gwendidau dan sylw uchod yn ôl i fethiannau yn yr **arweinyddiaeth**. Mae cysylltiad cadarn rhwng deilliannau, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Pan fydd arweinwyr a rheolwyr yn gofalu bod polisiâu a gweithdrefnau ysgol gyfan yn cael eu defnyddio'n gyson, mae'r ddarpariaeth a'r safonau mae disgyblion yn eu cyflawni yn fwy cadarnhaol. Yn yr achosion lle'r ydyn ni'n barnu bod angen gweithgarwch monitro dilynol gan Estyn, gwendidau yng ngwaith yr arweinwyr a'r rheolwyr yw'r rheswm pennaf fel arfer.

Un o'r prif bethau sy'n ysgogi gwelliant yw ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Yr unig bryd y bydd **hunanarfarnu'n** gwbl effeithiol yw pan mae arweinwyr a rheolwyr yn gallu pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella ar ôl monitro'r ddarpariaeth ac asesu'r deilliannau'n drylwyr. Ond ychydig o ysgolion sy'n dadansoddi data'n ddigon trwyadl i adnabod bylchau yng nghynnydd grwpiau penodol sy'n tanberfformio, fel plant sy'n derbyn gofal neu'r rheini

o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Yn gyffredinol, nid yw darparwyr yn defnyddio systemau olrhain yn ddigon da ar y cyfan i adnabod yr holl wahanol fathau o dangyflawni.

Mae diffygion yn y ffordd mae ansawdd yn cael ei fonitro a'i wella mewn traean o'r ysgolion cynradd ac yn un o bob pump o'r ysgolion uwchradd. Bydd hyn yn digwydd fel arfer lle bydd uwch reolwyr:

- yn cynnal arsylwadau o wersi sy'n canolbwyntio gormod ar yr hyn mae'r athro'n ei wneud yn hytrach na'r hyn mae'r disgyblion wedi'i ddysgu;
- yn methu craffu'n systematig ar waith y dysgwyr;
- yn methu dadansoddi data'n drylwyr nac yn defnyddio'r canfyddiadau'n ddigon da i gynllunio sut mae gwella;
- yn methu pennu'n glir ac yn onest yn eu hadroddiadau hunanarfarnu pa feysydd y dylid eu datblygu;
- yn methu gweithredu er mwyn rhoi sylw i'r diffygion sydd wedi'u nodi, neu'n methu gosod targedau heriol; neu
- yn methu cynnig cymorth a hyfforddiant hollol bwrpasol i'r athrawon sy'n diwallu eu hanghenion penodol.

Mewn llawer o ysgolion, mae **llywodraethwyr** yn cynnig cymorth effeithiol i'r pennaeth, ac maen nhw'n cael eu cynnwys yn y gwaith o osod cyfeiriad eu hysgol. Ond nid yw llywodraethwyr tua chwarter yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael y wybodaeth sy'n angenrheidiol, neu nid ydyn nhw'n defnyddio'r wybodaeth yn ddigon da i wneud yr ysgol yn atebol. Cyn y gall llywodraethwyr gyflawni eu rôl yn effeithiol, mae gofyn iddyn nhw gymharu perfformiad eu hysgol yn erbyn perfformiad yr ysgolion eraill sy'n rhan o'r un teulu ac sy'n wynebu'r un math o heriau. Mae angen iddyn nhw ymweld â'r ysgol hefyd, bod yn rhan o'i gwaith a dysgu gymaint â phosib amdani. Yn yr ysgolion lle mae'r llywodraethwyr yn cael digon o wybodaeth, gallan nhw gymryd rhan mewn trafodaethau cadarn a heriol.

Mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw mwy pendant ac uniongyrchol i broblemau **tanberfformio**. Mae llawer o'r ysgolion cynradd ac uwchradd wedi rhoi systemau priodol ar waith i reoli perfformiad, ond nid yw pob ysgol yn eu defnyddio nhw'n llawn. Nid yw uwch reolwyr tua chwarter yr ysgolion cynradd ac ychydig o'r ysgolion uwchradd yn mynd i'r afael ag athrawon unigol sy'n tanberfformio. Nid yw arweinwyr a rheolwyr rhai o'r sectorau eraill rydyn ni'n eu harolygu, fel dysgu yn y gwaith, yn mynd ati bob amser i ddadansoddi data am ddeilliannau nac i ystyried y math yma o ddata'n ddigon trwyadl wrth asesu perfformiad eu staff.

Yn llawer o awdurdodau lleol, mae ychydig o ysgolion wedi cael tanberfformio dros gyfnod hir, a hynny'n bennaf am nad yw'r awdurdodau'n defnyddio'u holl bwerau i wella ysgolion yn ddigon cyflym. Nid yw swyddogion y mwyafrif o'r awdurdodau'n arfarnu effaith mentrau newydd ar ddeilliannau'r dysgwyr, nac yn cynnig digon o gymorth ymarferol i'r ysgolion. Mae'r awdurdodau lleol cryfach yn cynnig gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol sy'n targedu tanberfformio ac yn cefnogi athrawon yn dda.

Fel rhan o'n trefniadau arolygu ysgolion, rydyn ni'n gofyn i'r awdurdodau lleol roi gwybodaeth i'r tîm arolygu am waith yr ysgol, cyn mynd yno i wneud arolygiad. Nid yw'r adolygiadau yma'n dadansoddi gwaith yr ysgol yn ddigon cadarn bob tro, ac nid ydyn nhw'n adnabod y diffygion yn ddigon clir. Mae hyn yn awgrymu nad yw nifer o awdurdodau lleol yn gwybod pa mor dda mae eu hysgolion yn perfformio, er bod yr awdurdodau cryfach yn adnabod eu hysgolion yn dda.

“

“Yn yr ysgolion lle mae'r llywodraethwyr yn cael digon o wybodaeth, gallan nhw gymryd rhan mewn trafodaethau cadarn a heriol.”



Mae mwy o ddysgwyr wedi symud yn eu blaenau i **addysg bellach neu hyfforddiant** yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r sector addysg bellach wedi llwyddo i wahanol raddau i weithio gydag ysgolion lleol a darparwyr eraill i gynnig mwy o wahanol gyrsiau i ddysgwyr, i rannu adnoddau ac i osgoi dyblygu darpariaeth. Mae'r gwaith o ateb gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn dod yn ei flaen yn rhagorol ar y cyfan. Ond mae rhywfaint o'r gwaith yn dal yn aneffeithlon, ac mae dyblygu cyrsiau o hyd mewn rhai ardaloedd. Ar yr adegau pan fyddan nhw'n dewis cyrsiau, ac yn enwedig yn 16 oed, nid yw dysgwyr bob amser yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad annibynnol o'r safon uchaf am y cyrsiau a fyddai'n gweddu orau iddyn nhw.

Mae angen i ddarparwyr wneud mwy i ddenu dysgwyr i rai meysydd astudio fel peirianneg, technolegau gweithgynhyrchu a gweinyddu busnes. Mae angen iddyn nhw ymateb yn well i anghenion yr economi leol a chenedlaethol, meddwl mwy am y farchnad lafur a gwella'u cysylltiadau â chyflogwyr ym mhob un o'r meysydd galwedigaethol y maen nhw'n cynnig addysg a hyfforddiant ynddyn nhw.

Er mwyn ymateb yn well i fyd diwydiant, mae angen i ddarparwyr wella'u cynllunio strategol. Mae'n naturiol bod darparwyr yn awyddus i gadw patrwm y cwricwlwm a'r cyrsiau maen nhw wedi'u sefydlu dros gyfnod o amser, ac mae'r patrwm yma'n aml yn cyfateb i'r rhan fwyaf o ddyheadau'r dysgwyr maen nhw'n eu cofrestru. Ond nid yw darparwyr bob amser yn gofyn a ydyn nhw'n addasu'n ddigon cyflym i amgylchiadau sy'n newid. Er enghraifft, nid yw colegau'n mynd ati'n ddigon gofalus i fonitro faint o ddysgwyr o gefndiroedd o amddifadedd sy'n cofrestru, sef dysgwyr sy'n cael y lwfans cynhaliaeth addysg. Dylen nhw fod yn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnig cyrsiau a fydd yn denu'r bobl ifanc yma.

Mewn arolwg o sefydliadau addysg bellach y gwnaethon ni eleni, fe ganfuon ni fod asesiadau'n dangos bod lefel llythrennedd tua un dysgwr o bob pump yn is na lefel 1 ar adeg ei dderbyn i'r sefydliad. Roedd tua thri o bob pum dysgwr wedi cyrraedd lefel 1, a dim ond tua chwarter y dysgwyr oedd ar lefel 2. Mae sefydliadau'n cynnig amryw o wahanol raglenni'n cynnig cymorth gyda llythrennedd ond nid yw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr sydd angen y cymorth yma'n manteisio arno. Hyd yn oed pan fydd dysgwyr yn derbyn y cymorth sydd ar gael, mae llawer o'r sefydliadau addysg bellach yn methu mesur effaith y rhaglenni cymorth ar safonau llythrennedd y dysgwyr.

Bydd cyfran sylweddol o ysgolion a darparwyr yn cael arolygiadau 'dilynol' yn ystod 2011-2012. Rydyn ni'n ymweld bob tymor ag ysgolion sydd yn y categori mesurau arbennig. Tua blwyddyn ar ôl eu harolygiad gwreiddiol, byddwn ni'n mynd yn ôl at ddarparwyr a gafodd eu barnu fel rhai oedd angen gweithgarwch dilynol gan Estyn, er mwyn monitro eu cynnydd. Byddwn ni hefyd yn cysylltu ymhen blwyddyn ag awdurdodau lleol i adolygu cynnydd yr ysgolion hynny a gafodd farn arolygu a oedd yn 'dda' yn bennaf yn 2010-2011, ond sydd hefyd ag un neu fwy o feysydd pwysig i'w gwella. Rwy'n edrych ymlaen at sôn am ddeilliannau'r gweithgarwch pwrpasol a chymesur yma, yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Yn y rhagair yma rwyf wedi ceisio tynnu sylw at rai cryfderau yn y meysydd hynny lle'r ydym wedi gweld cynnydd go iawn. Rwyf hefyd yn ceisio tynnu sylw at rai o'r heriau parhaus mae addysg a hyfforddiant yng Nghymru'n eu hwynebu. Wrth wneud hyn, rwy'n gobeithio y gall fy adroddiad blynyddol gyfrannu at ddadl genedlaethol barhaus ynglŷn â'r ffyrdd o barhau i wella safonau ym mhob un o sectorau addysg a hyfforddiant.



Ann Keane

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru

Adran 1: Cipolygon a materion eraill

Adroddiad Blynyddol 2010-2011



Cynnwys

Lles	04	Yr arweinyddiaeth mae llywodraethwyr ysgolion yn ei darparu	17
Strategaethau ar gyfer gwella medrau llythrennedd	06	Y cynnydd mae darparwyr wedi'i wneud ers eu harolygiad diwethaf	19
Llythrennedd o'r blynyddoedd cynnar trwy gydol oes	08	Barn dysgwyr a rhieni am ysgolion ac am ddarparwyr eraill	21
Oedrannau darllen	10	Heriau i addysg a hyfforddiant ôl-16	22
Medrau llythrennedd mewn addysg bellach	11	Diwallu anghenion yr economi	22
Dysgu Cymraeg fel ail iaith	12	Partneriaethau	23
Y safonau mae grwpiau penodol o ddysgwyr yn eu cyflawni	13	Defnyddio data	23
Dysgwyr dan anfantais	14		
Dysgwyr Sipsiwn a Theithwyr	15		
Dysgwyr mwy galluog a dawnus	16		
Dysgwyr hŷn	16		

Mae'r trefniadau arolygu newydd a gafodd eu cyflwyno eleni wedi rhoi sylw mwy pendant i rai agweddau allweddol ar addysg a hyfforddiant. Yn yr adrannau sy'n dilyn, rwy'n nodi rhai o'r pethau mae'r dystiolaeth arolygu rydyn ni wedi'i chasglu dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf wedi'u cyfleu i ni am yr agweddau allweddol yma. Rwy'n rhoi sylw hefyd i rai o'r materion a gododd yn sgil y prif agweddau ar ein harolygiadau ac mewn arolygon mae AEM wedi'u gwneud.

Y prif feysydd dan sylw yw:

- lles;
- strategaethau ar gyfer gwella medrau llythrennedd;
- dysgu Cymraeg fel ail iaith;
- y safonau mae grwpiau penodol o ddysgwyr yn eu cyflawni;
- yr arweinyddiaeth mae llywodraethwyr ysgolion yn ei darparu;
- y cynnydd mae darparwyr wedi'i wneud ers eu harolygiad diwethaf;
- barn dysgwyr a rhieni am ysgolion ac am ddarparwyr eraill; a'r
- heriau i addysg a hyfforddiant ôl-16.

Lles

Mae'r fframwaith arolygu cyffredin newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar arolygu lles, ac eleni rwy'n adrodd ar les dysgwyr yn fwy manwl nag o'r blaen. Mae'r dystiolaeth at ei gilydd yn awgrymu bod safonau lles yn uchel yn ein hysgolion ac mewn darparwyr eraill. Barn pobl ar les disgyblion yw ei fod yn dda neu'n well yn bron yr holl leoliadau nas cynhelir a'r ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac annibynnol a gafodd eu harolygu. Mae lles yn dda neu'n well hefyd yn bron yr holl leoliadau dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned, ac yn y sefydliadau addysg bellach a gafodd eu harolygu.

Wrth lenwi i holiaduron, mae dysgwyr yn cael eu hannog i sôn am eu profiadau o'u haddysg, mae bron yr holl ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod nhw'n gwybod at bwy y gallan nhw fynd os ydyn nhw'n pryderu neu'n gofidio. Mae bron yr holl ddisgyblion cynradd a llawer o'r disgyblion uwchradd yn dweud bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i fod yn iach, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dweud eu bod nhw'n cael llawer o gyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff. Mae bron yr holl ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach ac mewn lleoliadau dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn dweud eu bod nhw'n mwynhau dysgu a'u bod nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o unrhyw aflonyddu yn eu lleoliadau dysgu neu yn eu lleoliadau gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwynhad, lles, ymddygiad a datblygiad corfforol y plant yn gwella'n gyffredinol o ganlyniad i fod yn yr awyr agored. Mae bechgyn yn arbennig yn mwynhau cyfleoedd rheolaidd i redeg, neidio, balansio, dringo, archwilio ac arbrofi, ac yn elwa arnyn nhw. Dyma rai o'r pethau sy'n nodweddiadol o ddysgu yn yr awyr agored. Mae'r ffaith fod disgyblion yn cymryd mwy o ran mewn gweithgareddau

dysgu o'r fath yn effeithio'n gadarnhaol ar eu datblygiad personol a chymdeithasol, eu hymddygiad cyffredinol a'u lles. Er enghraifft, mae plant yn dyfalbarhau â gweithgareddau am gyfnodau hirach ac maen nhw'n fwy parod i roi cynnig ar bethau newydd. Mae plant swil yn aml yn dod yn fwy allblyg mewn sefyllfaoedd o'r fath, ac mae plant sydd ag anawsterau ymddygiad yn setlo'n well yn y dosbarth yn gyffredinol ar ôl gwneud tasgau yn yr awyr agored. Mae'n amlwg iawn bod y mwyafrif helaeth o blant yn y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau dod i'r ysgol.

Mae bron pob un o'r plant mewn lleoliadau nas cynhelir ac mewn ysgolion cynradd yn gwybod beth yw bwyd iach a pha mor bwysig yw gwneud ymarfer corff. Mae llawer ohonyn nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol er mwyn cadw'n heini. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion uwchradd yn deall sut i fod yn iach ac maen nhw'n cymryd rhan mewn amrywiaeth fawr o weithgareddau corfforol. Mae dysgwyr yn elwa o gael amrywiaeth o gymorth, arweiniad a chyngor proffesiynol.

Mae'r holl blant bron mewn lleoliadau nas cynhelir yn cymryd rhan yn dda mewn gweithgareddau dysgu, maen nhw'n cyd-chwarae â phlant eraill ac mae'n amlwg eu bod nhw'n deall y rheolau a'r drefn arferol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, mae eu hagwedd tuag at ddysgu'n gadarnhaol ac maen nhw'n frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant. Mae ymddygiad y disgyblion a'u hagwedd at ddysgu'n dda neu'n well mewn llawer o'r ysgolion uwchradd, ac yn dda iawn mewn tua thraean o'r ysgolion. Mae'r holl ddisgyblion bron yn yr ysgolion arbennig yn ymddwyn yn dda ac yn cyfrannu'n frwdfrydig at eu dysgu. Parhau i ostwng mae niferoedd y gwaharddiadau parhaol a'r gwaharddiadau cyfnod penodol, sy'n gyson â phatrwm y blynyddoedd diwethaf.

Ym mhob un o'r ysgolion cynradd bron, mae'r disgyblion yn ystyriol o bobl eraill ac yn eu trin â pharch a gofal. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn barod iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, er enghraifft fel cynghorwyr ysgol neu fel aelodau o bwyllgorau eco. Ond mewn lleiafrif o'r ysgolion mae rôl y disgyblion yn y dasg o benderfynu sut a beth y byddan nhw'n ei ddysgu'n rhy fach.

Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau bywyd a'u medrau cymdeithasol yn dda. Maen nhw'n cymryd rhan yn aml mewn gweithgareddau cymunedol ac yn cyfrannu at benderfyniadau ar y gwahanol agweddau ar fywyd yr ysgol mewn meysydd fel gwella'r amgylchedd, fel rhan o waith cyngor yr ysgol. Yn ychydig o'r ysgolion lle mae cyfraniad y disgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol yn arbennig o gadarn, mae ganddyn nhw rôl bwysig yn y gweithgareddau hunanarfarnu ac yn y broses o ddatblygu cynlluniau gwella'r ysgol. Mewn lleiafrif sylweddol o'r ysgolion, maen nhw'n cael rhoi barn ar yr hyn y byddan nhw'n ei ddysgu a sut y byddan nhw'n dysgu.

Yr un dangosydd lles sy'n parhau'n siomedig yw lefel y presenoldeb. Nid yw cyfraddau presenoldeb yn yr ysgolion cynradd wedi newid fawr ddim dros y chwe blynedd diwethaf. Er eu bod nhw'n gwella'n araf yn yr ysgolion uwchradd, mae'r cyfraddau'n dal yn is na rhai Lloegr.

“

“Yr un dangosydd lles sy'n parhau'n siomedig yw lefel y presenoldeb. Nid yw cyfraddau presenoldeb yn yr ysgolion cynradd wedi newid fawr ddim dros y chwe blynedd diwethaf.”



Strategaethau ar gyfer gwella medrau llythrennedd

Yn adroddiad blynyddol y llynedd, dywedais fod lefel llythrennedd sylfaenol gormod o oedolion yn isel er gwaethaf y ffaith fod y lefel wedi codi rhywfaint yn ystod y chwe blynedd flaenorol. Soniais hefyd fod oed darllen tua 40% o'r disgyblion sy'n cyrraedd yr ysgolion uwchradd yn is na'u hoed cronolegol. Os nad yw disgyblion wedi cyrraedd lefel briodol o lythrennedd, ni allan nhw ddarllen yn ddigon da i gadw i fyny â'r gwaith yn eu gwersi. Ac, yn nes ymlaen, ni fyddan nhw'n gallu mynd yn eu blaenau at lefel uwch o addysg a hyfforddiant, na chyfrannu'n llawn at eu cymunedau neu fel aelodau o'r gweithlu.

Rydyn ni'n gwybod bod datblygu'r medrau llythrennedd hanfodol yn effeithio'n gadarnhaol ar y safonau ym mhob un o'r pynciau. Dyma pam mae'r ysgolion gorau'n rhoi cymaint o bwyslais ar wella darllen ac ysgrifennu eu disgyblion.

Mae'r ysgolion yma wedi llwyddo i wneud hyn drwy:

- ddefnyddio chwarae creadigol, dramâu a storïau i ennyn brwdfrydedd disgyblion ac i'w helpu i ddysgu medrau llefaredd;
- datblygu medrau llefaredd y disgyblion er mwyn codi eu hyder yn eu gallu i ddweud stori ac i drosi syniadau a delweddau'n storïau ysgrifenedig;
- cynnig dewis da o ddeunyddiau darllen cyffrous a chyfleoedd ysgrifennu sy'n apelio at y disgyblion ac yn eu hysgogi i ddysgu;
- addysgu ffoneg yn rheolaidd;
- rhoi systemau ysgol-gyfan ar waith a fydd yn datblygu llythrennedd y disgyblion o gam i gam ym mhob un o feysydd y cwricwlwm;
- cynllunio cyfleoedd cyson i'r disgyblion gymhwyso'u medrau mewn amrywiaeth fawr o wersi a chyd-destunau; a
- gwneud yn siŵr bod athrawon yr holl bynciau'n defnyddio dull cyson o asesu ac o olrhain cynnydd y disgyblion mewn llythrennedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn gofyn i athrawon gofnodi'r adegau yn ystod eu gwersi pan fyddan nhw'n rhoi sylw i agweddau ar fedrau llythrennedd. Ond, yn ymarferol, ychydig iawn sydd wedi gosod cynllun manwl ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion o gam i gam ym mhob un o feysydd y cwricwlwm. Yn un o bob pump o'r ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu, dim ond digonol yw'r gwaith cynllunio cwricwlwm, ac nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso'u medrau ym mhob rhan o'r cwricwlwm, yn enwedig eu medrau ysgrifennu. Yn chwarter o leiaf o'r adroddiadau arolygu ar ysgolion cynradd, mae'r arolygwyr yn dweud bod angen gwella'r medrau llythrennedd, a'r medrau ysgrifennu'n benodol, ac y dylai'r ysgolion wella'r gwaith o gynllunio ar gyfer dilyniant.

“

“Yn un o bob pump o'r ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu, dim ond digonol yw'r gwaith cynllunio cwricwlwm, ac nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso'u medrau ym mhob rhan o'r cwricwlwm, yn enwedig eu medrau ysgrifennu.”

Yn yr un ffordd, dim ond ychydig o'r ysgolion uwchradd sy'n dechrau'r broses gyda chynllun i ddatblygu medrau, gan seilio'u cwricwlwm ar y cynllun hwnnw. Nid yw chwarter yr ysgolion uwchradd yn cydlynu'r ddarpariaeth medrau'n briodol nac yn monitro cysondeb ac effaith y ddarpariaeth yn y gwersi ar draws y cwricwlwm. Roedd mwy na thraean o'r adroddiadau arolygu ar ysgolion uwchradd eleni'n argymhell bod lle i wella'r dull o gydlynu medrau ar draws y cwricwlwm ac i gynllunio ar gyfer dilyniant.

Cynllunio ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

Yn rhy aml, mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm fel pynciau ar wahân, heb ystyried yn ddigon aml fod pynciau fel hanes neu ddaearyddiaeth yn gallu bod yn gyd-destun i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif, darllen ac ysgrifennu estynedig yn ddigon aml yng nghyd-destun yr holl bynciau.

Dim ond ychydig o'r ysgolion sy'n seilio'u gwaith o gynllunio'r cwricwlwm cyfan ar fedrau. Mae'r ysgolion yma'n cynllunio gweithgareddau sy'n mynd yn fwy cymhleth wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol. Y nod yw datblygu o gam i gam eu medrau meddwl, cyfathrebu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a rhif. Yn yr achosion da lle mae'r ysgolion yn cynllunio'r cwricwlwm ar sail medrau, mae'r athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer pob grŵp oed. Maen nhw'n cynllunio gwersi pwnc neu wersi â thema'n bwrpasol i ddatblygu medrau penodol.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn cyfeiriwch at ein cylch gwaith ar 'Y Fframwaith Sgiliau ar gyfer cyfnod allweddol 2.'

Llythrennedd o'r blynyddoedd cynnar trwy gydol oes

Yn gyffredinol mae'r Cyfnod Sylfaen yn effeithio'n gadarnhaol ar siarad, gwrando a darllen y plant. Erbyn hyn mae plant yn cael mwy o gyfleoedd a chyfleoedd gwell i siarad, ac mae ganddyn nhw bethau mwy cyffrous i siarad amdany'n nhw. Er hynny, araf yw cynnydd lleiafrif o'r plant mewn ysgrifennu wrth iddyn nhw symud drwy'r Cyfnod Sylfaen. Yn tua chwarter yr ysgolion cynradd, nid yw gwaith ysgrifennu'r plant yn y Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd safon ddigon da. Mewn lleiafrif o'r ysgolion, nid yw'r athrawon yn siŵr faint o addysgu uniongyrchol ddylai gael ei wneud yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn golygu weithiau nad oes digon o addysgu uniongyrchol o'r medrau darllen ac ysgrifennu pwysig yn cael ei wneud.

Mae llawer o ddisgyblion y mwyafrif o'r ysgolion cynradd yn datblygu medrau darllen priodol o fewn y cwricwlwm sydd ar gael, ac maen nhw'n gallu darllen mewn gwahanol gyd-destunau. Ond mae oed darllen lleiafrif o ddisgyblion yr ysgolion yma'n llawer is na'u hoed cronolegol. Yn ychydig o'r ysgolion, nid yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn gywir ac nid ydyn nhw'n deall y deunydd yn ddigon da.

Nid yw medrau ysgrifennu disgyblion wedi datblygu gystal â'u medrau darllen erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, ac nid yw mwyafrif ohonyn nhw'n ysgrifennu darnau hir nac yn dysgu i wella'u gwaith drwy ailddrafftio. Ychydig o ddisgyblion sy'n ysgrifennu'n dda neu'n ysgrifennu darnau hir mewn pynciau heblaw am y Gymraeg fel iaith gyntaf neu'r Saesneg. Er enghraifft, nid yw disgyblion hŷn yn ysgrifennu disgrifiadau manwl yn hanes nac yn gwneud nodiadau cynhwysfawr ar yr ymchwiliadau gwyddoniaeth maen nhw wedi'u cynnal.

At ei gilydd mae deilliannau asesiadau athrawon ar gyfer iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn rhy hael. Er hynny, dim ond gwelliannau bach oedd i'w gweld yn y ffigurau yn y blynyddoedd diwethaf o ran canrannau'r disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 4 a ddisgwylir mewn darllen ac ysgrifennu mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg. Mae'r safonau mewn ysgrifennu'n dal yn is na'r safonau mewn darllen. Mae merched yn dal i wneud yn well na bechgyn ym mhob mesur, yn enwedig mewn darllen, er bod y bwch wedi lleihau ychydig ers y llynedd.

Yn yr ysgolion uwchradd, mae asesiadau'r athrawon yng nghyfnod allweddol 3 yn awgrymu darlun sy'n gwaethygu. Mae'r safonau mewn ysgrifennu'n dal yn is na'r safonau mewn darllen. Mae tua un o bob deg o'r disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwylidig mewn darllen ac ysgrifennu ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn methu gwneud digon o gynnydd i gyrraedd y lefel 5 a ddisgwylir erbyn diwedd cyfnod allweddol 3.

Yn achos tua un o bob wyth o'r ysgolion uwchradd lle mae'r safonau'n rhagorol, mae'r disgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn effeithiol. Er enghraifft, maen nhw'n darllen ac yn cyfod gwybodaeth yn dda ac yn defnyddio gwahanol arddulliau i'w chyflwyno i wahanol gynulleidfaoedd. Mae llawer o'r disgyblion yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yn deall y deunydd maen nhw'n ei ddarllen, ac maen nhw'n casglu ac yn dehongli gwybodaeth yn dda. Ond yn ychydig o'r ysgolion, mae medrau darllen lleiafrif o'r disgyblion yn brin, ac mae hyn yn amharu ar eu cynnydd ym mhob pwnc. Yn yr ysgolion yma, nid yw'r disgyblion mwy galluog yn cael digon o gyfleoedd cyson i astudio ac i ddadansoddi testunau cymhleth.

Addysgu ffoneg yn systematig

Mae Ysgol Gynradd Coed Efa yng Nghwmbrân yn addysgu ffoneg yn systematig i blant yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r plant yn mynd ati'n rheolaidd i ymarfer er mwyn datblygu o gam i gam wrth ddilyn y rhaglen. Mae cyflymder cyflwyno'r rhaglen yn sicrhau bod plant yn dysgu'r medrau sy'n angenrheidiol i ddatblygu eu darllen yn gyflym. Dyma nodweddion y rhaglen:

- mae'n glir, yn systematig ac yn datblygu o gam i gam drwy gydol y Cyfnod Sylfaen;
- mae'r sesiynau ffoneg yn cael eu cynnal yn aml ac yn rheolaidd;
- mae'r dull o gyflwyno'r rhaglen yn fywiog ac mae'n osgoi ailadrodd diangen; ac
- mae'r athrawon yn cymell y plant drwy ddefnyddio dulliau diddorol, fel defnyddio amgylchedd yr awyr agored i chwilio am eiriau sy'n dechrau gyda'r un sain.

Am fod y dull cyflwyno'n systematig, mae'r plant yn casglu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau ffoneg angenrheidiol ar yr adeg iawn. Mae'r rhaglen wedi effeithio'n sylweddol ar safonau llythrennedd pob disgybl.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn cyfeiriwch at ein cylch gwaith ar '**Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen.**'

“

“Ble mae'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio'n dda, mae lleiafrif sylweddol o'r dysgwyr yn dysgu'r medrau yma ar lefel uwch na'r hyn sy'n ofynnol yn ôl eu fframwaith cymwysterau”



Yn llawer o'r ysgolion uwchradd, mae cyfleoedd da ar gael i'r disgyblion ysgrifennu'n glir ar gyfer amryw o wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd. Maen nhw'n gallu ysgrifennu adroddiadau manwl am ddigwyddiadau ym mhynciau'r dyniaethau. Ond yn chwarter yr ysgolion uwchradd, nid yw safonau ysgrifennu'r disgyblion gystal â'r agweddau eraill ar lythrennedd. Yn yr achosion yma, nid yw'r disgyblion yn ysgrifennu digon o ddarnau hir, ac maen nhw'n gwneud camgymeriadau sylfaenol mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi hen sefydlu mentrau i wella llythrennedd. Ond mae'n anodd barnu effaith y mentrau yma ar safonau gan nad yw swyddogion yn mynd ati'n ddigon da i olrhain cynnydd y disgyblion.

At ei gilydd, mae'r sefydliadau addysg bellach yn cynnig dewis da o gyfleoedd i'w dysgwyr ddatblygu a gwella'u medrau llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn datblygu'r medrau yma'n dda, ac mae gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf ohonyn nhw'n briodol i'w lefel astudio. Er hynny, mae gallu dysgwyr y sefydliadau addysg bellach i ennill eu cymwysterau medrau hanfodol yn amrywio cryn dipyn. Yn yr un ffordd, mae cryn dipyn o amrywiaeth i'w weld yng nghynnydd dysgwyr y lleoliadau dysgu yn y gwaith o safbwynt ennill cymwysterau medrau hanfodol. Ble mae'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio'n dda, mae lleiafrif sylweddol o'r dysgwyr yn dysgu'r medrau yma ar lefel uwch na'r hyn sy'n ofynnol yn ôl eu fframwaith cymwysterau. Mae gormod o ddarparwy yn peidio â rhoi digon o flaenoriaeth i ddatblygu medrau llythrennedd y dysgwyr.

Mae gan y rhan fwyaf o'r dysgwyr sy'n oedolion mewn lleoliadau dysgu yn y gymuned y medrau llythrennedd sy'n angenrheidiol i lwyddo ar eu cyrsiau. Er hynny, mae gormod o amrywio o ran faint o'r dysgwyr ar gyrsiau addysg sylfaenol i oedolion sy'n mynd ymlaen i ennill y cymwysterau roedden nhw'n gobeithio'u cael. Nid oes digon o ddarpariaeth ar draws Cymru i gynorthwyo oedolion i wella'u medrau sylfaenol. Nid oes digon o oedolion y mae lefel eu medrau sylfaenol yn isel, yn symud ymlaen i gymwysterau lefel 2. Ar ben hynny, nid yw darparwy addysg sylfaenol i oedolion yn cynllunio'n ddigon da i ddenu dysgwyr sy'n oedolion ifanc sydd heb ennill cymwysterau lefel 2 yn Saesneg neu fathemateg tra'r oedden nhw yn yr ysgol.

Oedrannau darllen

Roedd adroddiad blynyddol y llynedd yn awgrymu bod angen datblygu dull o asesu medrau llythrennedd sy'n gyffredin i Gymru gyfan. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i gyflwyno fframwaith llythrennedd cenedlaethol a phroffion darllen gorfodol i ddisgyblion.

Eleni, fe wnaethom arolwg o ysgolion uwchradd eto er mwyn canfod sut mae ysgolion yn gwneud profion ar fedrau darllen disgyblion. Anfonodd tua 50 o ysgolion ymateb a oedd i raddau helaeth yn cadarnhau canfyddiadau'r llynedd. At ei gilydd, mae oed darllen 40% o'r disgyblion ar adeg eu derbyn i ysgolion uwchradd dros chwe mis yn is na'u hoed cronolegol. Mae oed darllen 20% yn is na naw mlynedd a chwe mis, sef y lefel sy'n cael ei derbyn yn gyffredinol fel lefel llythrennedd gweithredol. Mae oed darllen tua 20% arall rhwng chwech a 18 mis yn is na'u hoed gwirioneddol. Mae'r ffigurau yma'n uwch na'r disgwyl, gan mai dim ond tua 17% o'r disgyblion yn 2011 oedd wedi methu cyrraedd y lefel ddarllen ddisgwyliedig yn asesiadau'r athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Nid yw'r asesiadau yma gan athrawon yn cynnwys profion uniongyrchol i fesur oed darllen.

Mae tua dwy o bob tair o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd yn cael data ar oedrannau darllen y disgyblion oddi wrth eu hysgolion cynradd partner. Mae llawer o'r ysgolion uwchradd yn teimlo bod y wybodaeth yma'n ddefnyddiol. Ond nid yw lleiafrif o'r ysgolion uwchradd yn cael unrhyw wybodaeth am oedrannau darllen oddi wrth eu hysgolion cynradd partner.

Mae bron yr holl ysgolion uwchradd yn asesu oedrannau darllen y disgyblion ar adeg eu derbyn i Flwyddyn 7, fel arfer yn ystod eu mis cyntaf yn yr ysgol. Mae'r ysgolion yn defnyddio llawer o wahanol broffion i wneud hyn, ac mae tua hanner yr ysgolion yn gwneud profion darllen pellach, gan amlaf ym Mlwyddyn 8 neu Flwyddyn 9. O'r ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg, mae tua dwy ysgol o bob pump yn cynnal profion darllen bob blwyddyn trwy gydol cyfnod allweddol 3. Mae llawer o'r ysgolion yn gwneud profion darllen pellach ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arny'n nhw gyda'u darllen.

Medrau llythrennedd mewn addysg bellach

Fe gynhalion ni arolwg tebyg o addysg bellach yng Nghymru. Gofynnion ni i'r sefydliadau ddweud wrthym sut maen nhw'n mynd ati i asesu medrau llythrennedd dysgwyr ar adeg eu cofrestru yn y coleg, pa gymorth mae'r coleg yn ei gynnig, a beth yw effaith y cymorth yma ar gynnydd y dysgwyr. Llenwodd tua hanner y sefydliadau'r holiadur. Gwelom fod sefydliadau addysg bellach yn gwneud asesiad cychwynnol o fedrau bron yr holl ddysgwyr.

Yn 2010-2011, aseswyd bod medrau llythrennedd tua un o bob pum dysgwr yn is na lefel 1, a medrau bron i dri o bob pump ar lefel 1. Roedd tua chwarter y dysgwyr ar lefel 2. Mae'r sefydliadau'n cynnig dewis o raglenni cymorth llythrennedd, gan gynnwys cymorth y tu allan i'r dosbarth, cymorth un-i-un yn y dosbarth a chymorth yn y dosbarth i grwpiau bach. Roedd llai nag un o bob tri o'r dysgwyr a gafodd gyfle i gael cymorth y tu allan i'r dosbarth wedi mynd i'r sesiynau yma am dymor llawn, a dim ond tua un o bob chwe dysgwr oedd yn dal i fynd ar ôl tymor. Manteisiodd llai na hanner y dysgwyr a gafodd gyfle i gael cymorth un-i-un yn y dosbarth ar yr opsiwn yma, a tua dau o bob tri dysgwr a gafodd gyfle i gael cymorth yn y dosbarth i grwpiau bach a fanteisiodd ar y cynnig.

Mae llawer o sefydliadau addysg bellach yn peidio â mesur effaith eu rhaglenni cymorth ar safonau llythrennedd y dysgwyr.

Dysgu Cymraeg fel ail iaith

Eleni, llwyddodd tua hanner y disgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i gyrraedd y lefel a ddisgwylir mewn Cymraeg fel ail iaith erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Er bod y gyfran yma'n welliant ar y llynedd, mae'n dal yn is na'r gyfran ar gyfer yr holl bynciau eraill. Mae llawer o'r disgyblion yn cychwyn yn dda wrth ddysgu Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, ond nid ydyn nhw'n datblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da yng nghyfnod allweddol 2. Nid yw'r athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i'r disgyblion yma ddatblygu eu gwybodaeth a'u gallu i ddeall yr iaith. Nid yw eu disgwyliadau o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni'n ddigon uchel. Y rheswm pennaf am hyn yw nad yw llawer o'r athrawon yn ddigon hyderus ac nid oes ganddyn nhw ddigon o wybodaeth i addysgu'r iaith ar y lefel uchel sy'n briodol.

Yn yr un ffordd, yn llawer o'r ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion wella'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg heblaw yn y gwersi Cymraeg. Yn 2011, llwyddodd tua dau o bob tri disgybl cyfnod allweddol 3 i gyrraedd y lefel 5 ddisgwylidig neu lefel uwch mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae hyn yn cynnal y gwelliant cyson rydyn ni wedi'i weld dros y pum mlynedd diwethaf. Ond mae safonau Cymraeg fel ail iaith yn dal yn is na'r safonau yn yr holl bynciau eraill, ac mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a pherfformiad merched yn fwy hefyd nag ar gyfer yr holl bynciau eraill.

Dim ond tua dau o bob tri disgybl yng nghyfnod allweddol 4 sy'n ennill cymhwyster cydnabyddedig mewn Cymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith. Mae tuedd tuag i lawr wedi bod yng nghyfran y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg fel ail iaith. Yn 2011, llai na hanner y disgyblion a oedd yn cymryd arholiad TGAU mewn Cymraeg fel ail iaith oedd wedi cofrestru ar gyfer y cwrs llawn.

Nid oes digon o gyrsiau cyfrwng Cymraeg neu gyrsiau dwyieithog o hyd i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yn y cyfnod ôl-16. Yn hanner y sefydliadau addysg

bellach a gafodd eu harolygu eleni, mae'r dysgwyr yn gallu datblygu eu medrau Cymraeg, er enghraifft, trwy raglen Bagloriaeth Cymru ac mewn dosbarthiadau a thiwtorialau eraill. Ond ychydig o'r dysgwyr yma sy'n cwblhau eu gwaith cwrs neu eu haseiniadau yn Gymraeg. Yn y sefydliadau eraill a gafodd eu harolygu, mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn brin iawn. Araf hefyd yw'r gwelliant yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn dysgu yn y gwaith, a dim ond ychydig o'r darparwyr sy'n annog y dysgwyr i astudio neu i gwblhau eu hasesiadau yn Gymraeg.

Hyd yn oed yn yr ardaloedd lle mae llawer o bobl yn siarad yr iaith, dim ond ychydig o gyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan fyddan nhw'n cael y cyfle, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr sy'n Gymry Cymraeg ac yn oedolion yn dod yn eu blaenau'n dda.

Yn y ganolfan Cymraeg i oedolion a gafodd ei harolygu eleni, mae dewis da o gyrsiau ar gael ar bob lefel. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr Cymraeg i oedolion yn llawn brwdfrydedd, yn dod yn eu blaenau'n dda ac yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn aml.

Y safonau mae grwpiau penodol o ddysgwyr yn eu cyflawni

Mae gan y gwahanol grwpiau o ddysgwyr eu gwahanol anghenion dysgu eu hunain. Ymhlith y grwpiau yma mae **dysgwyr dan anfantais, disgyblion mwy galluog a dawnus, a dysgwyr sy'n oedolion hŷn**. Mae dysgwyr dan anfantais yn cynnwys dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd fel plant sy'n derbyn gofal a phlant sipiwn a theithwyr, a dysgwyr sydd wedi'u hadnabod fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Erbyn hyn mae'r fframwaith arolygu cyffredin newydd yn gofyn yn benodol i arolygwyr edrych ar ddulliau'r darparwyr o adnabod yr anghenion yma a rhoi sylw iddyn nhw.

Mae'r cymorth mae darparwyr yn ei gynnig i'r grwpiau yma o ddysgwyr yn amrywio'n fawr. Ar y cyfan, nid yw darparwyr yn defnyddio data na systemau asesu'n ddigon da i adnabod grwpiau o ddysgwyr sy'n tangyflawni, nac i olrhain cynnydd y dysgwyr hynny. Ar ôl iddyn nhw gael eu hadnabod, mae angen cymorth penodol a phwrpasol ar y dysgwyr yma i'w helpu i wireddu eu potensial. Maen nhw hefyd angen addysgu a dysgu da. Ond at ei gilydd nid yw'r ddarpariaeth yn ddigon pwrpasol nac yn cael ei thargedu'n ddigon gofalus i ddiwallu anghenion y dysgwyr yma.

Dysgwyr dan anfantais

Mae'r ychydig o ysgolion sy'n cynorthwyo dysgwyr dan anfantais yn dda, yn dadansoddi data'n drylwyr er mwyn gallu gweld ble i dargedu cymorth a ble i weithredu dulliau systematig, ysgol-gyfan i gynorthwyo'r dysgwyr yma. Mae'r ysgolion yma'n teilwra'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion y dysgwyr i gyd, ac maen nhw'n codi cyflawniad dysgwyr dan anfantais drwy roi pwyslais ar roi gwaith i'r disgyblion mewn gwersi a fydd yn gwella medrau penodol. Maen nhw hefyd yn cynnig mentora i ddisgyblion unigol, a chymorth ychwanegol gyda medrau sylfaenol a gwaith cartref.

Dim ond ychydig o ysgolion sydd wedi gosod amcan penodol i dargedu cymorth at ddysgwyr dan anfantais yn y cyfnod trosglwyddo rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Nid yw'r holl wybodaeth am ddysgwyr dan anfantais yn cael ei throsglwyddo'n systematig o'r ysgolion cynradd i'r ysgolion uwchradd o hyd. At ei gilydd, nid yw'r ysgolion yn datblygu'r cysylltiadau sydd ganddyn nhw ag ysgolion eraill yn ddigon da i rannu a datblygu eu strategaethau i fynd i'r afael ag anfantais.

Mae bron yr holl ddarparwyr dysgu yn y gwaith a'r sefydliadau addysg bellach yn cynnig rhaglenni addas i ddysgwyr o ardaloedd o amddifadedd er mwyn iddyn nhw aros mewn addysg neu hyfforddiant. Yn gyffredinol mae gwybodaeth ar gael gan ddarparwyr sy'n nodi canran y dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd. Er hynny, nid yw darparwyr yn mynd ati'n ddigon da i ddadansoddi data am ddysgwyr i wybod a ydyn nhw'n denu cyfran ddigon uchel o ddysgwyr o ardaloedd o amddifadedd. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn cael gofal, cymorth ac arweiniad da. Ond nid yw'r darparwyr yn monitro lefel y cymorth i ddysgwyr o ardaloedd o amddifadedd na'r nifer sy'n cael cymorth. Ac nid ydyn nhw'n dadansoddi data ar gyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad y dysgwyr yn ddigon da i ddangos effaith y trefniadau arweiniad a chymorth yma ar berfformiad y dysgwyr. Dim ond nifer bach o'r darparwyr sy'n cymharu cyflawniadau dysgwyr o ardaloedd o amddifadedd neu gyflawniadau dysgwyr sy'n derbyn cymorth ariannol, yn erbyn perfformiad dysgwyr eraill.

Dull ysgol-gyfan o gynorthwyo dysgwyr dan anfantais

Mae Ysgol Bryngwyn yn Llanelli wedi rhoi strategaethau llwyddiannus ar waith i wella presenoldeb, agweddau a chyflawniad dysgwyr dan anfantais.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr [astudiaeth achos](#).

“

“Er hynny, nid yw darparwyr yn mynd ati'n ddigon da i ddadansoddi data am ddysgwyr i wybod a ydyn nhw'n denu cyfran ddigon uchel o ddysgwyr o ardaloedd o amddifadedd.”

Dysgwyr Sipsiwn a Theithwyr

Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn wynebu heriau arbennig o ran gwella deilliannau disgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Y ffactorau pwysicaf o ran gwella deilliannau disgyblion Sipsiwn a Theithwyr yw gwella'u presenoldeb a'u hagwedd at yr ysgol. Mae hon yn her fawr i'r staff sy'n gweithio gyda'r dysgwyr yma. Mae'n golygu newid agweddau sydd wedi'u sefydlu'n gadarn yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr ac yn yr ysgolion eu hunain.

Er bod camau gweithredu staff awdurdodau lleol yn dechrau gwella cyfraddau presenoldeb mewn rhai achosion prin, mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol disgyblion Sipsiwn a Theithwyr oed ysgol uwchradd yn dal yn rhy isel.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn addasu eu dulliau gweithredu i ddiwallu anghenion disgyblion Sipsiwn a Theithwyr. At ei gilydd, ychydig o ysgolion uwchradd sydd wedi rhoi polisiau neu arferion ar waith i roi sylw i'w hanghenion. Ychydig o ysgolion sy'n addasu'r cwricwlwm i geisio gwneud y disgyblion eraill yn fwy ymwybodol o draddodiadau a gwerthoedd teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Strategaethau effeithiol i gynorthwyo disgyblion Sipsiwn a Theithwyr

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff yn Wrecsam wedi datblygu strategaethau effeithiol i gynorthwyo disgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r strategaethau wedi helpu i leihau cyfraddau gwahardd ac wedi cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr [astudiaeth achos](#).

“

“Mae hon yn her fawr i'r staff sy'n gweithio gyda'r dysgwyr yma. Mae'n golygu newid agweddau sydd wedi'u sefydlu'n gadarn yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr ac yn yr ysgolion eu hunain.”

Dysgwyr mwy galluog a dawnus

Ar y cyfan, nid yw ysgolion cynradd yn adnabod disgyblion mwy galluog a dawnus yn ddigon da, nac yn cynnig digon o her i ymestyn y disgyblion yma. Nid oes digon o'r disgyblion yma'n cyflawni ar lefel uwch na'r lefel a ddisgwylir ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

Yn yr ychydig o ysgolion cynradd sy'n cynnig y ddarpariaeth orau, mae dadansoddi data a deilliannau asesu'n drylwyr yn helpu i adnabod y disgyblion mwy galluog a dawnus.

Yn yr ysgolion yma, mae'r disgyblion yn cael eu hadnabod, ac mae dewis da o ddarpariaeth ychwanegol ar gael ar eu cyfer. Mae'r athrawon yn olrhain eu cynnydd yn ofalus.

Ble mae'r ddarpariaeth yn dda, fe welon ni dulliau dysgu ac addysgu cyson ar draws yr ysgolion. Mae gweithgareddau allgyrsiol mwy perthnasol ar gael, ac mae cysylltiadau cadarn ag ysgolion uwchradd i hwyluso'r trosglwyddo ac i sicrhau bod gweithgareddau heriol a datblygu addas yn parhau.

Ble mae'r ysgolion yn hyrwyddo dulliau dysgu unigol neu bersonol, mae'r disgyblion mwy galluog a dawnus yn elwa'n fawr, yn enwedig o gael rheolaeth dros eu dulliau dysgu eu hunain a'r hyn y maen nhw'n ei ddysgu.

Dysgwyr hŷn

Yn gyffredinol, mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ar draws Cymru'n cynnig cymorth effeithiol i ddysgwyr rhwng 50 a 65 oed sydd heb fod mewn gwaith neu sy'n perthyn i grwpiau sydd heb fod yn manteisio ar ddysgu y tu allan i'w cymunedau. Drwy gyfleoedd dysgu yn y gymuned, mae llawer o'r bobl hŷn yma wedi datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac wedi gwella'u gobaieth o gael swyddi.

Ond nid yw dysgwyr hŷn, yn enwedig y rhai sydd dros 65 oed ac wedi ymddeol, yn cael yr un cyfleoedd addysg a chyfleoedd datblygu medrau a allai sicrhau eu hiechyd a'u lles yng nghyfnod nesaf eu bywydau. Y rheswm am hyn yw bod y pwyslais presennol ar 'fedrau ar gyfer cyflogaeth', ac mae hyn yn golygu bod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn sydd ddim yn chwilio am waith. Mae'r cwricwlwm sydd ar gael i'r dysgwyr hŷn yma, gan gynnwys y rhai sy'n gallu talu am gyrsiau, yn anhyblyg ac nid yw'n diwallu eu hanghenion nac yn hybu dysgu gydol oes yn gadarnhaol.

“

“Ble mae'r ysgolion yn hyrwyddo dulliau dysgu unigol neu bersonol, mae'r disgyblion mwy galluog a dawnus yn elwa'n fawr, yn enwedig o gael rheolaeth dros eu dulliau dysgu eu hunain a'r hyn y maen nhw'n ei ddysgu.”

Yr arweinyddiaeth mae llywodraethwyr ysgolion yn ei darparu

Mae llywodraethwyr llawer o'r ysgolion yn cyflawni eu rôl yn gyffredinol dda, ac yn cynorthwyo gwaith yr ysgol. Ond yn tua chwarter yr ysgolion, prin ar y cyfan yw gwybodaeth y llywodraethwyr am ddata perfformiad yr ysgol, er eu bod nhw'n gwybod llawer am sawl agwedd ar ei bywyd. Nid ydyn nhw chwaith yn cymharu deilliannau'r ysgol â deilliannau ysgolion tebyg, ac anaml iawn y maen nhw'n herio arweinwyr yr ysgol neu'n eu gwneud yn atebol.



Yn yr ysgolion lle barnwyd mai digonol yn unig oedd yr arweinyddiaeth, nid yw'r llywodraethwyr yn bodloni'r gofynion statudol fel cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu neu greu adroddiadau blynyddol addas i'r rhieni. Yn yr ysgolion anffodhaol, nid oes gan y llywodraethwyr ddigon o wybodaeth am flaenoriaethau'r ysgol nac am berfformiad y disgyblion.

Os yw llywodraethwyr i gyflawni eu rôl yn effeithiol, mae angen gwybodaeth arny'n nhw am agweddau allweddol penodol ar waith yr ysgol. Mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgolion yn paratoi adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd llawn o'r llywodraethwyr o leiaf unwaith y tymor. Mae is-bwyllgorau gan gyrrff llywodraethol hefyd, ac mae'r rhain yn canolbwyntio ar feysydd llywodraethu penodol fel cyllideb yr ysgol, staffio neu'r cwricwlwm. Er hynny, yn yr ysgolion ble mae'r arweinyddiaeth yn wan, mae'r wybodaeth mae'r cyrrff llywodraethol yn ei chael yn ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw sicrhau bod yr arweinwyr yn gorfod bod yn atebol am eu gwaith. Mewn gormod o achosion, mae'r penaethiaid yn cyflwyno data perfformiad yr ysgol a mathau eraill o wybodaeth mewn ffordd sy'n cuddio unrhyw broblemau. Mae hyn yn arwain at rywfaint o laesu dwylo sy'n nodweddiadol o lawer o ysgolion

sydd heb fod yn gwella. O ganlyniad, mae'r llywodraethwyr dan gamargraff weithiau ynglŷn â pherfformiad yr ysgol, ac maen nhw'n synnu pan fydd yr arolygwyr yn codi pryderon.

Yn yr ysgolion gorau, mae gweledigaeth glir gan y llywodraethwyr sydd wedi'i seilio ar gymeriad ac ethos unigryw'r ysgol. Mae hyn yn eu helpu i chwarae rhan gadarn yn y gwaith o osod cyfeiriad yr ysgol. Yn y rôl strategol hon, mae'r corff llywodraethol yn cymryd rhan mewn deialog fywiog a heriol am y camau y dylai'r ysgol eu cymryd i sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni ar lefel uchel, a rhagoriaeth i bawb.

Ar eu gorau, mae'r llywodraethwyr yn ymwneud yn drwyadl â'r ysgol a'i chymuned, a hefyd â'r awdurdod lleol. Mae presenoldeb gan y llywodraethwyr yn yr ysgol, ac maen nhw'n chwarae rhan mewn agweddau ar waith yr ysgol ac yn dysgu gymaint ag y gallan nhw am yr ysgol. Drwy ymweld ag ysgol, bydd y llywodraethwyr yn gallu arfarnu ei gwaith yn fwy effeithiol. Pan fydd y pwyslais wedi cael ei gytuno o flaen llaw a phan fydd pawb sy'n gysylltiedig yn deall eu pwrpas, gall yr ymweliadau yma fod yn gefnogol. Gallan nhw hefyd fod yn ffordd o adeiladu parch rhwng y staff a'r corff llywodraethu ac i ymddiried

yn ei gilydd. Drwy ddatblygu'r cyswllt â'r awdurdod lleol a chymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi, bydd y llywodraethwyr yn gallu dysgu mwy am eu rôl a gwella'u medrau.

Mae rôl bwysig gan lywodraethwyr i'w chwarae ym mhroses hunanarfarnu'r ysgol ac wrth gynllunio ar gyfer gwella. Dylai llywodraethwyr ystyried sut mae eu hysgol yn perfformio o gymharu â'r ysgolion eraill yn eu teulu o ysgolion a'r ysgolion sy'n wynebu heriau tebyg yn ôl y meincnod prydau-ysgol-am-ddim. Mae'r wybodaeth yma ar gael i bob ysgol, a dylai'r llywodraethwyr drafod y prif negeseuon a gofyn y cwestiynau heriol fel eu bod yn gallu gwneud yr ysgol yn atebol. Yn aml, pan fydd ysgol yn perfformio'n well nag ysgolion tebyg, y ffaith fod yr ysgol yn rhoi pwyslais pendant ar godi safonau sy'n gyfrifol am hynny. Bydd gan arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol ddisgwyliadau uchel a byddant yn chwilio'n gyson am ffyrdd o wella.

Arfer dda yng ngwaith llywodraethu Ysgol Emmanuel

Mae Ysgol Emmanuel yn y Rhyl yn gwasanaethu ardal sydd dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd, ac mae hawl gan 49% o'i disgyblion i gael prydau ysgol am ddim. Pan gafodd yr arolygiad ei gynnal, roedd 406 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr, ac roedd 61 plentyn arall yn mynychu'r feithrinfa'n rhan amser.

Mae llywodraethwyr Ysgol Emmanuel yn cael gwybodaeth fanwl am berfformiad yr ysgol, ac maen nhw'n mynd ati'n drylwyr i wneud yr ysgol yn atebol am y safonau mae'n eu cyflawni. Mae'r llywodraethwyr yn mynd ati'n uniongyrchol i fonitro safonau a darpariaeth ar draws yr ysgol, er enghraifft, drwy arsylwi gwersi a thrwy graffu ar waith disgyblion.

Mae cyfrifoldeb gan lywodraethwyr unigol am agweddau gwahanol ar waith

“

“Mae'r llywodraethwyr yn cael cyfle i herio'r staff ble mae'r targedau a'r canlyniadau'n anghyson, ac maen nhw'n gallu helpu i adnabod strategaethau addas a fydd yn sicrhau gwelliant.”

yr ysgol, gan gynnwys meysydd penodol o'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r llywodraethwr sy'n gyfrifol am lythrennedd yn chwarae rhan lawn drwy fonitro safonau llythrennedd yn yr ysgol. Mae'r rôl yn cynnwys cysgodi'r cydlynedd llythrennedd drwy adolygu pa mor dda mae medrau llythrennedd y disgyblion yn cael eu datblygu ar draws y cwricwlwm. Fel rhan o'r gwaith yma, mae'r llywodraethwr yn monitro samplau o waith y disgyblion, mae'n trafod agweddau ar eu gwaith llythrennedd gyda grwpiau o'r disgyblion, ac mae'n arsylwi sampl o wersi llythrennedd. Drwy'r gweithgareddau yma, mae'r llywodraethwr sy'n gyfrifol am lythrennedd yn dysgu llawer am y ddarpariaeth a'r safonau llythrennedd yn yr ysgol, ac mae'n gallu cyfrannu'n llawn at drafodaethau'r llywodraethwyr am brif ganfyddiadau'r arolwg. Mae'r llywodraethwyr eraill sydd â chyfrifoldebau dros y cwricwlwm yn mynd drwy'r un math o brosesau.

Bob tymor, mae'r ysgol yn cynnal wythnos asesu er mwyn monitro cynnydd y disgyblion a gallu dosbarthiadau i gyrraedd y targedau a osodwyd. Mae bod yn rhan o'r gwaith yma'n helpu'r llywodraethwyr i ddeall pa mor dda mae'r dosbarthiadau unigol a'r grwpiau o ddisgyblion yn perfformio. Mae'r llywodraethwyr yn cael cyfle i herio'r staff ble mae'r targedau a'r canlyniadau'n anghyson, ac maen nhw'n gallu helpu i adnabod strategaethau addas a fydd yn sicrhau gwelliant.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae medrau'r disgyblion wedi gwella'n gyson. Mae perfformiad yr ysgol yn ei rhoi yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion sy'n debyg yn ôl y meincnodau prydau-ysgol-am-ddim, ym meysydd iaith, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd.

Y cynnydd mae darparwyr wedi'i wneud ers eu harolygiad diwethaf

Mae angen i'r rhan fwyaf o'r darparwyr wella mewn rhyw ffordd yn dilyn arolygiad, er y bydd angen i rai wella mwy nag eraill. Isod rwy'n crynhoi rhai o'r gwelliannau mae'r darparwyr wedi'u gwneud ers ein harolygiadau'r llynedd. Maen nhw'n amrywio yn ôl y sefyllfa mae'r ysgol ynddi. Yn gyffredinol mae'r darparwyr y canfuon ni'n anfoddhaol yn ystod arolygiad yn defnyddio strategaethau gwahanol i'r darparwyr hynny sy'n ceisio symud ymlaen o fod yn ddigonol i fod yn dda. Mae'r strategaethau gwella'n wahanol eto ble mae darparwyr eisoes yn dda ond yn awyddus i fod yn ddarparwyr rhagorol. Er hynny, mae rhai prosesau sy'n gyffredin i bob darparwr. Fel arfer mae unrhyw broses wella'n rhoi pwyslais clir a phendant ar wella deilliannau'r dysgwyr. Bydd y camau gweithredu wedi'u seilio ar ddadansoddi data perfformiad a mathau eraill o dystiolaeth ynglŷn â gwaith y darparwr.

Ble bynnag fo'r darparwr arni wrthi'n ceisio gwella, mae angen iddo:

- fod ag arweinyddiaeth glir ac egniol;
- sefydlu polisiâu a systemau sy'n berthnasol i'r darparwr cyfan, a'u cymhwyso drwyddo draw;
- canolbwyntio ar wella safonau pob dysgwr fel y brif flaenoriaeth;
- canolbwyntio ar ansawdd yr addysgu a'r asesu fel yr allwedd i wella safonau;
- dadansoddi data perfformiad yn drylwyr er mwyn adnabod y manau penodol sydd angen eu gwella;
- rhoi pwyslais cyson ar wella llythrennedd a rhifedd;
- bod â disgwyliadau uchel a gwneud pob aelod o'r staff yn atebol am ei faes cyfrifoldeb; a
- theilwra'r profiadau dysgu i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr.

Pan fydd darparwr yn anfoddhaol mewn nifer o agweddau ar ei waith, mae'n tueddu i fabwysiadu dull sy'n rhoi pwyslais ar anfon cyfarwyddiadau o'r brig i lawr, gyda'r nod o ddelio'n gyflym â'r prif wendidau. Yr agweddau sy'n fwyaf tebygol o fod angen sylw ar frys yw:

- gwella ymddygiad a phresenoldeb y dysgwyr;
- codi lefelau medrau sylfaenol drwy ddefnyddio strategaethau ymyrryd a gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn derbyn cyfrifoldeb dros wella llythrennedd a rhifedd;
- pennu rolau a chyfrifoldebau clir i bob rheolwr;
- sefydlu systemau rheoli llinell effeithiol sy'n gwneud pobl yn atebol;
- datblygu diwylliant o hunanarfarnu sydd wedi'i seilio ar ddadansoddi data perfformiad ac arsylwi gwersi'n systematig; a
- sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yn canolbwyntio ar adnabod tanberfformio a rhoi sylw iddo.

Wrth symud o ddigonol i dda, mae'r darparwyr yn tueddu i roi dull mwy cydweithredol ar waith er mwyn ceisio gwella. Mae'r math yma o ddull yn tueddu i gynnwys defnyddio data i osod targedau i'r dysgwyr, ac olrhain eu cynnydd yn ofalus. Mae'r rôl arwain yn cael ei hymestyn, ac mae mwy o'r staff yn derbyn cyfrifoldeb dros agweddau ar waith yr ysgol gyfan. Bydd mwy o weithgorau'n symud tasgau neu brosiectau penodol yn eu blaenau. Bydd rheolwyr canol yn chwarae rôl bwysicach hefyd drwy arsylwi gwersi, a drwy ganolbwyntio mwy a mwy ar arfarnu ansawdd addysgu a dysgu wrth drafod â'r staff. A bydd cynllunio ar gyfer gwella'n cynnwys gweithredu ar farn y staff a'r dysgwyr ac ymateb mewn ffordd adeiladol i'w hawgrymiadau.

Mae darparwyr rhagorol yn datblygu dull cydweithredol, agored a chynhwysol o symud o fod yn dda i fod yn ardderchog. Mae'r dull wedi'i seilio ar ddisgwyliadau uchel, ac mae'n cynnwys llawer o gysondeb yn y ffordd mae pob agwedd ar waith y darparwr yn cael ei chyflawni. Byddan nhw'n rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu medrau dysgwyr ar lefel uwch, yn enwedig eu medrau meddwl. Bydd y diwylliant o arsylwi sesiynau'n rhan ganolog o waith y darparwr, a bydd yn canolbwyntio ar effaith addysgu a hyfforddi ar gyflawniadau'r dysgwyr. Bydd prosesau hunanarfarnu a myfyrio wedi'u sefydlu'n gadarn. Bydd llawer o'r staff yn cymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau'r darparwr ei hun ac mewn gweithgareddau allanol, gyda'r nod o wella'r addysgu, yr hyfforddi a'r dysgu. Bydd y dysgwyr yn chwarae rôl bwysig yn y gweithgareddau gwella a byddan nhw'n mynd ati'n gyson i gyfrannu at baratoi cynlluniau a pholisïau gwella.

“

“Bydd llawer o'r staff yn cymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau'r darparwr ei hun ac mewn gweithgareddau allanol, gyda'r nod o wella'r addysgu, yr hyfforddi a'r dysgu.”

Barn dysgwyr a rhieni am ysgolion ac am ddarparwyr eraill

Fel rhan o'n trefniadau arolygu newydd, rydyn ni'n gwahodd sampl o ddysgwyr i lenwi holiaduron am eu profiadau addysgol. Am y tro cyntaf eleni, mae gennym ddarlun cenedlaethol o farn y dysgwyr am eu haddysg, ac mae'r darlun hwnnw wedi'i seilio ar ymatebion tua 16,500 o ddisgyblion cynradd a 7,000 o ddisgyblion uwchradd.

Mae'r darlun yn un cadarnhaol i raddau helaeth. Yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd, mae tua 95% o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn meddwl eu bod nhw'n gwneud yn dda.

Dyweddodd cyfran debyg o ddisgyblion fod athrawon eu hysgol yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd. Mae dros 95% o ddisgyblion ysgolion cynradd yn dweud eu bod nhw'n gwybod at bwy y gallan nhw fynd i siarad os ydyn nhw'n pryderu neu'n gofidio. Maen nhw'n dweud eu bod yn cael llawer o gyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff, a bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i aros yn iach.

Er hynny, mae tua thraean o'r disgyblion uwchradd a chwarter y disgyblion cynradd yn mynegi pryderon am ymddygiad disgyblion eraill. Mae dros draean o'r disgyblion uwchradd yn teimlo nad ydyn nhw'n cael digon o gyfleoedd i ddylanwadu ar y gwaith maen nhw'n ei wneud. Ac mae tua thraean o'r disgyblion uwchradd yn dweud nad yw eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith.

Rydyn ni hefyd yn gwahodd rhieni disgyblion ysgol i lenwi holiaduron, ac mae cyfanswm o tua 12,500 o rieni wedi ymateb (9,000 cynradd a 3,500 uwchradd). Roedd dros 85% o rieni ysgolion uwchradd a 90% o rieni ysgolion cynradd a anfonodd holiaduron yn ôl yn ymateb yn gadarnhaol i'r holl gwestiynau am waith yr ysgol. Mae dros 95% o'r rhieni'n cytuno bod eu plant yn hoffi'r ysgol a'u bod wedi cael help i setlo'n dda yn ystod eu dyddiau cyntaf yn yr ysgol. Mae cyfran debyg o'r rhieni'n fodlon ar ysgol eu plentyn, maen

nhw'n meddwl fod yr addysgu'n dda a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da. Ond mae tua 15% o rieni'r disgyblion uwchradd yn mynegi pryderon am ymddygiad disgyblion ac yn teimlo nad ydyn nhw'n cael gwybodaeth ddiweddar am gynnydd eu plant.

Mae dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach, lleoliadau yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn dweud pethau cadarnhaol hefyd am y rhan fwyaf o'r agweddau ar eu profiadau dysgu. Yn y sectorau yma, mae 95% o'r dysgwyr yn dweud eu bod nhw'n mwynhau dysgu, eu bod wedi cael gwybodaeth dda gan y darparwr pan oedden nhw'n dewis eu rhaglenni dysgu, eu bod yn cael cymorth personol da gan diwtoriaid, hyfforddwy ac aseswyr, a bod y staff yn eu helpu i wneud cynnydd da. Mae cyfran debyg o'r dysgwyr o'r farn fod cymryd rhan yn eu rhaglenni dysgu wedi'u helpu i wella'u medrau bywyd, tra bod 97% yn dweud y bydd eu dysgu'n eu helpu i gyflawni eu nodau. Mae bron yr holl ddysgwyr yn y lleoliadau yn y gwaith yn dweud eu bod yn gallu manteisio ar leoliadau gwaith o safon a bod cyflogwyr yn eu cefnogi'n dda yn y lleoliadau. Ond mae tua un o bob chwech o'r dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned yn teimlo nad ydyn nhw'n cael manteisio ar leoliadau gwaith o safon ac nad yw eu cyflogwyr yn eu cefnogi'n dda yn eu lleoliadau.

Heriau i addysg a hyfforddiant ôl-16

Diwallu anghenion yr economi

Yn gyffredinol, mae darparwyr ôl-16 yn parhau i ddarparu'r medrau technegol ac ymarferol a'r hyfforddiant proffesiynol i ddysgwyr sy'n angenrheidiol mewn swyddi ac yn y dasg o adfywio economïau ein cymunedau.

Mae gwelliant graddol wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf yn niferoedd y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant, a gwelliant yn y deilliannau arolygu ar gyfer darparwyr dysgu yn y gwaith a sefydliadau addysg bellach. Er hynny, mae angen i ddarparwyr wneud mwy i ddenu dysgwyr i feysydd technolegau peirianeg a gweithgynhyrchu, ac i ddilyn cyrsiau adeiladu a gweinyddu busnes. Hefyd, mae angen i ddeilliannau dysgwyr ar rai cyrsiau yn y meysydd yma wella mwy.

Mae angen i bob darparwr ddod o hyd i ffyrdd o ymateb yn well i anghenion economi eu hardal. Gall darparwyr gyflawni hyn drwy roi sylw mwy gofalus i wybodaeth am y farchnad lafur a thrwy wella'u cysylltiadau â'r cyflogwyr. Yn rhy aml mae'r cysylltiadau sydd gan sefydliadau addysg bellach â chyflogwyr wedi'u seilio ar berthynas hanesyddol yn hytrach nag ar gynllunio i ddiwallu anghenion rhanbarthol neu genedlaethol newydd sy'n dod i'r amlwg. Maen nhw'n tueddu i fod yn gryf mewn ychydig o feysydd dysgu fel peirianeg, gofal ac arlwygo, ond nid ydyn nhw wedi datblygu digon ar rai meysydd dysgu galwedigaethol eraill, os ydyn nhw wedi'u datblygu o gwbl.

Mae ysgolion a darparwyr ôl-16 yn rhannu un her fawr, sef ceisio darparu profiad gwaith

perthnasol a defnyddiol i'w dysgwyr, yn enwedig yn yr oes hon pan mae arian yn brin. Maen nhw'n amrywio ar hyn o bryd o ran faint maen nhw'n llwyddo i gyflawni'r nod yma. Drwy weld y gwahanol ddarparwyr yn cydweithio'n well yn y rhanbarthau, fe allai hynny arwain at gydweithredu mwy effeithlon. Gall hyn hwyluso'r broses o ddod o hyd i leoliadau gwaith ac o'u rheoli, gyda'r nod o baratoi pobl ifanc yn well i symud i fyd gwaith ar ôl cwblhau eu haddysg a'u hyfforddiant.

Er mwyn ymateb yn well i ddiwydiant ac i ddysgwyr o'r gymuned, mae angen i'r darparwyr wella'u cynllunio strategol. Mae'n naturiol i ddarparwyr fod yn awyddus i barhau â phatrwm y cwricwlwm a'r cyrsiau maen nhw wedi'u sefydlu dros gyfnod o amser, ac mae'r patrwm yma'n aml yn cyfateb yn eithaf agos i ddyheadau'r dysgwyr maen nhw'n eu cofrestru. Nid ydyn nhw'n gofyn a ydyn nhw'n addasu'n ddigon cyflym i amgylchiadau ac i anghenion sy'n newid. Er enghraifft, nid yw'r colegau'n monitro'n ddigon gofalus faint o ddysgwyr o gefndiroedd o amddifadedd sy'n cofrestru, sef dysgwyr sy'n derbyn lwfans cynhaliaeth addysg. Byddai gwneud hynny'n gyfle i'r colegau sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr holl bobl ifanc o'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

Partneriaethau

Edrychodd ein harolygiadau eleni ar fathau gwahanol o weithio mewn partneriaethau. Mae rhai partneriaethau'n gweithio'n dda, ond mae angen cryfhau rhai eraill.

Mae'r sector addysg bellach wedi bod yn gweithio gydag ysgolion lleol a darparwyr eraill, gan lwyddo i wahanol raddau i gynnig dewis gwell o gyrsiau i ddysgwyr, i rannu adnoddau ac i osgoi dyblygu'r ddarpariaeth. Ond ar draws y sectorau ôl-16, nid yw dysgwyr bob amser yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad annibynnol gorau am y cyrsiau a fyddai'r rhai mwyaf addas. Nid yw'r arweiniad wedi'i seilio bob tro chwaith ar wybodaeth ddiweddar am y farchnad lafur, sef gwybodaeth arbennig o bwysig a fyddai'n eu helpu i ddewis llwybrau dysgu priodol sy'n arwain at swyddi neu at astudio ar lefel uwch.

Mae llawer o enghreifftiau da ym mynd dysgu oedolion yn y gymuned o weithio mewn partneriaethau gweithredol. Ond mae gormod o achosion o hyd o gynllunio gwael ar lefel awdurdod lleol, ac mae hyn yn dyblygu cyrsiau'n ddiangen. Yn rhy aml, mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio i fanteisio ar y ffrydiau ariannu sydd ar gael yn hytrach nag i roi sylw i anghenion yr ardal gyfan. Nid yw partneriaethau bob amser yn cynnwys y trydydd sector, sy'n chwarae rhan bwysig drwy gyflwyno addysg yn lleol i grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau sydd wedi'u gwthio i'r ymylon.

Nid yw darparwyr yn gweithio'n ddigon agos gyda'i gilydd i rannu arbenigedd a chyfleusterau, ac yn enwedig i ddarparu patrwm cydlynus o gymorth llythrennedd i ddysgwyr. Mae Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol De Orllewin Cymru, sy'n datblygu darpariaeth ar ffurf hyfforddiant medrau hanfodol yn y rhanbarth, yn enghraifft dda o sut gall darparwyr gynllunio'n fwy effeithiol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr unigol a gofynion economi'r ardal.

Defnyddio data

Ar draws yr holl sectorau ôl-16, y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol yw'r prif beth sy'n ysgogi'r broses o gasglu data. Mae'r system yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Nid yw darparwyr yn casglu nac yn defnyddio data'n ddigon cadarn i ddangos bod eu strategaethau'n effeithio ar y dasg o wella medrau dysgwyr. Nid ydyn nhw'n mynd ati'n systematig ym mhob rhan o'r cwricwlwm i olrhain cynnydd eu dysgwyr ym meysydd llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Nid yw darparwyr yn gallu dangos bob tro sut mae'r broses o ddadansoddi a dehongli data wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau ynglŷn ag addysgu, y cwricwlwm a defnyddio adnoddau. Ac nid ydyn nhw'n dangos sut mae eu penderfyniadau – er enghraifft, am ddyrannu adnoddau neu fuddsoddi mewn meysydd dysgu – wedi arwain at ansawdd a deilliannau gwell.

“

“Yn rhy aml, mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio i fanteisio ar y ffrydiau ariannu sydd ar gael yn hytrach nag i roi sylw i anghenion yr ardal gyfan.”

Adran 2: Adroddiad sector

Adroddiad Blynyddol 2010-2011



Cynnwys

Ysgolion cynradd	03	Ysgolion annibynnol	25	Gwasanaethau addysg awdurdodau	40	Dysgu yn y gwaith	53
Perfformiad a rhagolygon	03	Perfformiad a rhagolygon	25	lleol ar gyfer plant a phobl ifanc		Perfformiad a rhagolygon	53
Deilliannau	04	Deilliannau	26	Perfformiad a rhagolygon	40	Deilliannau	54
Darpariaeth	06	Darpariaeth	27	Deilliannau	41	Darpariaeth	55
Arweinyddiaeth a rheolaeth	08	Arweinyddiaeth a rheolaeth	28	Darpariaeth		Arweinyddiaeth a rheolaeth	56
				Cymorth i wella ysgolion	42		
Ysgolion uwchradd	10	Colegau arbenigol annibynnol	29	Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol	43	Dysgu oedolion yn y gymuned	57
Perfformiad a rhagolygon	10	Deilliannau	29	Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles	44	Perfformiad a rhagolygon	58
Deilliannau	11	Darpariaeth	30	Mynediad a lleoedd ysgol	45	Deilliannau	58
Darpariaeth	13	Arweinyddiaeth a rheolaeth	31	Arweinyddiaeth a rheolaeth	46	Darpariaeth	59
Arweinyddiaeth a rheolaeth	15			Ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol ynddynt	47	Arweinyddiaeth a rheolaeth	60
		Unedau cyfeirio disgyblion	32	Sefydliadau addysg bellach	49	Dysgu yn y system gyfiawnder	61
Ysgolion arbennig a gynhelir	17	Perfformiad a rhagolygon	32	Perfformiad a rhagolygon	50	Deilliannau	61
Perfformiad a rhagolygon	17	Deilliannau	33	Deilliannau	50	Darpariaeth	61
Deilliannau	18	Darpariaeth	34	Darpariaeth	51	Arweinyddiaeth a rheolaeth	61
Darpariaeth	19	Arweinyddiaeth a rheolaeth	35	Arweinyddiaeth a rheolaeth	52		
Arweinyddiaeth a rheolaeth	20						
		Lleoliadau i blant dan bump oed	36				
Ysgolion arbennig annibynnol	21	Perfformiad a rhagolygon	36				
Perfformiad a rhagolygon	21	Deilliannau	37				
Deilliannau	22	Darpariaeth	38				
Darpariaeth	23	Arweinyddiaeth a rheolaeth	39				
Arweinyddiaeth a rheolaeth	24						

Ysgolion cynradd

Yn Ionawr 2011, roedd 1,435 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae'r ffigur 27 yn llai nag yn Ionawr 2010 pan oedd 1,462 o ysgolion. Roedd 259,189 o ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd yn Ionawr 2011, sy'n fwy na'r flwyddyn flaenorol pan oedd 257,445 o ddisgyblion. Dyma'r cynnydd cyntaf er 1998 yn nifer y disgyblion cynradd.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni, fe arolygon ni 238 o ysgolion cynradd. Mae perfformiad yn dda neu'n well yn tua phedair o bob pump o'r ysgolion yma. Mae'n rhagorol ar y cyfan mewn 5% o'r ysgolion cynradd. Digonol yw perfformiad 19% o'r ysgolion cynradd, ac mae'n anfodhaol mewn 2%.

Mae'r farn ar y perfformiad presennol wedi'i seilio ar y farn a ffurfiwyd mewn ymateb i'r tri chwestiwn allweddol, y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth.

Y rhagolygon gwella yw hyder yr arolygwyr yng ngallu'r darparwr i ysgogi ei welliant ei hun yn y dyfodol. Mae'r rhagolygon gwella naill ai'n dda neu'n well yn bron i dri chwarter yr ysgolion cynradd, ac yn rhagorol yn 8% ohonyn nhw. Digonol yw'r rhagolygon yn 22% o'r ysgolion cynradd, ac maen nhw'n anfodhaol yn 3%.

Mae angen ymweliadau dilynol gan Estyn ar ryw 23% o'r ysgolion cynradd, gan gynnwys 5% sy'n peri pryder difrifol. Mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn pedair ysgol gynradd, mae angen gwelliant sylweddol mewn wyth, ac mae angen ymweliad monitro gan Estyn ar 43 o'r ysgolion cynradd. Cafodd 21% arall farn arolygu oedd yn 'dda' ar y cyfan, ond mae ganddyn nhw un neu fwy o feysydd pwysig i'w gwella. Rydyn ni wedi gofyn i'r awdurdodau lleol am adroddiad manwl ar y cynnydd mae 51 o'r ysgolion yma'n ei wneud.

Yn yr ysgolion lle mae gofyn rhoi mesurau arbennig ar waith:

- mae'r perfformiad presennol a'r rhagolygon gwella'n anfodhaol;
- mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau a ddisgwylir mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol ymhell islaw'r gyfran mewn ysgolion tebyg;
- nid yw'r athrawon yn cynnig digon o her i'r disgyblion yn y gwersi;
- mae'r arweinyddiaeth a'r cyfeiriad strategol yn wan ac nid yw'r arweinwyr yn herio tanberfformio;
- nid yw'r hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella'n ddigon trylwyr; ac
- ychydig o gynydd mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad blaenorol.

Yn yr ysgolion a gafodd eu henwi fel rhai yr oedd angen eu gwella'n sylweddol neu angen monitro gan Estyn, y diffygion mwyaf cyffredin oedd:

- nid yw'r safonau, yr addysgu a'r profiadau dysgu fawr gwell na digonol;
- mae diffygion sylweddol yn yr arweinyddiaeth ac anaml bydd y llywodraethwyr yn herio perfformiad; ac
- mae'r rhagolygon gwella naill ai'n ddigonol neu'n anfodhaol oherwydd arweinyddiaeth wael.

Mae safonau da a rhagolygon gwella da gan lawer o'r ysgolion y mae angen i'r awdurdod lleol eu monitro. Er hynny, nid yw'r prosesau newydd ar gyfer hunanarfarnu a gwella'r ysgol wedi effeithio eto ar y deilliannau.

Deilliannau

Mae safonau'n dda neu'n well ar y cyfan yn rhyw bedair o bob pump o'r ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu.

Mae tuedd o wella'n raddol yn llawer o'r ysgolion, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Mae llawer ohonyn nhw'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mewn mwyafrif o'r ysgolion yma, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson uchel.

Mae'r safonau'n rhagorol yn ychydig iawn o'r ysgolion yma. Yn yr ysgolion yma, mae'r holl ddisgyblion bron yn gwneud cynnydd da iawn o lefel eu cyrhaeddiad ar adeg eu derbyn i'r ysgol, ac o gymharu â chynnydd disgyblion ysgolion tebyg. Yn yr ysgolion rhagorol yma, mae'r disgyblion wedi ennill digon o hyder i weithio heb fawr o oruchwyliaeth gan yr athrawon. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn trafodaethau ystyriol ac adeiladol, ac maen nhw'n gallu darllen, ysgrifennu a defnyddio medrau rhif yn dda yn y gwahanol sefyllfaoedd ac ym mhob un o bynciau'r cwricwlwm.

Yn tua phedair o bob pum ysgol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da gan ddatblygu eu medrau siarad, gwrando, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Ond yn tua 30% o'r ysgolion, mae pryder o hyd ynghylch safonau darllen ac ysgrifennu.

Yn llawer o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu eu medrau siarad, gwrando, darllen a mathemategol. Mae'r disgyblion yn dod yn fwy a mwy annibynnol ac yn defnyddio'u medrau meddwl yn dda. Ond yn y Cyfnod Sylfaen, yn bron i chwarter


yr ysgolion a gafodd eu harolygu, mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn llawn camgymeriadau sillafu ac atalnodi syml, ac nid ydyn nhw'n ysgrifennu darnau digon hir. Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 hefyd, mae gwaith ysgrifennu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn wan. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, nid yw llawer o'r disgyblion wedi datblygu digon ar eu medrau darllen uwch fel cip-ddarllen a sganio, ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd dethol gwybodaeth berthnasol o wahanol ffynonellau. Yn achos gormod o'r ysgolion, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ac yn datblygu eu medrau darllen.

Cau'r bwlch

Ysgol Gymraeg Cwm Garw wedi defnyddio cyfuniad o strategaethau effeithiol i gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad merched a chyrhaeddiad bechgyn.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr [astudiaeth achos](#).

Ffigur 2.1: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Roedd yr adroddiadau arolygu ar ychydig dros 30% o'r ysgolion cynradd eleni'n cynnwys argymhellion i wella safonau yn y Saesneg a'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Yn rhyw bedair o bob pum ysgol, mae'r disgyblion yn dysgu medrau rhifedd da yn eu gwersi mathemateg. Ond dim ond yn tua dwy o bob pum ysgol y mae'r disgyblion yn gallu defnyddio'r medrau rhifedd yma'n hyderus yn y rhannau eraill o'r cwricwlwm. Mewn lleiafrif o'r ysgolion, nid yw gallu'r disgyblion cyfnod allweddol 2 i feddwl a dysgu'n annibynnol yn ddigon cadarn.

“

“Ym mhob ysgol bron, mae'r disgyblion yn ystyriol o bobl eraill ac yn eu trin â pharch a gofal. Yn y mwyafrif o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn barod iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, er enghraifft fel cynghorwyr ysgol neu fel aelodau o bwyllograu eco.”

Mae'r safonau mae disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn eu cyflawni'n ddigonol neu'n well yn llawer o'r ysgolion. Ond yn rhyw 30% o'r ysgolion, nid yw'r grŵp yma o ddisgyblion yn cyflawni gystal ag y dylen nhw o hyd. Mae'r bwlch rhwng eu perfformiad nhw a pherfformiad y disgyblion eraill yn dal yn rhy fawr.

Yn llawer o'r ysgolion, mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ran eu galluoedd.

At ei gilydd, nid yw bechgyn eto'n cyflawni gystal â merched, yn enwedig yn Saesneg, er nad yw hyn yn wir mewn rhai ysgolion unigol. Yn un o bob deg ysgol, nid yw'r bechgyn yn cyflawni ar y lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoed yn Saesneg. Ble mae'r bechgyn yn gwneud yn well, mae eu hysgolion yn tueddu i:

- gynnig cymorth wedi'i dargedu a chymorth o wahanol fathau ar gyfer medrau llythrennedd;
- rhoi pwyslais ar weithgareddau cystadleuol i dimau yn y cwricwlwm;
- defnyddio meddalwedd cwricwlwm technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd wedi'i haddasu'n bwrpasol;
- cynnig gweithgareddau ymarferol y tu allan i oriau'r ysgol er mwyn datblygu llefaredd;

- defnyddio dynion fel modelau rôl; a
- chynnwys rhieni a gofawyr yn systematig mewn gweithgareddau dysgu fel darllen.

Mewn mwyafrif o'r ysgolion, mae safonau Cymraeg ail iaith y disgyblion yn dda, ac mae eu medrau siarad, gwrandao a darllen Cymraeg yn datblygu'n dda. Yn y Cyfnod Sylfaen yn benodol, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Ond yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion lleiafrif sylweddol o'r ysgolion yn parhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da.

Mae ansawdd lles y disgyblion yn dda neu'n well ym mhob ysgol gynradd bron. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn ymddwyn yn dda yn y rhan fwyaf o'r ysgolion. Mae agweddau'r rhan fwyaf o'r disgyblion tuag at ddysgu'n gadarnhaol, ac maen nhw'n frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn deall sut y dylen nhw weithredu er mwyn bod yn iach. Maen nhw'n gwybod am bwysigrwydd diet cytbwys ac ymarfer corff rheolaidd. Mae llawer ohonyn nhw'n cymryd rhan mewn dewis da o weithgareddau allgyrsiol er mwyn cadw'n heini.

Gwella lles disgyblion – cael Llais

Mae gwaith y Tîm LLAIS yn **Ysgol Gynradd Glan Usk**, Casnewydd, wedi gwella lles a safon dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol gyfan.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr **astudiaeth achos**.

Nid yw'r cyfraddau presenoldeb (93%) wedi newid fawr ddim dros y chwe blynedd diwethaf. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae presenoldeb yn waeth yn yr ardaloedd o anfantais gymdeithasol ac economaidd. Mae cysylltiad clir rhwng cyfraddau uchel o absenoldeb a safonau isel yn yr ysgolion a gafodd eu harolygu eleni.

Ym mhob ysgol bron, mae'r disgyblion yn ystyriol o bobl eraill ac yn eu trin â pharch a gofal. Yn y mwyafrif o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn barod iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, er enghraifft fel cynghorwyr ysgol neu fel aelodau o bwyllograu eco. Ond yn tua un o bob tair ysgol, mae'r disgyblion yn cael rôl rhy fach yn y dasg o wneud penderfyniadau, yn enwedig y penderfyniadau ynglŷn â sut a beth y byddan nhw'n ei ddysgu.

Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth at ei gilydd yn dda neu'n well yn ychydig dros bedair o bob pump o'r ysgolion yr arolygon ni eleni.

Yn tua thri chwarter yr ysgolion mae'r profiadau dysgu'n dda neu'n well. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yma, mae'r athrawon yn defnyddio gwersi sydd wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu gwybodaeth a gallu'r disgyblion yn systematig. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yma'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac mae'r staff yn darparu amrediad da o brofiadau dysgu diddorol i'r disgyblion.

Mewn gwersi iaith, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae mwyafrif o'r ysgolion yn mynd ati i gynllunio'n ofalus er mwyn datblygu

medrau llythrennedd, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion. Mae ychydig o'r ysgolion yn rhoi pwyslais pendant ar ddefnyddio'r medrau yma ym mhob profiad dysgu. Ond dim ond lleiafrif o'r ysgolion sy'n cynllunio'n systematig y dasg o ddatblygu medrau darllen, ysgrifennu a meddwl y disgyblion, ym mhob un o feysydd y cwricwlwm.

Yn tua un o bob deg ysgol, nid yw'r athrawon yn addasu'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion y disgyblion mwyaf galluog a'r disgyblion lleiaf galluog. Nid ydyn nhw'n gosod tasgau sy'n ymestyn y rhai mwyaf galluog, a thasgau eraill i gynorthwyo'r rhai llai galluog. Mae athrawon yn gwneud yn well ar y cyfan wrth gynorthwyo'r disgyblion llai galluog nag ydyn nhw wrth ymestyn y disgyblion mwy galluog.


Yn llawer o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer siarad a darllen Cymraeg fel ail iaith yn dda yn y gwersi Cymraeg. Ond yng nghyfnod allweddol 2, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth sydd yn y gwersi eraill ar gyfer ysgrifennu yn Gymraeg a defnyddio'r iaith. Mae llawer o'r ysgolion yn mynd ati'n dda i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am faterion amgylcheddol a materion byd-eang.

Mae llawer o'r ysgolion yn cyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar ffurf cylch o weithgareddau sy'n digwydd yn gyson. Yn yr arfer orau y gwelwn ni mae diben clir i'r weithgareddau ac mae'r cynnwys a lefel y cymorth yn cyfateb i anghenion y plant. Ond ble mae'r weithgareddau wedi'u cynllunio'n wael, efallai bod y plant yn edrych yn brysur ond nid ydyn nhw'n gwneud llawer o gynnydd. Maen nhw'n ailadrodd

gweithgareddau heb ddatblygu eu gwybodaeth na'u dealltwriaeth.

Yn gyffredinol, mae'r addysgu'n dda neu'n well yn llawer o'r ysgolion. Yn y nifer bach iawn o ysgolion ble mae'r addysgu'n gyson yn rhagorol, mae disgwyliadau pob aelod o'r staff yn uchel. Maen nhw'n defnyddio dewis arloesol o strategaethau i herio a chadw diddordeb y disgyblion. Ond yn tua un o bob pump o'r ysgolion, nid yw'r addysgu fawr gwell na digonol ar y cyfan. Yn yr ysgolion yma, mae cyflymder y gwersi'n rhy araf ac mae gormod o ddefnydd o daflenni gwaith. O ganlyniad nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso a datblygu eu medrau'n annibynnol. Yn tua un o bob pump o'r ysgolion nid yw'r athrawon yn herio digon ar y dysgwyr mwy galluog mewn trafodaethau yn yr ystafell ddosbarth.

Figur 2.2: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Yn bron i hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu, mae rhai agweddau neu lawer o agweddau ar yr asesu'n wan. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi rhoi polisiâu asesu priodol ar waith, ond nid yw'r athrawon bob amser yn eu defnyddio'n gyson. Yn gyffredinol mae'r athrawon yn rhoi sylwadau ar ansawdd eu gwaith i'r disgyblion, ond nid ydyn nhw bob amser yn dangos i'r disgyblion sut i wella'u gwaith. Yn ychydig o'r ysgolion, nid yw gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n ddigon rheolaidd. Mae mwyafrif o'r athrawon yn defnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu wrth farcio gwaith y disgyblion i gynllunio gwersi. Maen nhw'n mynd ati'n amlach i gynnwys y disgyblion yn y dasg o asesu eu cynnydd eu hunain. Mae mwyafrif o'r athrawon yn defnyddio systemau olrhain i gofnodi cynnydd.

Mae llawer o'r ysgolion wedi rhoi trefniadau da ar waith i asesu gwaith y disgyblion ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r ysgolion yn cydweithio'n dda ag ysgolion eraill yr ardal i wneud trefniadau ar y cyd. Ond yn tua chwarter yr ysgolion, nid yw asesiadau

diwedd cyfnod allweddol yr athrawon yn ddigon cywir.

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn gryfderau ym mhob ysgol bron. Mae'r ysgolion wedi gwneud trefniadau effeithiol i sicrhau iechyd a lles y disgyblion. Fe welon ni fod pob ysgol bron yn llwyddo i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion, a bod y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi creu diwylliant cadarn o onestrwydd a pharchu ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi rhoi trefniadau da ar waith i helpu'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maen nhw'n defnyddio gwasanaethau arbenigol yn dda i gynorthwyo'r disgyblion yma. Nid yw lleiafrif o'r ysgolion yn mynd ati'n ddigon manwl i fonitro cynnydd y disgyblion sydd ar raglenni ymyrraeth.

Mae bron pob ysgol wedi creu polisiâu a gweithdrefnau diogelu priodol. Mae'r ysgolion yma'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn adnabod a pharchu amrywiaeth.

Mae ychydig iawn o'r ysgolion wedi methu addasu polisiâu diogelu generig eu hawdurdod lleol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Yn yr achosion yma, nid yw'r polisiâu diogelu'n bodloni'r holl ofynion statudol ac nid yw pob aelod o'r staff yn gwybod am y gweithdrefnau priodol ar gyfer rhoi gwybod am bryderon.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn gwneud defnydd da neu well o'u hadeiladau a'u hadnoddau i hybu'r dysgu. Fe welon ni fod ychydig o'r ysgolion yn gwneud defnydd rhagorol o fannau yn yr awyr agored fel y lotments lleol a chyfleusterau neu goetiroedd cymunedol i wella cyfleoedd dysgu'r disgyblion. Mae'r defnydd o amgylchedd yr awyr agored wedi gwella'n sylweddol i helpu'r plant i ddysgu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Ond nid yw tua un o bob deg ysgol yn defnyddio digon o'r awyr agored ar gyfer chwarae a dysgu'n annibynnol yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

“

“Fe welon ni fod pob ysgol bron yn llwyddo i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion, a bod y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi creu diwylliant cadarn o onestrwydd a pharchu ei gilydd.”

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well yn nhri chwarter yr ysgolion a gafodd eu harolygu. Yn tua un o bob deg ysgol mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol. Yn yr ysgolion yma, mae disgwyliadau'r arweinwyr yn uchel ac maen nhw'n rhoi pwyslais cadarn ar wella safonau ac ansawdd.

Mae llawer o'r ysgolion wedi rhoi systemau rheoli perfformiad priodol ar waith. Ond yn rhyw chwarter yr ysgolion cynradd nid yw'r rheolwyr yn rhoi digon o sylw i danberfformiad athrawon unigol.

Yn llawer o achosion, mae llywodraethwyr yr ysgol yn cynorthwyo'r pennaeth yn effeithiol ac maen nhw'n rhan weithredol o'r broses o osod cyfeiriad eu hysgol. Maen nhw'n gwybod llawer am y blaenoriaethau o ran gwella ac maen nhw'n rheoli cyllidebau'n briodol. Yn chwarter yr ysgolion o leiaf, mae rhai agweddau ar waith y llywodraethwyr yn wan. Yn yr ysgolion yma, nid yw'r llywodraethwyr yn gwybod digon ar y cyfan am berfformiad cymharol eu hysgol ac nid ydyn nhw'n herio'r uwch reolwyr yn ddigon cadarn.


Mae tua dwy o bob tair ysgol wedi rhoi trefn dda ar waith i wella ansawdd ond mae diffygion yn un o bob tair ysgol. Ble mae diffygion, nid yw'r uwch reolwyr yn rhoi sylw i dystiolaeth uniongyrchol drwy arsylwi gwersi ac maen nhw'n canolbwyntio gormod ar ddarpariaethau a pholisïau yn hytrach na'r safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni. Yn aml, nid yw'r gwendidau dan sylw yn eu hadroddiadau hunanarfarnu'n cael sylw yng nghynllun gwella'r ysgol. Er enghraifft, er bod uwch reolwyr o bosib yn mynd ati'n ofalus i ddadansoddi data perfformiad, nid ydyn nhw'n defnyddio'r canfyddiadau i adnabod yr union agweddau sydd angen eu gwella. Mewn mwyafrif o'r ysgolion gwannach yma, nid ydyn nhw wedi rhoi sylw digon da i argymhellion adroddiadau arolygu blaenorol.

Mae **Coleg Sir Benfro** yn gweithio gyda'r sector ynni a'r sector peirianeg i gyflwyno addysg a hyfforddiant o'r safon uchaf yn yr ardal.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr astudiaeth achos **'Gweithio mewn partneriaeth â sectorau i ddylunio ac adeiladu cyfleusterau newydd'**.

Ffigur 2.31: Nifer y sefydliadau addysg bellach a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Dysgu yn y gwaith

Ar ddechrau'r cylch arolygu yma roedd 66 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Yn 2009-2010⁸, roedd 55,845 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu yn y gwaith. O'r dysgwyr yma, roedd 16,305 yn gwneud prentisiaethau modern, roedd 20,075 yn gwneud prentisiaethau modern sylfaen, ac roedd 19,465 yn gwneud mathau eraill o hyfforddiant. Mae llawer o'r dysgwyr yn dilyn hyfforddiant ar lefel 2 neu 3.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni, fe arolygon ni wyth o ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Mae perfformiad chwech o'r darparwyr yn dda ar y cyfan, a pherfformiad dau arall yn ddigonol.

Mae rhagolygon gwella saith o'r darparwyr yn dda, a rhagolygon un yn ddigonol.

Mae diffygion i'w gweld yn un neu fwy o'r dangosyddion ansawdd yn rhai o'r darparwyr a gafodd farn a oedd yn dda ar y cyfan. Gan mai digonol yn unig yw eu perfformiad presennol, mae angen gweithgarwch dilynol yn achos dau o'r darparwyr dysgu yn y gwaith. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y darparwyr yma wrth iddyn nhw roi sylw i argymhellion yr arolygiad.

⁸ SDR 68/2011 Ystadegau Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru 2009/10, Llywodraeth Cymru, 27 Ebrill 2011. <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2011/110427?skip=1&lang=cy>

Deilliannau

Mae deilliannau chwech o'r wyth darparwr a gafodd eu harolygu eleni'n dda, ac mae deilliannau dau'n ddigonol.

Mae cyfraddau llwyddo'r dysgwyr yn yr wyth darparwr a gafodd eu harolygu'n amrywio o dda i ddigonol ar y cyfan. Yn chwech o'r darparwyr lle mae'r deilliannau'n dda, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gymwys yn yr agweddau ymarferol ar eu hyfforddiant ac mae eu gwybodaeth ddamcaniaethol yn sicr. Maen nhw'n cwblhau eu fframweithiau hyfforddi'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da o ran ennill Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol. Yn genedlaethol, mewn busnes, gweinyddu a'r gyfraith, ac addysg a hyfforddiant y mae'r cyfraddau llwyddo uchaf o ran fframweithiau'r holl brentisiaethau⁹. Mewn trin gwallt a harddwch, adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, ac amaethyddiaeth,

garddwriaeth a gofal anifeiliaid y mae'r deilliannau gwannaf.

Mewn dau ddarparwr ble mae'r safonau'n ddigonol, mae cynnydd y dysgwyr tuag at gwblhau eu fframweithiau hyfforddi'n arafach. Mae gallu ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol y mwyafrif o'r dysgwyr yn foddhaol. Ond nid yw lleiafrif o'r dysgwyr yn deall yn glir yr hyn mae angen iddyn nhw ei wneud i gwblhau eu fframweithiau hyfforddi.


Mae cynnydd y dysgwyr o ran ennill cymwysterau medrau hanfodol priodol yn amrywio o ddigonol i dda ar y cyfan. Ble mae'r safonau'n dda, mae lleiafrif sylweddol o'r dysgwyr yn ennill y medrau yma ar lefel uwch na'r lefel sy'n ofynnol yn ôl eu fframwaith cymwysterau. Mae mwyafrif o'r dysgwyr yn ennill y cymwysterau medrau hanfodol ehangach. Ble nad yw'r safonau'n well na digonol, dim ond ar y lefel sy'n

ofynnol yn ôl eu fframwaith hyfforddi y mae mwyafrif o'r dysgwyr yn ennill y medrau yma.

Mae mwyafrif o'r dysgwyr yn cyfathrebu'n dda gyda'r staff hyfforddi, y cyflogwyr a'u cyd-ddysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn mwynhau eu profiadau hyfforddi. Mae'n amlwg eu bod yn parchu eu hyfforddwyr, eu cyflogwyr a'u cyd-ddysgwyr. Mae presenoldeb y dysgwyr yn dda ar y cyfan, yn y swydd ac i ffwrdd o'r swydd.

Ffigur 2.32: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



⁹SDR 75/2011 Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith 2009/2010, Llywodraeth Cymru, 12 Mai 2011. <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2011/1105121/?skip=1&lang=cy>

Darpariaeth

At ei gilydd, mae darpariaeth saith o'r wyth darparwr a gafodd eu harolygu'n dda, ac mae darpariaeth un yn ddigonol.

Mae pob un o'r darparwyr yn cynnig rhaglen hyfforddi berthnasol a dewis addas o gymwysterau sy'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda, ac sydd ar y lefel briodol. At ei gilydd, mae'r tueddiadau recriwtio ym mhob un o'r meysydd galwedigaethol yn debyg i dueddiadau'r llynedd. Ond nid yw niferoedd y lleoedd hyfforddi dan gontract a'r lleoedd sydd ar gael yn cyfateb yn dda bob amser i nifer y swyddi posib sydd ar gael. Mae hyn yn golygu'n aml fod llawer o'r darparwyr yn ceisio trefnu cyfleoedd hyfforddi gyda'r un cyflogwr. Mae llawer o'r darparwyr yn cynnig cyfleoedd da i'r dysgwyr symud ymlaen i'r lefel hyfforddi nesaf ac i ddatblygu eu

medrau. Ond nid yw lleiafrif o'r darparwyr yn rhoi digon o flaenoriaeth i ddatblygu medrau llythrennedd y dysgwyr.

Mae ansawdd hyfforddi ac asesu pump o'r darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu'n dda. Yn y darparwyr yma, mae staff yn mynd ati'n dda i drefnu asesiadau a sesiynau hyfforddi yn y gwaith ac mewn mannau eraill. Mae ganddyn nhw strategaethau asesu clir ac maen nhw'n defnyddio dull systematig o olrhain cynnydd y dysgwyr. Yn ystod gweithgareddau i ffwrdd o'r swydd, mae'r hyfforddwyr yn defnyddio dewis da o adnoddau i ennyn diddordeb y dysgwyr. Yn achos tri darparwr, ble nad yw'r asesu'n well na digonol, nid yw'r asesywyr yn cynllunio'n dda. Nid ydyn nhw chwaith yn herio'r dysgwyr yn briodol i gwblhau eu hasesiadau neu i gasglu gwybodaeth ar gyfer

portffolio'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae'r staff yn aml yn methu trefnu gweithgareddau asesu addas a fyddai'n cynnig tystiolaeth ddefnyddiol o gynnydd y dysgwyr o ran datblygu eu medrau ymarferol.


Mae pob un o'r darparwyr a gafodd eu harolygu wedi gwneud trefniadau da i gynnig gofal, arweiniad a chymorth i'r dysgwyr. Mae pob un wedi rhoi polisiâu a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith.

Mae'r amgylchedd dysgu'n dda mewn chwech o'r darparwyr ac yn ddigonol mewn dau. Mae pob un yn hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at amrywiaeth yn dda. Mae llawer o'r dysgwyr yn gweithio mewn gweithleoedd sy'n cynnig cyfle i ddefnyddio dewis mawr o wahanol adnoddau. Yn ystod hyfforddiant

i ffwrdd o'r swydd, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hefyd yn gallu defnyddio dewis da o adnoddau. Ond yn achos dau o'r darparwyr, nid yw'r adeiladau na'r adnoddau'n ddigonol da, ac mae hyn yn atal cynnydd y dysgwyr.

Mae lleiafrif o'r darparwyr yn cynnig hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn gwneud digon i annog dysgwyr sy'n Gymry Cymraeg i wneud eu hyfforddiant ac i gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ffigur 2.33: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda ym mhump o'r darparwyr a gafodd eu harolygu eleni, ac maen nhw'n ddigonol mewn tri. Ble mae'r arweinyddiaeth yn dda, mae'r uwch reolwyr yn gosod blaenoriaethau a thargedau strategol clir, ac maen nhw'n eu monitro'n ofalus er mwyn asesu i ba raddau maen nhw'n cael eu cyflawni. Maen nhw'n cyfathrebu'n dda gyda'r staff a'u prif bartneriaid. Mae'r darparwyr yma wedi rhoi gweithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol ar waith i adolygu a gwella perfformiad y staff. Yn achos tri o'r darparwyr, nid yw'r rheolwyr yn rhoi digon o sylw yn ystod y broses o asesu perfformiad y staff i'r cyflymdra mae'r dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau.

Mae'r trefniadau ar gyfer gwella ansawdd yn dda yn achos pump o'r darparwyr yr arolygon ni. Mae'r darparwyr yma wedi

creu systemau hunanarfarnu cynhwysfawr ac effeithiol. Mae'r rheolwyr a'r staff yn mynd ati'n ofalus i fonitro deilliannau a darpariaeth er mwyn adnabod y cryfderau a'r diffygion, ac maen nhw'n cynllunio'n dda i wella ansawdd. Maen nhw'n defnyddio data i osod targedau ac i wella deilliannau'r dysgwyr.

Ble nad yw'r trefniadau gwella ansawdd yn well na digonol, nid yw'r rheolwyr yn adnabod y dulliau o wella gallu'r dysgwyr i gyflawni eu fframweithiau hyfforddi, nac yn eu rhoi ar waith.

Mae gwaith partneriaeth un darparwr yn rhagorol. Mae gwaith y saith darparwr arall a gafodd eu harolygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr wedi creu partneriaethau effeithiol gydag dewis helaeth o bartneriaid


sy'n cynnwys cyflogwyr lleol, colegau addysg bellach a sefydliadau eraill sy'n darparu hyfforddiant. Ond yn y mwyafrif o'r achosion, nid yw'r partneriaethau gydag ysgolion wedi cael eu datblygu digon. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yr ysgolion yn cael digon o wybodaeth am y gwahanol fathau o hyfforddiant galwedigaethol sydd ar gael ar eu cyfer. Yn yr achosion ble mae'r gweithio mewn partneriaethau'n rhagorol, mae'r darparwr yn gweithio gyda'i bartneriaid i ddatblygu strategaethau ac arferion gweithio ar y cyd, gan gynnwys prosiectau ar y cyd sy'n effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd y dysgwyr.

Mae'r trefniadau rheoli adnoddau'n dda yn chwech o'r darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu. Mae'r darparwyr yma'n gofalu bod y dysgwyr yn mynd i weithleoedd sy'n

cynnig adnoddau da. Mae'r mwyafrif o'r darparwyr yn cefnogi'r staff yn dda gan gynnig rhaglenni datblygu proffesiynol priodol sy'n gwella ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu. Nid yw dau o'r darparwyr yn defnyddio adnoddau'n ddigon da i wneud y safle'n fwy addas ac i wella ansawdd yr adeiladau fel bod deilliannau'r dysgwyr yn gwella.

Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn rheoli eu cyllid yn dda, ac maen nhw'n cynnig gwerth da am arian.

Ffigur 2.34: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae 16 o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Mae'r partneriaethau yma'n cynnwys nifer o wahanol ddarparwyr yn ardaloedd yr awdurdodau lleol. Yn eu plith mae colegau addysg bellach, yr awdurdod lleol ei hun, canolfannau iaith Gymraeg, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, y Cyngor Gwirfoddol Sirol a chyrrff gwirfoddol lleol.

Mae tri sefydliad addysg bellach hefyd yn darparu hyfforddiant dysgu oedolion yn y gymuned. Y sefydliadau yma yw Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru Coleg Harlech a Choleg Cymunedol YMCA Cymru.

Eleni fe arolygon ni bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf, a Choleg Cymunedol YMCA Cymru. Mae'r gwahanol ddarparwyr yn cynnig dewis amrywiol o gyrsiau i oedolion. Yn eu plith mae cyrsiau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, celf a dylunio, addysg sylfaenol oedolion, Cymraeg i oedolion a chysiau datblygu personol.

Canolfan Ranbarthol Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru

Eleni, fe wnaethon ni hefyd arolygu **Canolfan Ranbarthol Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru**. Sefydlwyd y ganolfan yma ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Mai 2006 fel un o chwech o ganolfannau rhanbarthol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i arwain y maes. Mae perfformiad a rhagolygon gwella'r ganolfan yma'n ddigonol.

I weld mwy o wybodaeth am y ganolfan yma, cyfeiriwch at yr *adroddiad llawn*.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni fe arolygon ni dri darparwr. Mae perfformiad un o'r darparwyr yn rhagorol a pherfformiad un arall yn dda. Digonol yw perfformiad un darparwr.

Mae rhagolygon gwella dau o'r darparwyr yn dda neu'n well. Mae rhagolygon un arall yn ddigonol.

Mae angen gweithgarwch dilynol yn y ddwy bartneriaeth DOG gan nad yw eu perfformiad presennol na'u rhagolygon gwella'n ddigonol. Yn y ddwy bartneriaeth, nid yw'r gweithdrefnau gwella ansawdd yn well na digonol. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y partneriaethau yma wrth iddyn nhw roi sylw i argymhellion yr arolygiad.

Deilliannau

Mae deilliannau dau o'r darparwyr a gafodd eu harolygu'n dda neu'n well. Maen nhw'n ddigonol yn y darparwr arall.

Mae'r safonau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni yn y tri darparwr a gafodd eu harolygu'n amrywio gormod.

Mae llawer o'r dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau gwaith ieuencid yn datblygu eu medrau sylfaenol a'u medrau cyfathrebu'n dda. Ond mewn un bartneriaeth DOG, dim ond rhyw hanner y dysgwyr mewn addysg sylfaenol i oedolion (ASO) a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) sy'n datblygu eu medrau sylfaenol yn foddhaol.


Mae'r dysgwyr yn defnyddio'u cynlluniau dysgu unigol yn dda ar y cyfan i wella'u dysgu a'u medrau. Ond nid yw ychydig o'r dysgwyr yn deall sut gall y cynlluniau yma'u helpu i osod amcanion priodol i wella'u dysgu ac i adolygu eu cynnydd.

Mae'r holl ddysgwyr bron yn llawn cymhelliant. Maen nhw'n mynychu'n rheolaidd ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig. Mae llawer ohonyn nhw'n dod i ddeall llawer am ffyrdd iach o fyw trwy ddysgu am feysydd fel bwyta'n iach, camddefnyddio cyffuriau ac iechyd meddwl.

Mae llawer o'r dysgwyr yn defnyddio'u profiadau i wneud gwaith defnyddiol yn eu cymunedau fel gwirfoddolwyr. Mae dysgwyr hŷn yn dysgu medrau newydd ac yn elwa ar weithio gyda'u cyd-ddysgwyr. Ond nid yw'r dysgwyr yn gwneud digon o ddefnydd o arweiniad annibynnol ynglŷn â gyrfaedd i'w helpu i wneud penderfyniadau ac i gynllunio eu dyfodol.

Mae dysgwyr o amryw o gefndiroedd o amddifadedd neu rai sy'n agored i niwed yn cyflawni'n dda. Mae'r dysgwyr yma, gan gynnwys troseddwr neu ddysgwyr sydd ar raglenni i bobl sy'n cam-drin cyffuriau, yn dechrau'n aml ar bwynt cychwyn isel. Ond maen nhw'n dysgu i wella'u medrau ac yn symud ymlaen at gyrsiau anoddach, neu i swyddi.

Ffigur 2.35: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae darpariaeth dau o'r darparwyr yr arolygon ni eleni'n dda neu'n well. Digonol yw darpariaeth y darparwr arall.

Mae pob un o'r darparwyr yn cynnig dewis helaeth o raglenni sy'n diwallu anghenion llawer o ddysgwyr a chymunedau'n dda. Yn benodol, mae'r darparwyr yn gweithio'n dda mewn partneriaethau er mwyn rhoi sylw i lawer o wahanol anghenion dysgu. Ond mae ansawdd darpariaeth y gwahanol ddarparwyr yn amrywio gormod. Yn un o'r partneriaethau DOG, nid oes unrhyw strategaeth glir i wella medrau sylfaenol aelodau'r gymuned ac nid oes digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Mae ansawdd gwaith addysgu dau o'r darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu eleni'n dda neu'n well. Yn y darparwyr yma, mae'r tiwtoriaid yn defnyddio'u harbenigedd yn dda i gynllunio dewis helaeth o weithgareddau diddorol a heriol. Ym mhob un o'r darparwyr, mae'r tiwtoriaid yn gweithio'n dda ac yn ymateb i ddi-ddordebau a galluoedd y dysgwyr. Ond mae gormod o diwtoriaid yn methu defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn ddigon da i roi cyfeiriad i'r dysgu. Nid ydyn nhw chwaith yn helpu'r dysgwyr i adolygu eu cynnydd.

Mae'r tiwtoriaid yn cynnig gofal a chymorth da i'r dysgwyr ar y cyfan. Ond nid oes digon o staff yn cynnig arweiniad defnyddiol i'r dysgwyr o safbwynt defnyddio'u medrau a'u cymwysterau yn eu bywydau neu eu gyrfaoedd.

Mae'r darparwyr wedi rhoi polisiau priodol ar waith i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed. Ond mae gormod o'r tiwtoriaid heb ddeall yn ddigon clir yr amgylchiadau sy'n gwneud oedolion yn agored i niwed. Maen nhw hefyd yn ansicr ynglŷn â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes unrhyw ddigwyddiadau argyfyngus yn digwydd.


Mae amgylchedd dysgu pob un o'r darparwyr yn dda neu'n well.

Gweithio effeithiol mewn partneriaeth i gynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed

Mae **Coleg Cymunedol YMCA Cymru** wedi llwyddo'n dda i gynllunio ac i gyflwyno dewis o safon o gyrsiau achrededig sydd wedi'u seilio ar fedrau, i ddysgwyr sy'n droseddwy'r o bob rhan o Gymru.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr astudiaeth achos **'Diben a chyfeiriad clir = llwyddiant'**.

Ffigur 2.36: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth un o'r darparwyr yn rhagorol. Digonol ydyn nhw yn y ddau ddarparwr arall.

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn amrywio gormod ar y cyfan. Dim ond un o'r partneriaethau DOG sy'n cyflawni ei rôl strategol yn dda. Nid yw uwch reolwyr y bartneriaeth arall wedi llwyr ddeall gwerth partneriaeth ffurfiol. Nid oes unrhyw gynllun partneriaeth sy'n disgrifio blaenoriaethau dysgu oedolion. Nid yw byrddau'r gwasanaethau lleol ar y cyfan yn rhoi digon o sylw gynlluniau ar gyfer rhaglenni dysgu oedolion.

Mae'r darparwr sy'n goleg wedi rhoi systemau rhagorol ar waith i wella ansawdd. Mae'n hunan-feirniadol ac yn gwneud defnydd da iawn o ddata i wella deilliannau a darpariaeth. Ond nid yw'r un o'r ddwy bartneriaeth a gafodd eu harolygu wedi gwneud trefniadau gwell na digonol i wella ansawdd. Nid yw'r partneriaethau yma'n gwneud digon i wella deilliannau a darpariaeth. Nid ydyn nhw'n cymharu safonau a darpariaeth yn erbyn rhai partneriaethau eraill, ac nid ydyn nhw'n rhannu arfer dda yn ddigon da.


Eleni fe ganfuon ni fod llawer o'r darparwyr yn gweithio'n dda gyda'u partneriaid i gynllunio a chyflwyno dewis da o gyrsiau ar draws y bartneriaeth. Mae awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn cynnig llawer o gymorth i'r partneriaid eraill fel sefydliadau'r sector gwirfoddol. Mae'r coleg yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol meysydd fel hyfforddi gweithwyr ieuencid a dysgu troseddwy.

Mae'r graddau y mae'r partneriaethau'n rheoli'r adnoddau sydd ar gael ar eu cyfer yn amrywio gormod. Mae cymwysterau a phrofiad priodol gan fwyafrif o'r staff ar gyfer y cyrsiau maen nhw'n eu haddysgu. Mae pob un o'r darparwyr yn cynnig dewis da o

gyfleoedd hyfforddi i'w staff. Ond nid yw'r hyfforddiant staff yn un o'r partneriaethau DOG yn effeithio digon ar y broses o godi safonau ac o wella ansawdd yr addysgu. Digonol yn unig yw addysgu gormod o diwtoriaid, ac nid yw'r safonau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni wedi gwella digon.

Mae'r darparwyr yn rhannu holl adnoddau'r partneriaethau'n dda, ac maen nhw'n gwneud defnydd llawn o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r coleg a gafodd ei arolygu'n gwneud defnydd da o wybodaeth ariannol er mwyn cymharu ei gostau â chostau darparwyr eraill.

Ffigur 2.37: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Dysgu yn y system gyfiawnder

Eleni fe weithion ni gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar arolygiad byr o'r unig uned yng Nghymru i bobl ifanc ar remand a phobl ifanc sydd wedi'u dedfrydu. Fe gymeron ni ran hefyd mewn arolygiad llawn o'r carchar mwyaf i oedolion yng Nghymru.

Ar ben hynny fe wnaethon ni adolygiad ar y cyd o'r Gwasanaethau Troseddau Ieuencid gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Deilliannau

Mae deilliannau'n dda yn yr uned i bobl ifanc. Mae'r holl bobl ifanc bron yn cyflawni cymhwyster perthnasol ac yn symud ymlaen at gwrs ar lefel uwch.

Yn y carchar i oedolion, mae'r cyfraddau llwyddo'n dda iawn yn y dosbarthiadau galwedigaethol, ac yn y dosbarthiadau addysg gyffredinol.

Darpariaeth

Mae'r uned i bobl ifanc yn cynnig mwy a mwy o gyrsiau diddorol a pherthnasol. Mae'r bobl ifanc yn treulio mwy o amser nag o'r blaen allan o'u celloedd yn gwneud rhyw weithgarwch bwriadol.

Yn y carchar i oedolion, mae'r dewis o weithgareddau addysg yn dda, ond nid oes digon o leoedd gweithgarwch i alluogi pob un o'r carcharorion i gael cyfleoedd cyflogaeth ac addysg.

Mae amrywio mawr yn nifer yr oriau o addysg mae plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â thimau troseddau ieuencid yn eu cael i fynychu darpariaeth addysgol arall yn hytrach nag ysgolion prif ffrwd. Mae rhai'n cael dwy awr y diwrnod yn unig, ac nid yw rhai'n cael unrhyw addysg o gwbl.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn yr uned i bobl ifanc, mae'r rheolwyr yn cydweithio'n dda â'r ysgolion i roi cyfle i'r bobl ifanc barhau â'u hastudiaethau yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.

Yn y carchar i oedolion, boddhaol yw'r gwaith o arwain a rheoli'r ddarpariaeth addysgol.

Mae'r byrddau rheoli ar y cyfan wedi gwella'u gwaith o arwain a rheoli'r gwasanaethau troseddau ieuencid. Ond nid yw'r awdurdodau lleol o hyd yn monitro'n ddigon da safonau a lles y plant a'r bobl ifanc yma.

Ardan 3: Crynodebau o arolygon cylch gwaith Estyn

Adroddiad Blynyddol 2010-2011



Cynnwys

Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen	04	Addysg disgyblion Sipsiwn a Theithwyr	11
Dysgu yn yr awyr agored	05	Adolygiad o gynlluniau cydraddoldeb anabledd ac arfer mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion	12
Cefnogi disgyblion mwy galluog a dawnus mewn ysgolion cynradd	06	Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion	13
Arfarniad o effaith y Fframwaith Medrau anstatudol yng nghyfnod allweddol 2	07	Effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad dysgwyr mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith	14
Materion ariannol – Darparu addysg ariannol i bobl ifanc rhwng 7 ac 19 mlwydd oed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru	08	Y rhaglen datblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu	15
Rhifedd ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed	09	Medrau ar gyfer gweithwyr hŷn ac effaith dysgu oedolion yn y gymuned ar les dysgwyr hŷn	16
Adroddiad arolygiad ardal ar ansawdd a safon y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yn Sir y Fflint	10	Arolwg dilynol o gynnydd rhanddeiliaid o ran rhoi sylw i'r diffygion mewn hyfforddiant cymwysterau proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid yng Nghymru	17

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru ac Estyn yn cytuno ar raglen o faterion ym myd addysg a hyfforddiant a fydd yn cael sylw manwl. Rydyn ni'n gwneud gwaith arolwg ar y materion yma, yn ychwanegol at ein gwaith arolygu. Byddwn ni'n cyflwyno'n canfyddiadau a'n cyngor mewn adroddiadau sy'n mynd yn uniongyrchol at y gweinidogion, ac rydyn ni'n gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru¹.

Mae'r adroddiadau hefyd yn cynnwys argymhellion i ddarparwyr ac awdurdodau lleol. Yn yr adroddiadau llawn, fe welwch chi hefyd enghreifftiau o arfer dda ac arfer ragorol, yn ogystal ag argymhellion ynglŷn â gwella. Mae hyn yn helpu'r arweinwyr, y rheolwyr a'r athrawon i wella'u gwaith.

¹ Ar ôl cyhoeddi'r holl adroddiadau cylch gwaith, mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cynlluniau gweithredu i roi sylw i'r argymhellion sydd ym mhob un o'r adroddiadau.

Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen

Mae effaith y Cyfnod Sylfaen ar les plant wedi bod yn gadarnhaol, ac yn y mwyafrif o'r ysgolion mae plant pump a chwech oed yn cyflawni'n dda. Ond nid yw hyn yn wir mewn lleiafrif o'r ysgolion, a'r rheswm am hynny'n aml yw nad yw'r arweinwyr a'r athrawon yn deall egwyddorion ac arfer y Cyfnod Sylfaen. Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr ac athrawon wedi arfarnu'r Cyfnod Sylfaen yn ddigon cadarn i adnabod y pethau sy'n gweithio'n dda a'r rhai sydd angen eu gwella. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw'r staff wedi'u hargyhoeddi o werth addysgol y Cyfnod Sylfaen neu nid ydyn nhw'n gwybod digon amdano i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.

Yn y mwyafrif o'r ysgolion lle mae'r arweinwyr a'r athrawon wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn dda, mae'r pwyslais ar godi safonau, yn enwedig mewn llythrennedd. Er hynny, mewn lleiafrif sylweddol o'r ysgolion, nid oes digon o addysgu darllen yn uniongyrchol, ac nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd addas i ymarfer a defnyddio'u medrau darllen. Er bod y Cyfnod Sylfaen ym mhob ysgol bron yn cynnig cyfoeth o gyd-destunau a chyfleoedd sy'n cymhell y plant i ysgrifennu, mae amrywiaeth ac ansawdd eu gwaith ysgrifenedig yn llawer o'r ysgolion yn gyfyngedig yn aml. Mae'r tasgau ysgrifennu'n dilyn fformiwla gaeth ac maen nhw'n arwynebol.

Mae lles llawer o blant wedi elwa, yn sgil rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Y buddion cyffredinol yw bod y plant yn cael eu cymhell mwy a'u bod yn mwynhau dysgu. Mae dulliau dysgu gweithredol a defnyddio amgylchedd yr awyr agored yn helpu i gynnal diddordeb bechgyn yn eu dysgu.

Mae datblygu'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored yn dod yn ei flaen yn dda yn y mwyafrif o'r ysgolion. Ond yn aml nid yw'r ymarferwyr yn rhoi digon o gymorth i'r plant i hybu eu dysgu, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu. Mewn lleiafrif o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth awyr agored yn brin, os oes unrhyw ddarpariaeth o gwbl.

Dysgu yn yr awyr agored

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi pwys mawr ar annog plant i ddefnyddio'r awyr agored i arbrofi, i archwilio ac i fentro. Mae llawer o ysgolion a lleoliadau wedi rhoi llawer o amser, egni ac arian i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored i fodloni'r dyheadau yma.



Nid yw'r garfan gyntaf o blant wedi cwblhau'r Cyfnod Sylfaen eto. Mae hyn yn golygu nad oes llawer o ddata ar gael ar hyn o bryd y byddai'n bosib eu defnyddio i fesur manteision y Cyfnod Sylfaen. Mae'r diffyg data hefyd yn ei gwneud hi'n anodd cymharu darparwyr. Bydd y data yma ar gael o haf 2012.

Mewn dwy o bob tair o'r sesiynau a gafodd eu harsylwi fel rhan o'r arolwg, roedd y profiadau dysgu yn yr awyr agored yn dda neu'n well. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored wedi bod yn fwy llwyddiannus mewn ysgolion nag mewn lleoliadau nas cynhelir.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion a'r lleoliadau'n gwneud defnydd digonol o leiaf o'r awyr agored, ac ar y cyfan, mae hyn o fantais i ddysgu'r plant. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, mae mwynhad, lles, ymddygiad, gwybodaeth a datblygiad corfforol y plant, a'u dealltwriaeth o'r byd, yn gwella o ganlyniad i ddefnyddio'r awyr agored. Er hynny, nid yw'r awyr agored yn cael ei ddefnyddio digon i ddatblygu darllen ac ysgrifennu, yr iaith Gymraeg, dawn greadigol y plant, na'u gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae athrawon yn tueddu i asesu dysgu'r plant yn llai aml ac yn llai trwyadl yn yr awyr agored nag y maen nhw'n ei wneud dan do. Nid ydyn nhw'n olrhain yn ddigon da y cynnydd mae'r plant yn ei wneud o ran datblygu eu medrau yn yr awyr agored. Gan fod plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored, mae perygl o fethu cerrig milltir pwysig yn eu datblygiad.

Nid yw uwch arweinwyr a rheolwyr wedi cael digon o hyfforddiant ar y Cyfnod Sylfaen bob amser i adnabod arfer dda, i herio arfer sy'n llai effeithiol, nac i wneud penderfyniadau cost effeithiol ar wella darpariaeth a chyfleusterau'r awyr agored.

“

“Mae athrawon yn tueddu i asesu dysgu'r plant yn llai aml ac yn llai trwyadl yn yr awyr agored nag y maen nhw'n ei wneud dan do.”

Cefnogi disgyblion mwy galluog a dawnus mewn ysgolion cynradd

At ei gilydd, nid oes digon o ddisgyblion ar draws Cymru'n cyflawni uwchlaw'r lefelau a ddisgwylir am eu hoed yn asesiadau'r athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

Aeth Estyn ati i arfarnu effeithiolrwydd y strategaethau mae ysgolion cynradd ac awdurdodau lleol yn eu defnyddio i gefnogi ac i herio disgyblion mwy galluog a dawnus. Fe wnaethon ni hefyd arfarnu effaith arweiniad a hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar y strategaethau yma.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a dawnus yn amrywio gryn dipyn ar draws Cymru. Nid yw lleiafrif o'r ysgolion cynradd yn adnabod y disgyblion yma'n effeithiol ac nid ydyn nhw'n cynnig cymorth priodol iddyn nhw. Nid yw'r arbenigedd gan yr athrawon yn yr ysgolion yma i ddarparu cwricwlwm sy'n ddigon heriol i alluogi'r plant yma i gyflawni'r safonau uchaf posibl.

Yn nifer bach o'r ysgolion sydd â'r ddarpariaeth orau, mae ganddyn nhw ddull ysgol gyfan o ddadansoddi ac asesu data sy'n adnabod yn fwy cywir y disgyblion mwy galluog a dawnus. Mae rhieni'n deall dull yr ysgol ar gyfer rhoi cymorth ychwanegol i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy galluog a dawnus. Yn yr ysgolion yma, mae hawl gan yr holl ddisgyblion i gael darpariaeth berthnasol ac maen nhw'n cael y ddarpariaeth honno.

Mae'r trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn ffactor pwysig yn llwyddiant hirdymor disgyblion mwy galluog a dawnus. Pan fo'r trefniadau trosglwyddo'n wan, fe allai'r disgyblion mwy galluog a dawnus fynd i deimlo'n rhwystredig, datblygu agweddau negyddol at yr ysgol ac ymddieithrio oddi wrth ddysgu.

Ychydig iawn o ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n arfarnu effaith strategaethau sy'n ceisio rhoi sylw i anghenion disgyblion mwy galluog a dawnus. Mae ychydig o awdurdodau lleol wedi methu manteisio'n llawn ar yr hyfforddiant mae Llywodraeth Cymru'n ei gynnig i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yma.

“

“Ychydig iawn o ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n arfarnu effaith strategaethau sy'n ceisio rhoi sylw i anghenion disgyblion mwy galluog a dawnus.”

Arfarniad o effaith y Fframwaith Medrau anstatudol yng nghyfnod allweddol 2

Ychydig iawn o ysgolion sydd wedi defnyddio'r Fframwaith Medrau fel man cychwyn y gwaith o gynllunio'u cwricwlwm newydd. Y rheswm pennaf am hyn yw bod ysgolion yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar ddogfennau statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Er hynny, mae llawer o'r ysgolion yn olrhain y sylw sy'n cael ei roi i fedrau meddwl, cyfathrebu, rhif, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn erbyn y Fframwaith Medrau. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion nid oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar addysgu medrau o gam i gam, ac nid oes digon o ddefnydd o'r cyfnodau datblygu o fewn haenau'r Fframwaith Medrau. Er hynny, nid yw'r Fframwaith Medrau ei hun yn cynnig digon o arweiniad i'r athrawon.

Mae medrau meddwl yn dod yn un o nodweddion canolog llawer o wersi yng nghyfnod allweddol 2. Bydd yr athrawon yn gofyn dewis da o gwestiynau da'n rheolaidd i ysgogi gallu'r dysgwyr i feddwl. Maen nhw'n annog y dysgwyr i chwilio am eu hatebion eu hunain ac i weithio gyda'u cyfoedion. Mae llawer o'r ysgolion wedi cael eu hyfforddi'n effeithiol i roi medrau meddwl ar waith.

Mae llawer o'r dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn cael cyfleoedd da i ddylanwadu ar y pethau maen nhw'n eu dysgu, ac maen nhw'n ddysgwyr sy'n dangos diddordeb a brwdfrydedd. Drwy gyflwyno cwricwlwm sy'n fwy seiliedig ar fedrau, mae llawer o ddysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o sut i wella'u medrau dysgu eu hunain.



“

“Bydd yr athrawon yn gofyn dewis da o gwestiynau da'n rheolaidd i ysgogi gallu'r dysgwyr i feddwl. Maen nhw'n annog y dysgwyr i chwilio am eu hatebion eu hunain ac i weithio gyda'u cyfoedion.”

Materion ariannol – Darparu addysg ariannol i bobl ifanc rhwng 7 ac 19 mlwydd oed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru

Mae bron pob dysgwr yn cael cyfleoedd yn yr ysgol i ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u gallu i ddeall materion ariannol. At ei gilydd, mae gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ariannol y dysgwyr yn ddigonol. Mae cynyddu pwyslais ar addysg ariannol yn ddiweddar mewn ysgolion, ac yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, wedi arwain at wella dealltwriaeth a gwybodaeth dysgwyr am agweddau penodol ar faterion ariannol, fel y gwahanol fathau o gardiau credyd sydd ar gael.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, yn cyflwyno addysg ariannol yn bennaf drwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol. Er hynny, nid yw'r gwersi yma'n ddigon ar eu pen eu hunain i wneud yn siŵr bod gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr yn dda am faterion ariannol, fel eu bod nhw'n gwneud penderfyniadau ariannol cadarn pan fyddan nhw'n hŷn.

Mae lleiafrif o'r ysgolion wedi mynd ati'n ofalus i gynllunio a mapio cyfleoedd ar gyfer addysg ariannol mewn pynciau penodol neu drwy destunau ar draws y cwricwlwm. Yn aml, mae gan yr ysgolion yma gydlynnydd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith yma ac maen nhw'n cynnwys y rhan fwyaf o'r staff yn y gwaith o gyflwyno addysg ariannol. Er hynny, nid yw mwyafrif o'r ysgolion yn cynllunio cyfleoedd yn ddigon da i ddysgwyr atgyfnerthu a chymhwysu'u medrau ariannol mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r ysgolion yma'n gwneud yn siŵr bod parhad a dilyniant ym mhrofiadau dysgu addysg ariannol.

Mae diffyg adnoddau Cymraeg ar gyfer addysg ariannol. Mae rhywfaint o'r adnoddau wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, ond nid yw'r athrawon bob amser yn gwybod sut neu ble i gael gafael arnyn nhw. Mae sefydliadau ariannol cenedlaethol wedi creu adnoddau fel gemau rhyngweithiol sy'n apelio at ddysgwyr, ond nid yw'r rhan fwyaf o'r rhain ar gael yn Gymraeg.

Rhifedd ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed

Mae canlyniadau TGAU a chymariaethau rhyngwladol yn dangos bod perfformiad mewn rhifedd yn is yng Nghymru nag yn y gwledydd cartref eraill ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Yn arolygiadau Estyn, mae'r safonau rhifedd wedi'u barnu'n is na chyfathrebu mewn Saesneg neu Gymraeg, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.



Mae nifer y dysgwyr mewn ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith sy'n ennill cymwysterau cymhwysio rhif wedi cynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Er hynny, mae gormod o'r dysgwyr yma'n ennill cymwysterau ar lefel sy'n llawer is na'u gallu. Trwy ddilyn cymwysterau ar lefel rhy isel, nid yw'r dysgwyr yma'n gwella digon ar eu medrau rhifedd.

Dim ond lleiafrif o'r ysgolion sy'n cynllunio i ddatblygu rhifedd yn systematig ar draws y cwricwlwm. Dim ond ychydig o'r ysgolion sy'n mynd ati'n ddigon da i olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion mewn rhifedd, a chynnydd y disgyblion hynny sydd eisoes wedi cael cymorth ar gyfer rhifedd yng nghyfnod allweddol 3. Mae tua hanner yr ysgolion yn yr arolwg yn methu rhoi cymorth penodol i ddysgwyr â medrau rhifedd gwael yng nghyfnod allweddol 4. Er bod yr ysgolion yn asesu medrau rhifedd y disgyblion, nid ydyn nhw'n rhannu'r wybodaeth yma'n ddigon da â darparwyr eraill pan fydd eu dysgwyr yn mynychu eu cyrsiau.

Mae colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn asesu lefel medrau rhifedd dysgwyr ar ddechrau cyrsiau. Yn gyffredinol, mae'r darparwyr yma'n defnyddio'r wybodaeth yn dda i nodi a oes angen cymorth penodol ar ddysgwyr. O ganlyniad, mae targedau rhifedd wedi cael eu trafod a'u gosod ar gyfer llawer o'r dysgwyr, fel rhan o'u cynlluniau dysgu unigol. Maen nhw'n elwa ar ddewis da o strategaethau cymorth priodol.

Adroddiad arolygiad ardal ar ansawdd a safon y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yn Sir y Fflint

Yn ein harolygiad o'r ddarpariaeth 14-19 yn Sir y Fflint, fe farnon ni fod y perfformiad presennol yn dda a bod y rhagolygon ar gyfer gwella'n dda.

Mae cyrhaeddiad dysgwyr yn dda at ei gilydd. Yng nghyfnod allweddol 4, mae tuedd sylweddol o wella wedi bod dros y tair blynedd diwethaf ym mherfformiad ysgolion uwchradd Sir y Fflint. Mae'r deilliannau yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy yn gyson ymhell uwchlaw cymaryddion cenedlaethol a disgwyliadau. Ar draws y ddarpariaeth dysgu yn y gwaith, mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn a chymwysterau eraill ar gyfraddau sy'n cymharu'n dda â chymaryddion cenedlaethol a data meincnodau.

Mae lefelau cyfranogiad a phresenoldeb yn uchel. O gymharu â chyfartaledd Cymru, mae cyfran uwch o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn Sir y Fflint yn parhau mewn addysg amser llawn. Mae cyfran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 heb fynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi disgyn ac mae'n parhau ymhell islaw ffigur Cymru.

Mae'r rhwydwaith 14-19 yn rhannu gweledigaeth ac mae'n rhoi pwyslais cadarn ar ddarparu'r profiadau dysgu gorau i bobl ifanc y sir. Mae gan y rhwydwaith hanes pendant

iawn o weld darparwyr a sectorau'n cydweithio. Mae'r Ganolfan Craidd Dysgu yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy yn cynnig amgylchedd o safon uchel ar gyfer cyflwyno cyrsiau cydweithredol.

Mae ymrwymiad cadarn i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth gydweithredol, ac mae'r cyfrifoldebau o ran sicrhau ansawdd pob agwedd ar y ddarpariaeth gydweithredol wedi cael eu diffinio'n glir. Mae'r rhwydwaith yn defnyddio llais y dysgwyr yn helaeth i lywio'i brosesau sicrhau ansawdd.

Nid yw patrwm presennol y ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion yn gynaliadwy. Mae gormod o'r dosbarthiadau ôl-16 yn tua hanner ysgolion uwchradd Sir y Fflint yn fach. Yn tua chwarter yr ysgolion, mae gan gymaint ag un o bob pedwar dosbarth ôl-16 lai na phum dysgwr. Hefyd mae'r cyrsiau sydd ar gael yn ychydig o'r ysgolion yn cael eu dyblygu'n ddiangen.

Addysg disgyblion Sipsiwn a Theithwyr

Y ffactorau pwysicaf wrth wella'r deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n Sipsiwn a Theithwyr yw gwella presenoldeb a gwella'u hagwedd at yr ysgol. Er bod staff addysg teithwyr yr awdurdod lleol yn aml yn darparu cymorth o safon i'r ysgolion a chymuned y teithwyr, mae cyfraddau presenoldeb a lefelau cyrhaeddiad disgyblion sy'n Sipsiwn a Theithwyr yn parhau i fod yn isel. Agwedd negyddol llawer o rieni sy'n Sipsiwn a Theithwyr at addysg uwchradd ffurfiol sy'n gyfrifol am hyn yn aml.

Ychydig o ysgolion sydd â pholisïau neu arferion sy'n rhoi sylw penodol i anghenion neu farn y disgyblion yma a'u rhieni. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, nid yw'r cwricwlwm yn mynd ati'n bwrpasol i hybu diwylliant Sipsiwn a Theithwyr.

Nid oes digon o awdurdodau lleol ac ysgolion yn defnyddio data ar bresenoldeb, gwaharddiadau neu gyrhaeddiad i fesur effaith eu cymorth i ddisgyblion sy'n Sipsiwn a Theithwyr. Nid yw'r data cenedlaethol sy'n cael eu casglu ar ddisgyblion sy'n Sipsiwn a Theithwyr bob amser yn gywir ac mae hyn yn gallu arwain at gyllido anghyfartal. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn defnyddio agweddau ar gylchlythyr Llywodraeth Cymru 'Symud Ymlaen –

Addysg i Sipsiwn-Theithwyr' fel sail i'w polisi a'u darpariaeth, ond hyn a hyn o effaith gyffredinol mae'r cylchlythyr wedi'i chael.

Yn adroddiad Estyn ar 'Addysg Dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr' (2005), roedden ni'n gwneud pum argymhelliad. Dim ond un o'r rhain sydd wedi cael sylw, sef bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu grŵp Cydlynwyr Cymru Gyfan. Mae'r grŵp yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac mae'n gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu arferion da yn y ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr yma. Ond nid yw ei waith wedi effeithio'n fawr eto ar waith y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd.

“

“Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn defnyddio agweddau ar gylchlythyr Llywodraeth Cymru 'Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Theithwyr' fel sail i'w polisi a'u darpariaeth, ond hyn a hyn o effaith gyffredinol mae'r cylchlythyr wedi'i chael.”

Adolygiad o gynlluniau cydraddoldeb anabledd ac arfer mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion

Dros y tair blynedd diwethaf, mae ysgolion prif ffrwd ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) wedi gwella'r ffordd maen nhw'n hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad i bobl anabl. Er hynny, mae ysgolion arbennig yn gwneud yn well na'r ddau sector arall.

Mae bron pob ysgol ac UCD wedi cyhoeddi cynllun hygyrchedd a chynllun cydraddoldeb anabledd sy'n cynnwys cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau y mae eu corff llywodraethol wedi'i gymeradwyo.

Mae cynlluniau, cynlluniau gweithredu ac arfer ysgolion yn amrywio cryn dipyn o ran cwmpas ac ansawdd. Mae'r cynlluniau gweithredu gorau'n rhestru'r camau mae'r ysgolion yn bwriadu eu cymryd, yn ôl amserlen briodol. Maen nhw'n enwi'r bobl sy'n gyfrifol am roi'r gwahanol gamau ar waith. Er hynny, mae mwyafrif o'r cynlluniau'n canolbwyntio ar ddisgyblion sydd ag anableddau corfforol neu weladwy, heb roi sylw i'r holl wahanol fathau o anabledd. Nid yw'r rhan fwyaf o'r rhieni a'r dysgwyr yn gwybod am y cynlluniau yma. Nid yw'r ysgolion a'r UCDau yn arfarnu effaith eu cynlluniau'n ddigon da.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion a'r UCDau, mae gweithio gwell mewn partneriaethau'n gwella deilliannau pobl ag anableddau. Mae partneriaethau rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd yn sicrhau mwy o gyfleoedd ac yn gwella'r cymorth ar gyfer dysgwyr ag anableddau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ag anableddau a'u rhieni'n dweud pethau cadarnhaol am gynnydd addysgol a chymdeithasol y dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion a'r UCDau yn newid ac yn addasu'r cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol mewn ffordd sy'n ffafrio anghenion unigol y dysgwyr.

“

“Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ag anableddau a'u rhieni'n dweud pethau cadarnhaol am gynnydd addysgol a chymdeithasol y dysgwyr.”

Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion

Mae'r nifer bach o ysgolion sy'n cefnogi dysgwyr dan anfantais yn dda wedi rhoi dulliau systematig ysgol gyfan ar waith. Mae'r ysgolion yma'n gwneud yn siŵr fod y cwricwlwm a'r dulliau addysgu'n ddigon hyblyg i fod yn addas i bob dysgwr, gan gynnwys rhai dan anfantais. Mae'r staff hefyd yn asesu ac yn olrhain cynnydd y dysgwyr yma'n ofalus er mwyn adnabod gwelliant neu ddirywiad. Mae cymorth unigol fel mentora neu help gyda medrau sylfaenol a gwaith cartref yn cael ei ddarparu ar gyfer y dysgwyr yma.

Mae'r rhwystrau sy'n atal dysgwyr dan anfantais rhag cyflawni ar lefel uchel yn rhai amrywiol a chymhleth. Rhoi hwb i hunanhyder y dysgwyr yw'r allwedd yn aml, gyda'r nod o wella'u hymddygiad, eu presenoldeb a'u hagwedd at ddysgu. Gwella'r agweddau yma yw'r camau cyntaf yn aml yn y dasg o godi cyrhaeddiad addysgol y disgyblion. Diffyg dyhead a chyfleoedd diwylliannol sy'n llethu dysgwyr dan anfantais yn aml. Mae'r ysgolion gorau'n ceisio goresgyn y rhwystrau yma drwy gynnig profiadau allgwrwicwlaidd a phrofiadau'r tu allan i oriau'r ysgol i'r dysgwyr, na fyddai ar gael iddyn nhw fel arall.

Nid yw'r ysgolion ar eu pennau eu hunain yn gallu mynd i'r afael ag effeithiau diffyg dyhead ac anfantais ddiwylliannol. Mae angen iddyn nhw weithio gyda'r gymuned a gyda gwasanaethau eraill. Drwy gynnig y cyfle i rieni a grwpiau cymunedol allu manteisio ar gyfleusterau, dysgu fel teulu a gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r heddlu, mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn ceisio sicrhau bod ysgolion, gwasanaethau a'r gymuned leol yn ymddiried yn ei gilydd. Mae angen creu diwylliant o barch a sicrhau bod y naill a'r llall yn ymddiried yn ei gilydd cyn y gall ysgolion fynd ati'n llwyddiannus i gydlynu cymorth 'tîm o amgylch y plentyn' o wasanaethau amrywiol ar gyfer dysgwyr dan anfantais a'u teuluoedd.

Yn gyffredinol nid yw arweinwyr yr ysgolion wedi cael llawer o hyfforddiant ar weithio gyda'r gymuned nac ar y math yma o wasanaethau. Nid ydyn nhw chwaith wedi cael llawer o hyfforddiant ar ddefnyddio data i arfarnu effaith mentrau i fynd i'r afael ag anfantais. Nid yw'r ysgolion yn rhannu'r arferion gorau nac yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd yn y maes yma. Nid yw'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn gwneud digon i gynnig arweiniad ymarferol i'r ysgolion ar sut i weithio gyda chymunedau lleol a gwasanaethau. Nid ydyn nhw'n rhoi digon o arweiniad ar y ffyrdd gorau o ddadansoddi data ar ddeilliannau dysgwyr dan anfantais.

“

“Drwy gynnig y cyfle i rieni a grwpiau cymunedol allu manteisio ar gyfleusterau, dysgu fel teulu a gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r heddlu, mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn ceisio sicrhau bod ysgolion, gwasanaethau a'r gymuned leol yn ymddiried yn ei gilydd.”

Effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad dysgwyr mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith

Mae tystiolaeth Estyn yn dangos bod cysylltiad pendant rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel mewn ysgolion. Mae disgyblion o'r teuluoedd tlotach yn fwy tebygol o gyrraedd lefelau is na disgyblion eraill.

Mae dysgwyr o ardaloedd o amddifadedd sy'n gadael yr ysgol yn cael cyfleoedd da i barhau â'u haddysg a'u hyfforddiant trwy ddysgu yn y gwaith ac addysg bellach. Mae'r cymorth ariannol mae'r dysgwyr yma'n ei gael yn ffactor allweddol sy'n eu helpu i gwblhau eu haddysg neu hyfforddiant. Mae gwahanol grantiau sy'n dibynnu ar brawf modd a lwfansau hyfforddi ar gael i'r dysgwyr sydd ar raglenni addysg bellach neu raglenni dysgu yn y gwaith. Teimlai'r rhan fwyaf o'r dysgwyr a gafodd eu cyfweild na fydden nhw'n gallu parhau i astudio heb yr help ariannol yma.

Nid yw'r darparwyr yn dadansoddi eu data am ddysgwyr yn ddigon da i wneud yn siŵr eu bod yn denu digon o ddysgwyr o ardaloedd o amddifadedd. Mae angen i ddarparwyr weithio'n fwy agos gyda'r ysgolion er mwyn adnabod dysgwyr o ardaloedd o amddifadedd. Y nod yw gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwybod am y cymorth personol a'r cymorth ariannol sydd ar gael pan fyddan nhw'n dewis gyrfa, a chyn iddyn nhw benderfynu ar y dewisiadau addysg bellach neu hyfforddiant gorau sydd ar gael ar eu cyfer.

Mae colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cynnig gofal, cymorth ac arweiniad da i'r dysgwyr o ardaloedd o amddifadedd. Ond nid yw darparwyr yn mynd ati'n ddigon da i ddadansoddi data am gyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad y dysgwyr i ddangos bod y gofal, yr arweiniad a'r cymorth yn effeithio'n gadarnhaol ar berfformiad, a bod dysgwyr o ardaloedd o amddifadedd yn cyflawni eu potensial. Dim ond nifer bach o ddarparwyr sy'n cymharu cyflawniad dysgwyr o ardaloedd o amddifadedd, neu gyflawniad dysgwyr sy'n derbyn cymorth ariannol, â pherfformiad dysgwyr eraill.



Y rhaglen datblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu

Mae technegau addysgu a dysgu'r rhaglen 'Datblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu' yn cael eu cydnabod fel arfer dda. Mewn ychydig o'r ysgolion y gwnaethon ni ymweld â nhw, lle mae athrawon yn defnyddio strategaethau'r rhaglen yn gyson, mae ymddygiad ac agwedd y disgyblion wedi gwella, ac mae mwy o batrwm i'w gallu i feddwl a dysgu. Nid yw'r newidiadau yma mewn addysgu a dysgu o reidrwydd yn arwain at gynnydd cynaliadwy neu gynnydd hawdd ei fesur mewn safonau neu fedrau. Prin yw'r dystiolaeth fod y rhaglen wedi gwella safonau mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol neu mewn profion safonol.

yn nodi bod angen mesurau arbennig ar yr ysgolion hyn ac yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn ymweld â'r ysgol bob tymor i fonitro cynnydd nes i ni farnu ei bod wedi gwella digon i gael ei thynnu o'r categori statudol hwn.

Mewn **lleoliadau nas cynhelir** sy'n methu darparu addysg o safon dderbyniol a lle nad yw'r arweinwyr yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol, bydd Estyn yn cynnal ymweliad monitro gwelliant â ffocws.

Mewn **lleoliadau ôl-16**, yn ogystal â chanfod arfer ragorol, mae 3 math arall o weithgaredd dilynol, sef:

- **Ymweliad monitro gan arolygydd cyswllt ôl-16**
Os caiff nifer fechan o gwestiynau allweddol neu ddangosyddion ansawdd eu barnu'n ddigonol, bydd arolygydd cyswllt ôl-16 yn monitro'r meysydd penodol hyn er mwyn sicrhau y gwneir gwelliant.
- **Ymweliad monitro gan dîm Estyn**
Byddai'r math hwn o weithgarwch dilynol yn cael ei gynnal pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol yn ddigonol, ond nad yw'n peri pryder i'r graddau bod angen ailarolygiad.
- **Ailarolygiad**
Fel arfer, pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn anfodhaol, bydd Estyn yn cynnal ailarolygiad.

Yn ystod **arolygiadau o awdurdodau lleol**, mae pum math o weithgarwch dilynol hefyd.

1. Astudiaeth achos arfer ragorol
2. Monitro gan arolygydd cyswllt
3. Ymweliad monitro gan Estyn
4. Gwelliant sylweddol
5. Mesurau arbennig

Mae'r ddau weithgaredd dilynol olaf yn gategoriâu ffurfiol sy'n berthnasol i awdurdod lleol sy'n peri pryder, fel y diffinnir gan ddeddfwriaeth ac unrhyw gylchlythyrau cysylltiedig.

Rhestr o dermau arolygu

A	
ABCh	Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn cynnwys y cyfan y mae ysgol yn ei wneud i gynorthwyo a hybu datblygiad personol a chymdeithasol a lles ei dysgwyr.
Adeiladu Sgiliau	Mae'r rhaglenni hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr roi cynnig ar fathau gwahanol o swyddi, er mwyn canfod pa un sy'n eu gweddu orau. Mae'r rhaglenni hefyd yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen at hyfforddiant pellach neu i waith.
Adroddiad Beecham 2006	Adolygiad Syr Jeremy Beecham o Gyflenwi Gwasanaethau Lleol yng Nghymru.
Adroddiad Clywch	Adroddiad Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru i honiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn lleoliad ysgol.
Adsefydlu	Y prosesau sy'n galluogi troseddwr i ymgartrefu 'nôl yn y gymuned pan fydd wedi cwblhau ei ddedfryd.
Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang	Mae ADCDF yn galluogi pobl i ddatblygu'r wybodaeth, y gwerthoedd a'r medrau i gyfranogi mewn penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau'n unigol a gyda'n gilydd, yn lleol ac yn fyd-eang, a fydd yn gwella ansawdd bywyd nawr heb niweidio'r blaned i'r dyfodol.
addysg bersonol a chymdeithasol	Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn cynnwys popeth y mae ysgol yn ei wneud i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol ei disgyblion. Mae hyn yn cynnwys yr holl brofiadau a'r cyfleoedd dysgu sy'n cael eu cynllunio. Bydd y rhain yn digwydd nid yn unig yn yr ystafell ddosbarth, ond mewn meysydd eraill o brofiad ysgol hefyd sy'n dangos gwerthoedd a bywyd cymunedol yr ysgol.
Addysg cyfrwng Cymraeg	Pynciau sy'n cael eu haddysgu yn Gymraeg yw addysg cyfrwng Cymraeg.
addysg gwerthoedd	Datblygu synnwyr disgyblion o gyfrifoldeb cymdeithasol a pharch tuag at eraill yw addysg gwerthoedd.
addysg heblaw addysg yn yr ysgol (EOTAS)	Addysg yw hon sy'n cael ei darparu i ddisgyblion na allant, am amrywiaeth o resymau, fynd i'r ysgol. Yn aml, disgyblion yw'r rhain y mae eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad wedi eu harwain at gael eu

	<p>gwahardd o'r ysgol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys disgyblion na allant fynd i'r ysgol am resymau iechyd. Mae'r ddarpariaeth addysgol y tu allan i leoliad yr ysgol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • unedau cyfeirio disgyblion sydd wedi cofrestru (gweler nes ymlaen yn yr eirfa hon); • addysg yn y cartref gan wasanaeth dysgu gartref yr awdurdod lleol; ac • addysg a hyfforddiant sy'n cael eu darparu gan asiantaethau allanol fel y tîm troseddau ieuentid, asiantaethau gwirfoddol neu ddarparwyr yn y gwaith.
Addysg sylfaenol oedolion	<p>Mae addysg sylfaenol oedolion ar gyfer dysgwyr sydd eisiau gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Gallant ennill achrediad o lefel cyn mynediad i fyny at lefel 2.</p>
aelodau etholedig	<p>Cynghorwyr yw'r rhain sydd wedi'u hethol gan ddinasyddion ardal i'w cynrychioli ar gyngor yr awdurdod lleol am gyfnod o bedair blynedd.</p>
AGGCC	<p>Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn un o isadrannau Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad Llywodraeth Cymru.</p>
Agored Cymru	<p>Ymddiriedolaeth elusenol a sefydliad dyfarnu, sy'n gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyfle i ddysgwyr, yn enwedig rhai sydd wedi colli cyfleoedd blaenorol, i ennill medrau a chymwysterau trwy ddyfarnu cyrsiau a chymwysterau wedi'u seilio ar gredydau, sy'n hyblyg ac yn ymateb i anghenion unigolion a chymunedau yng Nghymru.</p>
aifodelu'r gweithlu	<p>Ym mis Ionawr 2003 fe wnaeth AdAS (wedi'i ddisodli erbyn hyn gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd) gyhoeddi dogfen o'r enw 'Codi safonau a mynd i'r afael â'r llwyth gwaith: cytundeb cenedlaethol'. Roedd hyn yn cynnwys diwygio rolau staff cymorth mewn ysgolion fel bod athrawon a disgyblion yn cael cymorth gwell.</p>
anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad	<p>Gall disgyblion sydd â'r anawsterau hyn ddangos ymddygiad encilgar, unig, aflonyddgar, gorfywrog, disylw, anaeddfed yn gymdeithasol neu heriol. Mae anawsterau cysylltiedig gan rai o'r disgyblion hyn o ran iechyd meddwl neu iechyd corfforol, cyfathrebu a dysgu.</p>
anawsterau dysgu difrifol a dwys	<p>Mae anawsterau deallusol neu wybyddol sylweddol gan ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol. (Mae</p>

	anawsterau gwybyddol yn cynnwys cyflyrau fel problemau cofio tymor byr neu dymor hir, a'i chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau neu i gynllunio a threfnu'r tasgau bob dydd mwyaf syml. Gall fod anawsterau cysylltiedig ganddynt hefyd o ran symud a chydsymud, cyfathrebu a deall, a dysgu medrau hunangymorth.)
anawsterau dysgu dwys	Mae gan ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys anhawster dysgu difrifol. Mae'n arwain at oedi sylweddol wrth geisio cyrraedd cerrig milltir datblygiadol. Maent hefyd yn dangos anawsterau symud, anawsterau synhwyraidd sylweddol (fel clywed neu weld) neu anghenion gofal iechyd cymhleth.
Anawsterau ymddygiad	Ymddygiad aflonyddgar ac aflonyddol a all gynnwys gorfywiogrwydd a diffyg canolbwytio.
Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)	Caiff anghenion addysgol arbennig eu diffinio yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (2002) a gallant gynnwys anabledd, anawsterau dysgu neu anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad.
anghenion dysgu ychwanegol (ADY)	<p>Mae'r term hwn yn ymwneud ag amrywiaeth eang iawn o anghenion. Defnyddiwn y term ADY mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion heblaw am anghenion y rhan fwyaf o'u cyfoedion yn y dosbarth, am nifer o resymau gwahanol, gan gynnwys dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA), fel sy'n cael ei ddiffinio yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (2002); • sy'n anabl, fel sy'n cael ei ddiffinio yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995; • sydd ag anghenion meddygol; • sydd ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad; • sy'n fwy galluog a dawnus na'r rhan fwyaf o'u cyfoedion yn y dosbarth; a • sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.
Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig (ASD)	Defnyddir y term Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) i ddisgrifio'r grŵp o anhwylderau datblygol treiddiol a nodweddir gan anawsterau rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu, a chan ystod cyfyngedig o ymddygiad ailadroddus a diddordebau.
Ariannu cydgyfeirio	Arian o Ewrop yw hon sy'n ceisio annog mwy o bartneriaethau rhanbarthol a strategol rhwng darparwyr.

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

arolygiad ardal	Mewn arolygiadau ardal, rydym yn arolygu ansawdd ac argaeledd math arbennig o addysg neu hyfforddiant i ddysgwyr 14 i 19 oed mewn ardal benodol o Gymru.
Arolygiadau monitro	Mae Arolygwyr Ei Mawrhydi yn Estyn yn cynnal ymweliadau monitro bob blwyddyn ag ysgolion annibynnol sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Diben yr ymweliadau hyn yw darparu adroddiad i Lywodraeth Cymru ar safonau ac ansawdd addysg, a nodi materion pwysig ar gyfer gwella yn yr ysgolion hyn.
Arolygiaeth Carchardai EM	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.
Arolygiaeth Prawf EM	Arolygiaeth Gwasanaethau Prawf Ei Mawrhydi.
arolygydd cymheiriaid	Dyma rywun sy'n ymuno â thîm arolygu ac sy'n gweithio yn y sector sydd i'w arolygu ar hyn o bryd. Mae'n gyfrifol am arolygu dangosydd ansawdd, agwedd neu gwestiwn allweddol. Mae'n gallu cyfrannu ei brofiad ei hun o arferion gweithio cyfredol. Mae angen i arolygwyr cymheiriaid fodloni amodau penodol cyn iddynt gael eu dewis, a rhaid iddynt gwblhau rhaglen hyfforddi ac asesu berthnasol.
ASDAN (Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu)	Mae cymwysterau a dyfarniadau'r rhwydwaith yn cael eu defnyddio gan ysgolion a cholegau i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr 14-19 oed i ddatblygu medrau personol, cymdeithasol a medrau dinasyddiaeth weithgar, medrau yn gysylltiedig â gwaith, medrau allweddol a medrau allweddol ehangach. Mae'r cymwysterau a'r dyfarniadau'n cael eu cymeradwyo a'u hariannu gan yr Adran Addysg a Sgiliau.
Asesiad o Wariant Safonol (SSA)	Mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu ei Grant Cynnal Refeniw blynyddol i bob Cyngor drwy fformiwla o'r enw Asesiad o Wariant Safonol. Yr Asesiad o Wariant Safonol yw'r swm y mae Llywodraeth Cymru yn asesu y mae ei angen er mwyn darparu lefel safonol o wasanaeth yn yr ardal, mewn termau cymharol. Mae gan bob awdurdod lleol elfen a enwir yn ei Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol.
Asesiadau diwedd cyfnod allweddol	Asesu cyrhaeddiad plant yn 7, 11 a 14 oed yn erbyn meini prawf a lefelau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol	Mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (Cymru), sydd wedi uno â Llywodraeth Cymru, yn gweithredu Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru.

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

Asset	Offeryn asesu strwythuredig, a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, sy'n edrych ar drosedd, amgylchiadau personol, agweddau a chredoau'r unigolyn ifanc sydd wedi cyfrannu at ei (h)ymddygiad troseddol.
awdurdod lleol	Awdurdod neu gyngor sy'n gyfrifol am ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys addysg i ddisgyblion o oed ysgol, mewn ardal benodol.
awtistiaeth	Mae disgyblion sydd ag awtistiaeth yn cael anawsterau gyda pherthnasoedd cymdeithasol, cyfathrebu'n gymdeithasol a meddwl â dychymyg. Mae disgyblion yn cwmpasu'r amrediad gallu llawn, a gall fod anawsterau dysgu neu anabledau eraill gan rai hefyd. Mae awtistiaeth yn rhan o'r amrediad o Anhwyldeira ar y Sbectwm Awtistig (ASD).

B	
BBC Skillswise	Hon yw gwefan llythrennedd a rhifedd oedolion y BBC.
Blas am Oes	Menter gan Lywodraeth Cymru yw hon a gynlluniwyd i hyrwyddo deiet cytbwys fel rhan o ffordd iach o fyw ac i wella safonau maethol bwyd a diod mewn ysgolion.
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr	Sefydliad cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd ym mis Medi 1998 i gydlynu'r system cyfiawnder ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr. Ei nod yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc drwy atal troseddu ac ofn troseddu, adnabod a delio â phobl ifanc sy'n troseddu, a lleihau troseddu.
Bws Cognition	Ystafell ddosbarth symudol yw Bws Cognition sy'n darparu gwersi cognition ymarferol i ddisgyblion mewn ysgolion, sesiynau hyfforddi athrawon, a sesiynau i rieni plant ifanc.

C	
Cadw mewn Cysylltiad (KIT)	Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i wasanaethau cymorth ieuencid ofalu bod cydlynu gwell yn eu gwaith o roi cymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. 'Cadw mewn Cysylltiad', neu KIT, yw'r enw cyffredin ar y strategaeth hon. Mae'n rhoi manylion am helpu sefydliadau i rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol er mwyn helpu pobl ifanc i fynd i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, ac aros yno.

Cam at Waith	Rhaglen hyfforddi sy'n cael ei hariannu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (yr hen Ganolfan Byd Gwaith), ac sy'n cynnig cymorth i bobl ag anableddau sy'n wynebu rhwystrau wrth chwilio am swydd a chadw swydd. Mae'n cynnig cyfleoedd i'r unigolion hyn gael swyddi, ac yn rhoi cymorth iddynt mewn gwaith.
Campau'r Ddraig	Mae Campau'r Ddraig yn cael eu trefnu gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac fe'u hariennir gan y Loteri Genedlaethol. Ei nod yw annog plant 7-11 oed i fod yn fwy gweithgar trwy eu cyflwyno i amrywiaeth o chwaraeon y tu allan i wersi addysg gorfforol yn yr ysgol. Mae'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion i fwydo i mewn i raglenni datblygu chwaraeon mewn clybiau ac yn y gymuned, ac i wneud cynnydd drwyddynt.
Canolfan Byd Gwaith	Hwn yw sefydliad y llywodraeth sy'n delio â phobl ddi-waith a'u helpu i ddod o hyd i waith.
canolfan rhaglenni	Cymorth wedi'i deilwra i unigolion i gynorthwyo cwsmeriaid ddod o hyd i waith, ac mae pwyslais penodol ar ddatblygu medrau meddal.
CATs	Profion Galluoedd Gwybyddol yw CATs sydd wedi'u cyhoeddi gan Asesiadau Granada Learning (GL) (NFERNelson gynt); maent yn asesu gallu disgybl o ran ymresymu llafar, meintiwl a heb eiriau. Maent wedi'u cynllunio i leihau i'r eithaf rôl y dysgu blaenorol a gallant felly roi syniad o botensial.
CBAC	Bwrdd arholi Cymru.
CCAC	Cymdeithas cyfarwyddwyr addysg Cymru. Mae gan bob awdurdod lleol gynrychiolaeth ar y corff hwn, sy'n cyfarfod i drafod materion ac i gytuno ymatebion a strategaethau.
Ceisiwr Iloches	Mae ceisiwr Iloches wedi gwneud cais i gael aros yn y DU, ond nid yw eto wedi cael caniatâd i aros gan y Swyddfa Gartref.
Ciwb Dal i Fynd	Cynllun sy'n annog disgyblion i gadw'n heini trwy redeg.
Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)	Mae data am ddysgwyr ar draws Cymru yn cael ei gasglu trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC), a gafodd ei ddatblygu i fod yn ddull cyffredin i ddarparwyr dysgu orfod cyflwyno data'n electronig ar gyfer ariannu, monitro a dadansoddi.
craidd dysgu	Un o chwe rhan Llwybrau Dysgu 14-19 yw'r craidd dysgu. Mae'n rhoi sylw i'r medrau, y wybodaeth, dealltwriaeth,

	gwerthoedd a phrofiadau y mae eu hangen ar yr holl bobl ifanc i'w paratoi ar gyfer bywyd.
craidd dysgu 14-19	<p>Mae'r craidd dysgu 14-19 yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • medrau allweddol; • medrau iaith Gymraeg; • medrau sy'n gysylltiedig â gwaith; • Cymru, Ewrop a'r byd; • materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd; • materion gyrfaedd; • agweddau a gwerthoedd; • profiad â ffocws ar waith; • cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol; a • phrofiadau diwylliannol/chwaraeon/aesthetig/creadigol.
Creu'r Cysylltiadau	Y polisi ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ffyniannus, gynaliadwy, ddwyieithog, iachach ac wedi'i haddysgu'n well.
Cronfa Gwella Ansawdd (CGA)	Roedd y Gronfa Gwella Ansawdd (CGA) yn elfen allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu ansawdd a hyrwyddo rhagoriaeth wrth gyflwyno dysgu ôl-16 ar draws Cymru. Gweinyddwyd y gronfa gan ELWa fel yr oedd bryd hynny.
Cronfa Gymdeithasol Ewrop	Sefydlwyd Cronfa Gymdeithasol Ewrop i wella cyfleoedd cyflogaeth yn yr Undeb Ewropeaidd ac felly helpu codi safonau byw. Ei nod yw helpu pobl i gyflawni'u potensial trwy roi iddynt fedrau gwell a gwell rhagolygon o ran swyddi.
Cronfa Ysgolion Gwell (CYG)	Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn darparu cymorth grant wedi'i dargedu i awdurdodau lleol i'w helpu i fod yn arloesol, i rannu arfer dda ac i ddatblygu mentrau newydd i wella addysgu, dysgu ac ehangder y cwricwlwm.
Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd (SSSP)	Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd yw hyn, sy'n cynnwys crynodeb o wybodaeth am arholiadau, yn benodol i bob ysgol, sy'n cael ei lunio gan CBAC ar ran Llywodraeth Cymru. Trwy ychwanegu data gan bob un o'r prif fyrddau arholi yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn, caiff cofnod cronus ei greu o gofnod cyflawniad pob disgybl yng Nghymru. Yna, caiff canlyniadau ar lefel disgyblion eu cydgrynhoi i lefel ysgolion i roi'r wybodaeth ar y ffurflen.

Cwricwlwm Cenedlaethol	Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn fframwaith sy'n cael ei ddefnyddio gan yr holl ysgolion a gynhelir i ofalu bod addysgu a dysgu'n gyson.
Cwricwlwm craidd	Mae cwricwlwm craidd SSIE yn nodi'r safonau a'r lefelau cenedlaethol ar gyfer dysgwyr SSIE, yn gysylltiedig â'r fframwaith cymwysterau.
Cwricwlwm Cymru 2008	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu y bydd yng Nghymru, o 2008:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fframwaith cydlynol sengl ar gyfer y cwricwlwm, asesu a chymwysterau 3-19 oed a fydd yn cynorthwyo ysgolion i godi safonau cyflawniad ac ehangu cyfleoedd addysgol; a • set o Orchmynion Pwnc diwygiedig y mae modd eu rheoli ac sy'n adlewyrchu nodweddion y cwricwlwm cyfan a nodweddion pob cyfnod allweddol. <p>Mae'r agenda ar gyfer datblygu'r fframwaith cwricwlwm ac asesu diwygiedig hwn i Gymru yn seiliedig ar y Gweinidog yn derbyn yr argymhellion allweddol yn 'Adolygiad o'r cwricwlwm ysgol a threfniadau asesu 5-16; Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru Ebrill 2004' ACCAC.</p> <p>Nod yr adolygiad hwn oedd sefydlu cwricwlwm ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain sy'n diwallu anghenion dysgwyr unigol tra'n ystyried hefyd anghenion ehangach Cymru.</p> <p>I helpu cyflawni hyn, mae'r diwygiadau i'r Gorchmynion yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cwricwlwm diwygiedig yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr ac ar fedrau, sy'n adeiladu ar y Cyfnod Sylfaen ac sy'n cysylltu'n effeithiol â'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, ac sy'n parhau i gyflwyno cwricwlwm nodedig sy'n briodol i Gymru.</p> <p>Mae fersiynau terfynol o'r Gorchmynion Pwnc ar gael yn awr.</p>
Cwrs heb ei achredu	Cwrs nad yw'n arwain at gymhwyster ffurfiol.
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Mae data CYBLD yn sail i Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion.
Cychwyn Cadarn	Mae Cychwyn Cadarn yn un o raglenni Llywodraeth Cymru sy'n ceisio cyflwyno'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn, ac sy'n dod ynghyd ag addysg gynnar, gofal plant, iechyd a chymorth i deuluoedd.

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

cydaddoli	Yn ôl y gyfraith, rhaid i ysgolion gynnal gweithred gydaddoli ddyddiol. Rhaid i natur y cydaddoli fod yn Gristnogol yn gyfan gwbl neu'n bennaf.
Cydlynwyr AGChY	Caiff y rhain eu penodi gan awdurdodau lleol i reoli'r fenter gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Chwaraeon Cymru ym mhob awdurdod lleol. Rôl cydlynnydd AGChY yw sefydlu canolfannau datblygu yn yr awdurdod lleol, a chynorthwyo rheolwyr canolfannau datblygu i drefnu a gweithredu'u cynlluniau gweithredol a lledaenu arfer dda.
Cydlynnydd AAA	Mae cydlynnydd anghenion addysgol arbennig yn cydlynu gwaith ysgol i gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.
Cyfathrebu amgen a chynyddol (AAC)	Mae'r term hwn yn disgrifio'r dulliau cyfathrebu sy'n cael eu defnyddio i ategu neu ddisodli iaith lafar neu ysgrifennu ar gyfer rhai â namau o ran cynhyrchu neu ddeall iaith lafar neu ysgrifenedig. Bydd yr unigolion hyn yn defnyddio ystumiau, byrddau cyfathrebu, lluniau, symbolau, dyluniadau neu gyfuniad o'r rhain.
cyflawniad	Mae arolygwyr yn barnu cyflawniad yn ôl pa mor dda mae dysgwyr yn gwneud mewn perthynas â'u gallu a'r cynnydd maent yn ei wneud. (Gweler cyrhaeddiad hefyd)
cyfnodau allweddol	Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn rhannu cyfnod addysg orfodol yn bedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • cyfnod allweddol 1 i ddisgyblion 5 i 7 oed; • cyfnod allweddol 2 i ddisgyblion 7 i 11 oed; • cyfnod allweddol 3 i ddisgyblion 11 i 14 oed; a • chyfnod allweddol 4 i ddisgyblion 14 i 16 oed. <p>O fis Medi 2011 ymlaen, caiff cyfnod allweddol 1 ei ddisodli gan y Cyfnod Sylfaen.</p>
Cymaryddion Cenedlaethol	Cyfartaleddau cenedlaethol a ddeillir o CDGOC yw'r rhain. Mae'r prif gymaryddion cenedlaethol ar gyfer cofrestru, cwblhau cyrsiau a chymwysterau sy'n cael eu hennill.
Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol (Cymru)	Mae'r grŵp yn cynrychioli aelodau sy'n gweithio gyda phlant o oed cyn-ysgol. Mae'n cynnig cymorth a hyfforddiant i aelodau, yn ogystal â gweithredu cynllun sicrhau ansawdd.
Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (WPPA)	Mudiad gwirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal ac addysg cyn-ysgol yn y gymuned.

Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA)	Elusen genedlaethol a sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli gwarchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gymdeithas yn darparu mynediad i wasanaethau, hyfforddiant, gwybodaeth a chynllun sicrhau ansawdd.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd	Elusen genedlaethol sy'n anelu i wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. Mae cynllun sicrhau ansawdd gan y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd.
Cymdeithas Gyrfa Cymru	Sefydliad ymbarél ar gyfer cwmnïau Gyrfa Cymru.
Cymhorthdal	Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn talu cymhorthdal cyflog i gyflogwyr sy'n cymryd cleient fel cyflogai o dan y rhaglen Cam at Waith (gweler uchod). Y rheswm am hyn yw nad yw llawer o gleientiaid ar y rhaglen Cam at Waith yn weithwyr mor gynhyrchiol fel arfer â chyflogeion eraill, neu gall fod angen addasiadau arbennig arnynt yn y gweithle. Un o nodau'r rhaglen yw sicrhau bod cleientiaid yn datblygu'r medrau a'r hyder i symud ymlaen at gyflogaeth heb gymhorthdal (neu gyflogaeth agored).
Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)	<p>Fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn 2003 fel prosiect peilot tair blynedd i ddysgwyr 16 oed a hŷn. Dim ond ar lefel 2 a lefel 3 yr oedd y cymhwyster peilot ar gael yn ystod y tair blynedd gyntaf. Ym mis Medi 2006, daeth y cymhwyster peilot lefel 2 ar gael i bob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion. Ar yr un pryd, cafodd cymhwyster peilot lefel 1 ei gyflwyno i ddysgwyr 16 oed ac iau, a'r rheiny dros 16 oed. Roedd 10 ysgol ac 8 o golegau'n cymryd rhan yn y prosiect peilot lefel 1.</p> <p>Ym mis Hydref 2006, ar ôl cwblhau'r prosiectau peilot lefel 2 a lefel 3 yn llwyddiannus, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n cael ei gyflwyno fesul cam o fis Medi 2007 ymlaen.</p>
Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC)	Mae'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol yn gymhwyster yn gysylltiedig â gwaith sy'n adlewyrchu'r medrau a'r wybodaeth y mae eu hangen i wneud swydd yn effeithiol. Mae'r cymhwysterau hyn yn cael eu trefnu ar bum lefel ar sail y wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen ar gyfer swydd benodol.
Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid (CPCP)	Cymhwyster gorfodol ar gyfer y rheiny sydd am fynd yn bennaethiaid ysgol.

Cymorth	Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymorth plant ac ieuenctid yw hwn. Mae ar gyfer plant a phobl ifanc sydd o deuluoedd dan anfantais yn bennaf. Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc sy'n rheoli'r cyllid hwn.
Cymraeg i oedolion	Addysgu i oedolion sydd am ddysgu Cymraeg yw Cymraeg i oedolion. Fel arfer, mae dysgwyr yn dilyn y cyrsiau hyn yn rhan-amser ac o leiaf unwaith yr wythnos. Mewn llawer o achosion, mae dechreuwyr yn mynd i ddsbarthiadau am bedair awr yr wythnos o leiaf.
Cymru'n Un	Mae Cymru'n Un yn nodi agenda flaengar ar gyfer y llywodraeth yng Nghymru. Mae'n gytundeb rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol 2007.
Cymunedau yn Gyntaf	Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen Llywodraeth Cymru i wella amodau byw a'r rhagolygon i bobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ar draws Cymru.
cymwysterau medrau allweddol (i ddysgwyr 14 oed a hŷn)	<p>Dyma'r medrau allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfathrebu; • cymhwyso rhif; a • defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. <p>Dyma'r medrau allweddol ehangach:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datrys problemau; • gwella dysgu a pherfformiad; a • gweithio gydag eraill. <p>Mae'r medrau allweddol hyn ar gael o lefel 1 i lefel 4. Wrth i ddysgwyr fynd drwy'r lefelau, maent yn symud o dasgau syml i dasgau mwy cymhleth. Rhaid iddynt hefyd ddangos bod eu gallu'n cynyddu i ddefnyddio medrau lefel uwch fel dadansoddi, arfarnu a chyfiawnhau.</p> <p>O fis Medi 2010, disodlwyd y rhain gan Sgiliau Hanfodol Cymru.</p>
CyngACC	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw'r corff proffesiynol hunanreoleiddio statudol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Ei nod yw cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu, a chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon.
Cynghorau Gwirfoddol Sirol	Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cynrychioli ac yn hyrwyddo'r sector gwirfoddol yn eu hardal awdurdod lleol.
Cynghorau Sgiliau Sector	Sefydliad annibynnol sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr yw Cyngor Sgiliau Sector. Mae'n rhoi sylw i fedrau

	galwedigaethol penodol. Ei rôl yw gwella cyfleoedd dysgu trwy Brentisiaethau Modern Sylfaen a Phrentisiaethau Modern, a lleihau unrhyw brinder o weithwyr medrus.
cyngor ysgol	Cyngor ysgol yw grŵp cynrychioliadol o ddisgyblion sy'n cael eu hethol gan ddisgyblion eraill i drafod materion am eu haddysg ac i leisio'u pryderon wrth uwch reolwyr a llywodraethwyr eu hysgol. Mae Llywodraeth Cymru am i bob plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru fwynhau eu haddysg a theimlo bod eu hysgol yn ymateb i'w hanghenion. Dylai disgyblion gael y cyfle i fynegi eu teimladau ac i roi eu barn i oedolion ar y pethau sy'n effeithio arnynt. Dylent hefyd fod yn gallu lleisio barn ar benderfyniadau ac i chwarae rhan weithredol yn y broses o wneud eu hysgol yn le gwell.
cynhwysiant	Un o brosesau parhaus addysg sy'n golygu chwalu'r rhwystrau rhag dysgu a chynyddu cyfranogiad yr holl ddysgwyr mewn ysgolion lleol.
Cynhwysiant a Chymorth Disgyblion	Mae Cynhwysiant a Chymorth Disgyblion yn rhoi arweiniad ar gyfer cynnwys a chynorthwyo dysgwyr o oed ysgol gorfodol (er y bydd rhai elfennau'n gymwys i bob dysgwr). Mae'n rhoi cyngor ac yn nodi cyfrifoldebau i gynnal lefelau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion, a'r angen i gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn cael addysg addas ac nad ydynt yn ymddieithrio oddi wrth addysg. Mae hefyd yn ymwneud ag addysg sy'n cael ei darparu y tu allan i leoliad yr ysgol.
Cynllun Addysg Sengl	Mae gwasanaethau addysg yn dod o dan gyfres o gynlluniau, fel y Cynllun Strategol Addysg a'r Cynllun Cymorth Ymddygiad. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u disodli gan gynllun sengl sy'n pennu canlyniadau bwriadedig ar gyfer y gwasanaethau addysg y mae awdurdodau lleol yn eu darparu'n unol â pholisïau Llywodraeth Cymru.
cynllun addysg unigol	Cynllun sy'n cynnwys targedau mesuradwy ar gyfer dysgu disgyblion, dyddiadau ar gyfer adolygu cynnydd a lle i gofnodi cyflawniad yn erbyn y targedau dysgu.
cynllun adfywio	Nod cynllun adfywio yw hybu datblygiad hirdymor yr economi lleol trwy weithgareddau sy'n helpu busnesau i dyfu ac sy'n gwella medrau trigolion lleol.
Cynllun dedfryd	Cynllun sy'n nodi dull cyson, adeiladol a chydlynus i'w weithredu yn ystod dedfryd gyfan troseddwr p'un a yw yn y ddalfa neu yn y gymuned, ac sy'n arwain at leihau aildroseddu.

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

cynllun dysgu unigol	Cynllun sy'n cynnwys canlyniadau asesiadau cychwynnol ac asesiadau diagnostig, nodau hirdymor, nodau y gellir eu mesur ar gyfer y rhaglen ddysgu, nodau personol neu gymdeithasol eraill, targedau, dyddiadau ar gyfer adolygu cynnydd, lle i gofnodi cyflawniad yn erbyn y nodau a'r targedau dysgu, a chymwysterau neu unedau achrediad.
cynllun sabothol	Menter yw'r 'cynllun sabothol' i geisio helpu cynyddu nifer yr athrawon a'r darlithwyr Cymraeg eu hiaith sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
Cynlluniau peilot addysg drochi	Cyflwyno'r cwricwlwm mewn ail iaith i ddysgwyr sy'n rhannu'r un famiaith.
Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc	Mae'n rhaid i awdurdodau addysg lleol gynhyrchu Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Eu pwrpas yw cydlynu addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc o'u geni hyd at 25 oed.
Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru	Mae cynlluniau ysgolion iach – rhwydwaith Cymru yn annog datblygu cynlluniau ysgolion iach yn lleol o fewn fframwaith cenedlaethol. Mae'r partneriaethau lleol hyn rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg yn annog ysgolion sy'n hybu iechyd yn eu hardal.
Cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)	Fe wnaeth yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) gyhoeddi 'Codi safonau a mynd i'r afael â llwyth gwaith: cytundeb cenedlaethol' ym mis Ionawr 2003. Fel rhan o'r cytundeb hwn, o fis Medi 2005, mae pob athro'n cael o leiaf 10% o amser wedi'i warantu yn ystod y diwrnod ysgol i gynllunio, paratoi ac asesu.
Cynnal	Sefydliad sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy.
cyrhaeddiad	Pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud o fesur hynny mewn profion cenedlaethol ac yn y cymwysterau neu'r credydau y maent yn eu hennill.
cyrsgau galwedigaethol	Cyrsgau sy'n seiliedig ar faes galwedigaethol. Yn aml maent yn cynnwys lefel uchel o waith ymarferol a chymwysiadau uniongyrchol, fel profiad gwaith, i'r galwedigaethau dan sylw.
cytundeb llwyth gwaith	Ym mis Ionawr 2003 fe wnaeth AdAS (wedi'i ddisodli erbyn hyn gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd) gyhoeddi dogfen o'r enw 'Codi safonau a mynd i'r afael â'r llwyth gwaith: cytundeb cenedlaethol'. Roedd hwn yn nodi cynllun saith pwynt i leihau baich gwaith athrawon a gwella safonau, o'r enw 'cytundeb llwyth gwaith'.

D	
Dangos llwyddiant	www.demonstratingsuccess.co.uk – dull newydd o fesur cynnydd a chanlyniadau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Fe'i seilir ar gydnabod bod pobl ifanc yn cyflawni llawer mwy drwy eu cysylltiad â rhaglenni a pholisïau nag a fesurir ar hyn o bryd.
dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae'r dangosydd hwn yn dangos canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddynt mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel mamiaith.
darparwr	Term cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio unrhyw sefydliad neu bartneriaeth sy'n darparu addysg a hyfforddiant, fel ysgol, coleg, darparwr hyfforddiant yn y gwaith, darparwr gwaith ieuenctid, darparwr gwasanaethau cymorth ieuenctid, awdurdod lleol, sefydliad gwirfoddol, cwmni gyrfa neu sefydliad addysg uwch.
data gwerth ychwanegol	Mesur yw hwn o faint o welliant y mae ysgol wedi'i gyflawni mewn disgybl dros amser. Hynny yw, y fantais gymharol y mae ysgol yn rhoi i ddisgybl, ar ôl ystyried gallu'r disgybl.
data meincnodi	Mae hwn yn cyfeirio at y wybodaeth asesu a ddefnyddir gan ysgolion i gymharu'u perfformiad â pherfformiad ysgolion eraill.
data perfformiad	Mae data perfformiad yn golygu data ar y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion unigol, dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn ac ysgolion. Mae data perfformiad yn cynnwys data ar berfformiad mewn gwahanol bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, yn ogystal â data cymharol sy'n helpu ysgol i gymharu ei pherfformiad ag ysgolion eraill.
Datblygiad proffesiynol cynnar	Rhaglen o ddatblygiad proffesiynol i athrawon yn eu hail neu drydedd flwyddyn o addysgu. Mae Llywodraeth Cymru yn noddi'r athrawon hyn trwy'r CyngACC i ddatblygu mwy ar eu medrau fel athrawon.
Datblygu a dysgu cymunedol	Mae'r dysgu hwn yn cwmpasu cyrsiau a gweithgareddau sy'n helpu dysgwyr i gael gwybodaeth a medrau. Maent yn defnyddio'r hyn maent yn ei ddysgu i wneud cyfraniadau cadarnhaol at fywyd eu cymunedau.
datblygu cynaliadwy	Mae hyn yn golygu gwella ansawdd bywyd heb ei beryglu yn y dyfodol, er enghraifft, trwy aildefnyddio ac ailgylchu.

Datgymhwys	Dileu neu ddiweddymu rhaglen astudiaeth, targed cyrhaeddiad, asesiad, neu unrhyw elfen arall o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain, gan gynnwys pynciau cyfan neu'r Cwricwlwm Cenedlaethol cyfan drwy reoliadau perthnasol.
Deallusrwydd emosiynol	Mae deallusrwydd emosiynol yn cynnwys bod yn hunanymwybodol, yn ddyfal, dangos empathi a chymhelliant. Mae'r rhain yn briodweddau y mae pobl sy'n perthnasu'n dda â phobl eraill yn eu dangos.
Dechrau'n Deg	Gwasanaethau a fydd yn cyflwyno gofal plant rhad ac am ddim, o ansawdd da a rhan-amser i blant dwy oed i helpu eu paratoi ar gyfer yr ysgol. Byddant hefyd yn darparu lefelau mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r cychwyn gorau posibl i blant mewn bywyd. Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu datblygu o fis Ionawr 2007.
dimensiwn Cymreig	Rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n helpu disgyblion i ddatblygu a defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Caiff ei adnabod hefyd fel y Cwricwlwm Cymreig.
dinasyddiaeth fyd-eang	Mae hyn yn golygu dysgu sut mae gweithgareddau a digwyddiadau ar draws y byd yn effeithio ar ein bywydau ni, a sut gall ein bywydau ni effeithio ar bobl eraill.
Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed	Dyletswydd statudol ar ddarparwyr addysg a hyfforddiant i gadw plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel dan adran 11 Deddf Plant 2004.
Diwygio ar dair lefel	Diwygio ar dair lefel yw'r gymuned addysg gyfan (ysgolion, awdurdodau lleol a'r Llywodraeth) yn gweithio ar y cyd ac yn gyfochrog â'i gilydd. Mae'r Fframwaith yn disgrifio'r nodweddion allweddol sy'n ofynnol i adeiladu ar arfer dda bresennol ac i wella dysgu a lles plant a phobl ifanc ar draws Cymru, a chyfraniad pob partner i sicrhau hynny.
dwyieithrwydd	Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith. Yng Nghymru, mae dwyieithrwydd yn ymwneud â'r Gymraeg a'r Saesneg, fel ieithoedd swyddogol Cymru. Pan fyddwn yn arolygu dwyieithrwydd, edrychwn ar gyflawniad dysgwyr yn Gymraeg a Saesneg, a'r graddau y mae darparwyr yn hyrwyddo ac yn datblygu medrau dwyieithog dysgwyr. I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at ein harweiniad ar gyfer pob sector.
Dysg	Tan yn ddiweddar, roedd Dysg yn isadran o fewn Yr Adran Plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) sy'n

	canolbwyntio ar wella ansawdd addysgu a dysgu yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-14. Erbyn hyn mae Dysg wedi uno â'r Gangen Strategaethau Dysgu ac Addysgu newydd o fewn yr Is-adran Dysgu a Datblygiad Proffesiynol yn APADGOS.
Dysgu gweithredol	Mae'r term hwn yn ymwneud â disgyblion yn bod yn weithredol ac yn cyfrannu at eu dysgu, yn hytrach na derbyn gwybodaeth mewn modd goddefol. Mae'n pwysleisio profiad uniongyrchol sy'n ysgogi, symbylu a chynorthwyo disgyblion i ddatblygu medrau a chysyniadau, gan gynnwys caffael iaith.
Dysgu Hyblyg	Gall hyn gynnwys dysgu agored neu ddysgu o bell, dysgu hunangyfeiriedig yn aml ac a gynhelir ar adeg sy'n addas i'r dysgwyr.
Dysgu oedolion yn y gymuned	Dysgu oedolion yn y gymuned yw dosbarthiadau dysgu gydol oes ar gyfer oedolion sy'n dysgu yn eu cymunedau lleol. Mae'r dosbarthiadau rhan-amser hyn yn cynnwys addysg sylfaenol oedolion, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), Cymraeg i oedolion, a phynciau fel technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ieithoedd, celf a chrefft, datblygiad personol, therapïau amgen ac astudiaeth academaidd. Yn gynyddol, mae'r cyrsiau hyn yn cynorthwyo pobl i ddatblygu medrau i ddod o hyd i waith neu i fodloni anghenion cyfnewidiol y farchnad waith.
dysgu yn y gwaith	Mae darparwyr dysgu yn y gwaith y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cynnig hyfforddiant ac asesu galwedigaethol, yn y gweithle'n bennaf.
Dysgu yn yr awyr agored	Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored. Dylai'r amgylchedd dysgu awyr agored fod yn estyniad o'r amgylchedd dysgu dan do. Yn gyffredinol, gan ystyried materion iechyd a diogelwch, dylai plant allu symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan.

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

E	
Eco-Ysgolion	System strwythuredig ar gyfer y rhaglen rheolaeth amgylcheddol ysgolion sy'n cynnwys ystyriaethau fel sbwriel, lleihau gwastraff, cludiant, byw'n iach, ynni, dŵr, tir yr ysgol a dinasyddiaeth fyd-eang.
e-ddysgu	Defnyddio technoleg electronig (fel cyfrifiaduron) i gynorthwyo wrth gyflwyno addysg neu hyfforddiant.
ESIS	Y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion sy'n gwasanaethu awdurdodau addysg lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Merthyr Tudful, a'u hysgolion.
ETE	Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
ETE Asset	Mae hwn yn rhan o'r fframwaith Asset sy'n edrych ar anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant a phobl ifanc sy'n troseddu. Mae'n bwysig bod yr holl wybodaeth hon ar gael iddynt, fel bod modd nes ymlaen cydlynu unrhyw gynlluniau TTI yn dda ochr yn ochr â chynlluniau ETE eraill a all fod gan y plentyn neu unigolyn ifanc.

F	
FFT	Mae Ymddiriedolaeth Teulu Fischer yn darparu dadansoddiadau a data sy'n helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i wneud defnydd mwy effeithiol o ddata perfformiad disgyblion ar gyfer hunanarfarnu a gosod targedau.

Ff	
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol (Cymru)	Ffederasiwn sy'n cynrychioli'r mwyafrif o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru. Mae aelodau'r sefydliad hwn yn darparu rhaglenni i baratoi dysgwyr at waith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglenni prentisiaeth yn y gweithle.
ffeil e-gynnydd	Fersiwn ar y rhyngwrwyd neu'r we o gofnod cyflawniad dysgwr.
Ffoadur	Mae ffoadur wedi cael caniatâd i aros yn y DU am gyfnod amhenodol.

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

fforwm ieuenctid	Grŵp ffurfiol o bobl ifanc mewn ardal awdurdod lleol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n bwysig i bobl ifanc yr ardal. Yn aml, bydd darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, fel addysg, hamdden ac iechyd, mewn ardal benodol yn ymgynghori â'r fforwm er mwyn canfod barn pobl ifanc ar y gwasanaethau hyn.
Fframiau siarad ac ysgrifennu	Dull addysgu sy'n galluogi disgyblion i weithio yn ôl fframwaith er mwyn trefnu eu syniadau ar gyfer gwaith ar destunau, er mwyn iddynt allu datblygu cyfraniadau llafar ac ysgrifenedig mwy estynedig.
Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd	Mae Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi gwelliannau parhaus yn ansawdd dysgu ôl-16 ac mae'n cyd-fynd â fframwaith arolygu Estyn.
fframwaith cymhwyster	Ym maes dysgu yn y gwaith, y Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol, medrau allweddol penodol a thystysgrifau technegol y mae'r sector galwedigaethol yn gofyn amdanynt yw fframwaith cymhwyster. Ym maes dysgu yn y gwaith, er mwyn bodloni gofynion y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer pob sector dysgu, rhaid i ddysgwyr ennill un neu fwy o gymwysterau medrau allweddol neu dystysgrifau technegol yn ogystal â Chymhwyster Cenedlaethol i gyflawni fframwaith cymhwyster llawn.
Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion	Cafodd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol. Mae'n nodi'r weledigaeth a'r amserlen gweithredu ar gyfer rhoi'r Effeithiolrwydd Ysgolion ar waith ar sail diwygio ar dair lefel.

G	
GCA	Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.
Graddfeydd P	Mae'r graddfeydd P yn feini prawf asesu ar gyfer cynnydd islaw na lefel un yn rhaglenni astudio'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r rhaglenni hyn ar gyfer disgyblion 5-16 oed. Fe'u datblygwyd i gynorthwyo gosod targedau trwy ddefnyddio asesu cyfunol i'w ddefnyddio ar ddiwedd cyfnodau allweddol, ac, ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gwneud cynnydd cyflymach, unwaith y flwyddyn o bosib.
Grant cyflawniad lleiafrifoedd ethnig	Amcan MEAG yw gwella cyfle cyfartal mewn addysg i bob dysgwr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig y mae'r Saesneg neu'r Gymraeg yn iaith ychwanegol iddynt, i gynnig i ddisgyblion sy'n geiswyr lloches y cymorth arbennig sydd ei angen arnynt, ac, yn fras, i wella safonau cyflawniad disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn gyffredinol.

grant pontio	Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod cyllid ychwanegol o £5 miliwn ar gael i awdurdodau lleol (ALlau) yn 2006-2009 trwy'r grant pontio rhwng cyfnodau allweddol 2-3. Mae'r grant pontio yn cefnogi prosiectau arloesol ac enghreifftiol sy'n canolbwyntio ar elfennau allweddol cynlluniau pontio.
Grŵp cysylltu	Darpariaeth cyn-ysgol i blant, sy'n cael ei chynnal yn adeiladau'r ysgol, fel arfer, cyn iddynt ymuno â dosbarth meithrin. Mae grwpiau cysylltu yn rhoi amser i blant a rhieni ymgysylltu â bywyd yr ysgol a meithrin partneriaeth â'r ysgol.
gwahardd	Pan fo ysgol yn dweud wrth ddysgwyr am beidio â dod i'r ysgol naill ai am gyfnod penodol (er enghraifft, wythnos) neu'n barhaol.
gwaith di-dâl	Roedd gwaith di-dâl yn arfer cael ei alw'n wasanaeth cymunedol, ac mae'n gosb yn y gymuned sy'n cael ei dyfarnu gan y llys. Gall troseddwr gael dedfryd i gyflawni gwaith di-dâl yn y gymuned am rhwng 40 a 300 o oriau. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau gwaith di-dâl o fudd uniongyrchol i'r gymuned. Mae enghreifftiau o gynlluniau gwaith di-dâl yn cynnwys adfywio ardaloedd sydd wedi mynd â'u pen iddynt i'w defnyddio fel mannau hamdden cyhoeddus, addurno neuaddau pentref a chlybiau ieuenctid neu gynorthwyo elusennau i gyflwyno gwasanaethau i'r rheiny mewn angen. Gellir defnyddio 20% o'r oriau ar gyfer hyfforddiant medrau sylfaenol a hyfforddiant yn gysylltiedig â chyflogaeth.
Gwaith ieuenctid datgysylltiedig	Mae gwaith ieuenctid datgysylltiedig yn rhydd o gyfyngiadau gwaith mewn canolfannau. Ei nod yw datblygu cyfleoedd dysgu gyda'r rheiny nad ydynt yn defnyddio nac yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth ieuenctid arall.
Gwaith penodedig	Mae hyn yn galluogi disgyblion i barhau â'u dysgu wrth iddynt gyflawni gweithgareddau dan oruchwyliaeth. Mae hyn yn wahanol i waith goruchwyllo i gyflenwi dros athrawon sy'n absennol oherwydd salwch lle nad oes unrhyw addysgu gweithredol yn digwydd. Gall gwaith penodedig mewn ysgolion gynnwys tasgau a osodir gan athrawon, tasgau estynedig a gynllunnir ar y cyd gan staff cymorth ac athrawon, a gweithgareddau cyfoethogi annibynnol yn cael eu cyflwyno gan athrawon arbenigol allanol neu wirfoddolwyr.

<p>gwasanaethau cymorth ieuenctid</p>	<p>Gwasanaethau sy'n helpu pobl ifanc, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant; • manteisio ar gyfleoedd swyddi; a • chymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau. <p>Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cynnal gan amryw o ddarparwyr fel awdurdodau lleol (gan gynnwys y gwasanaeth ieuenctid statudol), darparwyr iechyd, a sefydliadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol. Cânt eu hariannu o amrywiaeth eang o ffynonellau yn cynnwys cyllid gan yr awdurdod lleol, a chyllid cenedlaethol, Ewropeaidd ac o'r sector gwirfoddol.</p>
<p>gweithdai carchar</p>	<p>Lle mae troseddwr yn cael ei gyflogi i wneud gwaith am gyflog y mae'r carchar dan gontract i'w gyflenwi i sefydliadau allanol a/neu y Gwasanaeth Carchardai. Efallai y bydd hyn neu na fydd hyn yn cynnwys hyfforddiant neu gymwysterau.</p>
<p>Gweithredu gan yr Ysgol</p>	<p>Pan fydd athro dosbarth neu athro pwnc yn nodi bod anghenion addysgol arbennig gan ddisgybl, maent yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rheiny a ddarperir fel rhan o gynnyg a strategaethau cwricwlwm gwahaniaethol arferol yr ysgol.</p>
<p>Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy</p>	<p>Pan fydd athro dosbarth neu athro pwnc a'r cydlynnydd AAA yn cael cyngor a chymorth gan arbenigwyr o'r tu allan, fel y gellir rhoi ar waith ymyriadau amgen sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rheiny a ddarperir i'r disgybl trwy weithredu gan yr ysgol. Y cydlynnydd AAA sy'n arwain fel arfer, er mai cyfrifoldeb yr athro dosbarth neu'r athro pwnc yw'r ddarpariaeth o ddydd i ddydd o hyd.</p>
<p>gwelliant sylweddol</p>	<p>Mae angen i ysgol wneud gwelliant sylweddol os nad yw'n perfformio gystal ag y gallai, a hynny'n sylweddol, yn yr holl amgylchiadau y gellir disgwyl yn rhesymol iddi berfformio.</p>
<p>gwendidau difrifol</p>	<p>Er bod ysgol yn cynnyg addysg o safon dderbyniol i'w disgyblion, mae ganddi wendidau difrifol os oes gwendidau yn un neu fwy o'i meysydd gweithgareddau. Mae'r categori hwn o ysgolion wedi'i ddisodli erbyn hyn gan welliant sylweddol (gweler uchod).</p>
<p>gwerth am arian</p>	<p>Pa mor effeithiol ac effeithlon y mae adnoddau'n cael eu defnyddio.</p>

Gwirio mewnol	Gwirio neu safoni mewnol yw'r broses a ddefnyddir gan ganolfan i sicrhau ei bod yn gweithredu'n gyson ac yn unol â safonau cenedlaethol wrth ddehongli ac asesu'r medrau allweddol.
Gwobr Dug Caeredin	Rhaglen wirfoddol, anghystadleuol a hyblyg o weithgareddau diwylliannol ac anturus ar gyfer pobl ifanc. Mae pedair adran i'r wobwr, gyda thair lefel cyflawniad: <ul style="list-style-type: none"> • Efydd (i'r rhai 14 oed a hŷn); • Arian (i'r rhai 15 oed a hŷn); ac • Aur (i'r rhai 16 oed a hŷn).

H	
hyfforddiant galwedigaethol	Lle mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n darparu amgylchedd ar gyfer datblygu medrau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, a chyflawni cymwysterau.
hyfforddwyr dysgu	Mae hyfforddwyr dysgu'n rhoi cyfle i ddysgwyr drafod dysgu a chynnydd yn rheolaidd. Maent yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau dysgu, i wneud y defnydd gorau o'u harddulliau dysgu a'u datblygu, a chynyddu'u datblygiad gymaint â phosibl.

I	
laith a chwarae	Rhaglen yw hon sydd wedi'i chynllunio ar gyfer rhieni a'u plant cyn oed ysgol. Mae'n rhan o'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol.
laith Pawb	Y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2003.
INSTEP	System o asesu ac olrhain cynnydd disgyblion sy'n gweithio islaw lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac mae'n seiliedig ar raddfeydd P y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

K	
KIT	Prosiectau Cadw mewn Cysylltiad. Nod y prosiectau hyn yw cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol ac nad ydynt yn cynllunio i ddilyn llwybrau dysgu traddodiadol. Mae'r prosiectau'n eu cynorthwyo i aros mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

L	
Learn Direct	Sefydliad yw Learn Direct sy'n darparu cyfleoedd hyfforddi hyblyg ar-lein trwy rwydwaith o 2000 o ganolfannau dysgu ar-lein yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
Lwfans Cynhaliath Addysg (EMA)	Mae'r Lwfans Cynhaliath Addysg yn gynllun sy'n cymell pobl ifanc sy'n dymuno parhau â'u haddysg ar ôl yr oedran gadael ysgol i ennill dyfarniadau trwy bresenoldeb da.

LI	
lleoedd heb eu llenwi	Lleoedd heb eu llenwi yw lle mae llai o blant mewn ardal nag sydd yna o leoedd ar gael yn yr ysgol. Weithiau yr enw arnynt yw lleoedd dros ben neu leoedd gwastraff.
Lleoliad diogel	Lleoedd yw'r rhain lle mae pobl ifanc, sydd wedi torri'r gyfraith, yn treulio'u dedfryd ar ôl iddynt gael eu dyfarnu'n euog mewn llys. Sefydliadau troseddwy'r ifanc neu gartrefi plant diogel yw lleoliadau diogel. Y gwasanaeth carchardai neu'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n cynnal y cyfleusterau hyn.
lleoliadau	Mae'r rhain yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, drwy'r Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, i ddarparu addysg ran-amser i blant tair i bump oed. Mae lleoliadau'n cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat, meithrinfeydd annibynnol a gwarchodwyr plant.
Lleoliadau nas cynhelir	Darpariaeth breifat fel cylchoedd chwarae a meithrinfeydd dydd i blant dan bump oed.
Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar	Darpariaeth i blant o dan bump oed yw hon mewn nifer o leoliadau, yn gysylltiedig yn aml â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ochr yn ochr â darparwyr addysg

Llwybrau Dysgu 14-19	Strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant i ddisgyblion 14 i 19 oed y cyfeirir atynt yn 'Y Wlad Sy'n Dysgu (2001) ac 'Y Wlad Sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19' (2002).
Llwybrau dysgu hyblyg	Dewislennau o gyrsiau gan ddarparwyr addysgol gwahanol sy'n caniatáu dewis ehangach o opsiynau i ddysgwyr 14 i 19 oed.

M	
Mae Pob Plentyn yn Bwysig	Ymagwedd at les plant a phobl ifanc yn Lloegr. Mae sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant yn ymuno â'i gilydd mewn ffyrdd newydd, yn rhannu gwybodaeth ac yn gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed, a'u helpu i gyflawni'r hyn maent ei eisiau mewn bywyd. Amlinellir ymagwedd Cymru yn y ddogfen 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau'.
maes dysgu	Mae hyn yn golygu rhywbeth gwahanol mewn sectorau gwahanol. Mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith, mae pynciau'n cael eu grwpio gyda'i gilydd yn 'feysydd dysgu' cyfarwydd. Rydym yn dyfarnu graddau ac yn ysgrifennu adroddiadau arolygu dan benawdau'r meysydd dysgu hyn. Mae dysgu troseddwr a dysgu oedolion yn y gymuned yn defnyddio'r term meysydd dysgu hefyd i grwpio gwahanol bynciau. Mewn carchardai, mae tri maes dysgu: llythrennedd, iaith a rhifedd, cyflogadwyedd a hyfforddiant galwedigaethol a datblygiad personol a chymdeithasol.
maes galwedigaethol	Meysydd galwedigaethol yw'r gweithgareddau a'r profiadau hynny sy'n arwain at ddealltwriaeth a/neu fedrau sy'n berthnasol i amrywiaeth o amgylcheddau gweithio (gwirfoddol ac am dâl).
Makaton	System gyfathrebu yw hon sy'n defnyddio geirfa o arwyddion ac ystumiau 'geiriau allweddol' i ategu lleferydd, yn ogystal â symbolau graffig i ategu'r gair ysgrifenedig. Mae'n cael ei ddefnyddio gan bobl sydd ag anawsterau cyfathrebu, iaith neu ddysgu, a chyda hwy.
Marc Safon Sgiliau Sylfaenol	Dyfarniad yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i ysgolion a darparwyr ôl-16 sy'n darparu tystiolaeth eu bod yn bodloni manylebau mewn deg o elfennau diffiniedig ar gyfer addysgu a datblygu medrau sylfaenol.
Mathemateg a chwarae	Rhaglen yw hon sydd wedi'i llunio ar gyfer rhieni, gofalgwyr a'u plant cyn-ysgol. Mae'n rhan o Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru.

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

Maytas	System gwybodaeth reoli y gellir ei haddasu a ddatblygwyd gan Tribal Group. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer dysgu yn y gwaith, ond gellir ei haddasu yn ôl anghenion darparwyr gwahanol.
medrau allweddol	Medrau allweddol yw'r medrau y mae eu hangen yn gyffredin er mwyn llwyddo mewn amrywiaeth o weithgareddau mewn addysg, hyfforddiant, gwaith a bywyd yn gyffredinol.
Medrau echddygol bras	Mae'r term hwn yn cyfeirio at symudiad neu ystum a'r gallu sy'n ofynnol i reoli cyhyrau mawr y corff mewn gweithgareddau fel cerdded, rhedeg neu ddringo.
Medrau meddal	Y clwstwr o nodweddion personoliaeth, doniau cymdeithasol, gallu i gyfathrebu, iaith, arferion personol, cyfeillgarwch, ac optimistiaeth sy'n ategu medrau caled, sef gofynion technegol swydd.
Medrau menter a busnes	Y rhain yw'r medrau y mae eu hangen ar ddysgwyr i gyfrannu at redeg busnes yn effeithiol ac i nodi a sefydlu cyfleoedd busnes newydd.
medrau sylfaenol	Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac i ddefnyddio mathemateg ar lefel sy'n angenrheidiol i rywun weithredu mewn gwaith a chymdeithas.
Mentor	Oedolyn sy'n gweithredu fel ymgynghorydd neu arweinydd i'r dysgwr.
mesurau arbennig	Mae ysgol yn cael ei nodi fel un y mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddi: <ul style="list-style-type: none"> • pan fydd yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w phlant; ac • nid yw'r gallu gan y bobl sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol i wneud y gwelliannau angenrheidiol yn yr ysgol.
Meysydd Dysgu	Y saith maes sy'n gwneud cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yw'r rhain. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg gan mai hon yw iaith y lleoliad eisoes.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol; • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu; • datblygiad mathemategol;

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

	<ul style="list-style-type: none"> • datblygu'r Gymraeg; • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd; • datblygiad corfforol; a • datblygiad creadigol.
Mid-YIS	System Gwybodaeth y Blynyddoedd Canol. Mae ALIS, YELLIS a Mid-YIS yn systemau monitro a ddatblygwyd gan Brifysgol Durham. Maent yn defnyddio data o brofion a holiaduron a lenwir gan fyfyrwyr i roi dadansoddiad cymharol allanol o'r data yn ogystal â data ar gynnydd disgyblion (gwerth ychwanegol).
MIND	Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yn y Deyrnas Unedig.
Mudiad Ysgolion Meithrin	Y sefydliad ar gyfer addysg feithrin Gymraeg yw hwn. Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.
Mynediad	Gwasanaeth awdurdod lleol sy'n delio â: <ul style="list-style-type: none"> • darparu amrediad a nifer priodol o leoedd ysgol; • derbyniadau i ysgolion; • cludiant o'r ysgol i'r cartref; a • rheoli cyflwr ac addasrwydd pob adeilad ysgol.

N	
Nam ar y clyw	Nam sy'n gallu amrywio o golli ychydig bach o glyw i fod yn hollol fyddar.
Nam gweledol	Nam a all amrywio o golli rhywfaint o olwg i fod yn ddall.
NEET	Pobl ifanc 16 oed a hŷn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
Noddfa i ferched	Mae noddfa i ferched yn fan diogel i fenywod â phlant neu heb blant sydd wedi dioddef trais domestig.
NPD	Mae Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion yn cadw data am ddisgyblion y trefnwyd ei fod ar gael drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), data'r Asesiad Cwricwlwm Cenedlaethol a data arholiadau allanol.

O	
OECD - Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd	<p>Mae'r sefydliad hwn yn dod â llywodraethau gwledydd sy'n ymrwmo i ddemocratiaeth ac economi'r farchnad o amgylch y byd at ei gilydd i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gefnogi twf economaidd cynaliadwy; • hybu cyflogaeth; • codi safonau byw; • cynnal sefydlogrwydd ariannol; • cynorthwyo datblygiad economaidd gwledydd eraill; a • chyfrannu at dwf masnach y byd.
oed ysgol gorfodol	<p>Oed ysgol gorfodol yw'r cyfnod pan fydd rhaid i blant gael addysg addas. Mae'n dechrau pan fydd plentyn yn cyrraedd pump oed a rhaid iddo ddechrau'r ysgol yn y tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bump oed. Mae'r cyfnod yn dod i ben ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fydd y plentyn yn cyrraedd 16 oed.</p>
Ofsted	<p>Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Medrau.</p>

P	
Panel Arbenigwyr Medrau Allweddol	<p>Y prosiect Cymorth Medrau Allweddol ar gyfer Dysgu yn y Gwaith sydd wedi sefydlu Panel Arbenigwyr Medrau Allweddol Cymru. Ar hyn o bryd, mae cynrychiolaeth gan 17 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith ar y Panel Arbenigwyr. Mae'r panel yn cynrychioli anghenion dysgu yn y gwaith i Lywodraeth Cymru, a thrwy hynny mae'n cyfrannu at sefydlu polisi ac arfer yng Nghymru.</p>
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP)	<p>Mae'r bartneriaeth hon, sy'n rhan o'r awdurdod lleol, yn cymeradwyo lleoliadau i ddarparu addysg. Hefyd, mae ganddi'r pŵer i dynnu cyllid yn ôl gan leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.</p>
Partneriaeth Pobl Ifanc	<p>Maent yn cyflwyno gwasanaethau cymorth ieuencid i bobl ifanc yng Nghymru. Rhaid i'r partneriaethau ofalu bod gwasanaethau cymorth ieuencid yn cael eu darparu ar draws ardal awdurdod lleol, a rhaid iddynt ymgynghori â phobl ifanc ynglŷn â'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Mae'r partneriaethau'n cael eu cydlynu gan yr awdurdod lleol.</p>

Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau	Arweiniad statudol yw Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau o dan adrannau 25(8), 26(5), a 27(4) Deddf Plant 2004. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi dyletswydd i gydweithredu'n lleol ar awdurdodau lleol yng Nghymru ac ystod o bartneriaid, er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol. Maent yn rhoi gofyniad ar awdurdodau lleol i benodi cyfarwyddwr arwain ac i ddynodi aelod arwain ar gyfer plant a phobl ifanc.
Partneriaethau AGChY	Bydd partneriaeth AGChY yn cynnwys clwstwr o ysgolion, wedi'i seilio fel arfer ar un ysgol uwchradd a'i phrif ysgolion cynradd bwydo.
partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned	Partneriaethau lleol, wedi'u seilio ar ardaloedd awdurdodau lleol fel arfer, sy'n cydlynu dysgu i oedolion ar draws amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys colegau AB a'r sector gwirfoddol.
PECS	Mae'r System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS) yn fath o gyfathrebu cryfhaol ac amgen. Yn nodweddiadol fe'i defnyddir fel cymorth cyfathrebu i blant ag awtistiaeth ac anghenion arbennig eraill.
perchennog	Mae'r term 'perchennog', fel mae Deddf Addysg 1996 yn ei ddiffinio, yn golygu'r person neu'r bobl sy'n gyfrifol am reoli ysgol annibynnol. Gall gynnwys perchennog unigol, cyrff llywodraethol, ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr. Mae dulliau rheoli a pherchenogaeth ysgolion annibynnol yn amrywio'n fawr iawn. Gall perchennog neu ymddiriedolaeth fod yn berchen ar ysgol, neu fe all corff llywodraethol benodi pennaeth dros yr ysgol. Mae cyfuniad o'r rhain gan rai ysgolion.
PISA – Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr	Prawf bob tair blynedd ledled y byd o berfformiad addysgol plant ysgol 15 oed yw'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) sy'n cydlynu gweithredu'r prawf. Nod yr astudiaeth yw profi a chymharu perfformiad plant ysgol ar draws y byd, gyda golwg ar wella dulliau a chanlyniadau addysgol.
plant sy'n derbyn gofal	Plant yw'r rhain y mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant cyfreithiol drostynt. Mae'r term yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pob plentyn sydd wedi'i enwi mewn gorchymyn gofal, neu sy'n cael llety yn wirfoddol am dros 24 awr. 'Mewn gofal' yw'r hen enw arno.
Pobl Ifanc Weithgar (PIW)	Campau'r Ddraig, y fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion a'r fenter 5x60 sy'n gweithredu o dan y fenter 'Pobl Ifanc Weithgar'.

Pobl wedi'u dadleoli	Mae unigolyn sydd wedi'i ddadleoli yn unigolyn sydd wedi gorfod symud i ran arall o'i wlad neu i wlad arall er mwyn bod yn ddiogel.
Porth leuenctid	Mae Porth leuenctid yn rhaglen sy'n cael ei chynnal gan gwmnïau gyrfa i gynorthwyo pobl ifanc wrth iddynt symud i mewn i'r farchnad swyddi, hyfforddiant neu addysg bellach.
prawf	Asiantaeth gorfodi'r gyfraith yw'r gwasanaeth prawf, ac mae'n goruchwyllo troseddwyd yn y gymuned.
Prawf Bywyd yn y DU	Mae'n ofynnol i bawb sy'n dymuno ymgartrefu yn y DU a chael dinasyddiaeth Brydeinig sefyll y prawf hwn a'i basio.
Prentisiaeth Fodern	Mae'r rhain yn rhoi hyfforddiant i ddysgwyr sy'n cael eu cyflogi hyd at Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol lefel 3 neu uwch. Mae angen i ddysgwyr hefyd gwblhau tystysgrifau medrau allweddol a thystysgrifau technegol.
Prentisiaethau Modern Sylfaen	Mae dysgwyr sy'n cael eu cyflogi yn gallu cael hyfforddiant hyd at CGC lefel 2. Mae angen iddynt hefyd gwblhau tystysgrifau medrau allweddol a thystysgrifau technegol.
Prif Gontract	Sefydliad dan gontract gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu'n uniongyrchol gyfran sylweddol o ddarpariaeth, is-gontractio cyfran o ddarpariaeth, rheoli a monitro perfformiad ac ansawdd yr isgontractwyr a'u darpariaeth eu hunain.
Proffil asesu datblygiad plentyn y Cyfnod Sylfaen	Proffil asesu wrth ymuno â'r Cyfnod Sylfaen; mae hwn yn ofyniad statudol mewn ysgolion o fis Medi 2011 ac mewn lleoliadau o fis Medi 2012.
Prosiect Credu Canllaw Ar-lein	Nod prosiect Credu Canllaw Ar-lein yw dod ag addysg mewn cyfarpar cyfrifiadur a medrau TGCh i bobl ifanc yn gyffredinol. Gwneir hyn drwy wella rhaglenni a lleoliadau presennol lle mae pobl ifanc eisoes yn gweithio.
Prosiect Cymorth Cenedlaethol ar gyfer SSIE	Prosiect a ariennir gan Sgiliau Sylfaenol Cymru gyda'r nod o gryfhau'r cymorth sydd ar gael i oedolion a phlant o gymunedau lleiafrifoedd ieithyddol mewn ymateb i'r astudiaeth gwmpasu SSIE/SIY, SIY ac SSIE yng Nghymru, a gomisiynwyd ym mis Hydref 2002.
Prydau Ysgol am Ddim (FSM)	Defnyddir cyfran y disgyblion y mae hawl ganddynt gael prydau ysgol am ddim fel un o brif ddangosyddion lefelau anfantais economaidd-gymdeithasol.
pwynt canran	Y gwahaniaeth rhwng dwy ganran yw pwynt canran. Er enghraifft, mae cynnydd o 30% i 33% yn gynnydd o dri phwynt canran, nid cynnydd o 3%.

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

Pynciau craidd	Mae pedwar pwnc craidd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Y rhain yw Saesneg, Cymraeg (mamiaith), mathemateg a gwyddoniaeth.
Pynciau nad ydynt yn bynciau craidd	Pynciau'r CC nad ydynt yn bynciau craidd yw Cymraeg (ail iaith), dylunio technoleg, technoleg gwybodaeth, hanes, daearyddiaeth, celf, cerddoriaeth ac addysg gorfforol.

R	
ROTL	Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro. Mae nifer a ddewisir yn arbennig o droseddwr yn gallu gadael y carchar yn ystod y dydd i fynychu coleg neu waith, neu i fynd i gyfweiliadau.

Rh	
Rhaglen Arweinyddiaeth i Benaethiaid mewn Swydd	Rhaglen hyfforddi wedi'i chynllunio i wella medrau rheoli penaethiaid ysgolion.
Rhaglen Cymorth Medrau Allweddol	Mae dwy raglen medrau allweddol, y KSSPC ar gyfer ysgolion a cholegau, a KSWBL ar gyfer dysgu yn y gwaith. Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn darparu cymorth ar gyfer darpariaeth medrau allweddol ar draws Cymru.
Rhaglenni achrededig	Cyrsiau strwythuredig ar gyfer troseddwr sydd wedi'u llunio i ganfod a lleihau'r ffactorau sy'n ymwneud â'u hymddygiad troseddol.
Rhagori	Mae rhaglen Rhagori (Gwella Cyrhaeddiad a Safonau Unigol mewn Addysg yng Nghymru) yn targedu disgyblion dan anfantais, ac yn ceisio codi'u lefelau perfformiad. Mae cyllid yn cael ei dargedu at ysgolion lle mae 20% neu fwy o'r disgyblion hynny'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (ac eithrio ysgolion â llai na 50 o ddisgyblion) ac i gael cymorth dysgu i blant sy'n derbyn gofal.
rheolaeth strategol	Mae hyn yn cyfeirio at weledigaeth glir gan arweinwyr a rheolwyr ar gyfer rôl addysg, sy'n cael ei hadlewyrchu mewn blaengynlluniau clir.
rheoli perfformiad	System o werthusiadau gorfodol i athrawon, a'u bwriad yw helpu ysgolion i wella drwy gynorthwyo a gwella gwaith athrawon.

Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003	Amrediad o safonau y mae ysgolion annibynnol yn cael eu barnu yn eu herbyn. Mae'n rhaid i ysgolion fodloni'r safonau hyn cyn y gallant gael eu cofrestru, ac mae'n rhaid iddynt barhau i'w bodloni fel amod parhau yn ysgolion sydd wedi'u cofrestru. Mae'r safonau'n cael eu nodi yn Rheoliadau Addysg (Safonau Ysgolion Annibynnol) 2003. Mae saith o safonau, ac mae'r rhain wedi'u rhannu'n dros 100 o reoliadau.
Rheolwr Troseddwy	Swyddog mewn ymddiriedolaeth brawf sy'n gyfrifol am reoli troseddwy trwy gydol eu dedfryd, p'un a yw hynny yn y carchar neu yn y gymuned.
Rhiant corfforaethol	Gelwir awdurdod lleol yn 'rhiant corfforaethol' os rhoddwyd cyfrifoldeb rhiant cyfreithiol iddo dros blentyn o ganlyniad i gael ei enwi mewn gorchymyn gofal.
RhUD	Mae Rhif Unigryw'r Disgybl yn ddynodwr i'w ddefnyddio yn y cyd-destun addysgol yn ystod gyrfa plentyn yn yr ysgol yn unig, ac mae'n destun cyfyngiadau Diogelu Data.
Rhwydwaith 14-19	Grŵp strategol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant mewn ardal leol, a sefydlwyd fel rhan o 'Llwybrau Dysgu 14-19' (gweler uchod).
Rhwydwaith y Coleg Agored	Mae hwn yn achredu unedau a chymwysterau sydd ar gyfer oedolion yn bennaf, ond sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc yn ogystal.
Rhwydweithiau Dysgu 14-19	Grŵp strategol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant mewn ardal leol, a sefydlwyd fel rhan o 'Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19'.

S	
Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY)	Mae hwn yn cyfeirio at ddisgyblion nad yw'r Saesneg yn famiaith iddynt.
Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE)	Cyrsiau ar gyfer oedolion nad yw'r Saesneg yn famiaith iddynt. Maent yn dilyn y cyrsiau hyn i wella'u medrau iaith Saesneg.
Safon UG (Safon uwch gyfrannol)	Arholiad sy'n cael ei sefyll rhwng TGAU a Safon Uwch.
Safon Uwch (Lefel A)	Tystysgrif Addysg Gyffredinol ar Safon Uwch.
Safonau Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid	Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid Ysgolion yng Nghymru yn fframwaith sy'n nodi'r wybodaeth a'r

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

	medrau penodol, y priodweddau personol, y gwerthoedd a'r nodweddion proffesiynol sydd eu hangen ar benaethiaid i gyflawni'u rôl.
Safonau cofrestru	Yr un fath â safonau ysgolion annibynnol.
SCOPE	Sefydliad anabledd yn y DU yw Scope, ac mae ei ffocws ar bobl â pharllys yr ymennydd.
sefydliad troseddwyr ifanc	Man lle mae pobl ifanc rhwng 15 a 21 oed, sydd wedi torri'r gyfraith, yn treulio'u dedfryd ar ôl cael eu dyfarnu'n euog mewn llys. Y Gwasanaeth Carchardai sy'n cynnal y cyfleusterau hyn.
Seicolegwyr addysgol	Gweithwyr proffesiynol sy'n helpu plant a phobl ifanc sy'n cael problemau mewn lleoliad addysgol i wella'u dysgu.
Sgiliau Bywyd	Mae hwn yn derm cyffredinol a ddefnyddir i gyfeirio at y cwricwlwm SSIE, llythrennedd a rhifedd yn Lloegr, gan gynnwys cymwysterau. Defnyddir y term yng Nghymru erbyn hyn, ac mae'n ymwneud yn benodol â'r gyfres o gymwysterau SSIE sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr yng Nghymru.
Sgiliau Dyfodol Cymru	Sgiliau Dyfodol Cymru yw'r teitl a roddwyd i raglen ymchwil sy'n edrych ar y medrau sydd eu hangen ar y gweithlu yng Nghymru. Mae'r prosiect yn nodi'r medrau cyfredol sydd eu hangen, ac mae hefyd yn nodi'r anghenion medrau tebygol yn y dyfodol.
Sgiliau Hanfodol Cymru	<p>Mae Sgiliau Hanfodol Cymru yn gyfres newydd o gymwysterau medrau sy'n disodli Medrau Allweddol Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TGCh, a Medrau Sylfaenol Llythrennedd i Oedolion, Rhifedd i Oedolion a TGCh Sgiliau Bywyd. Rhoddwyd y gyfres newydd hon o gymwysterau medrau ar waith o 1 Medi 2010.</p> <p>Mae Sgiliau Hanfodol Cymru yn gyfres o fedrau sy'n cynnwys tri chymhwyster medrau gwahanol ar hyn o bryd. Mae'r cymwysterau ar gael o lefel mynediad 1 hyd lefel 4 mewn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cyfathrebu; 2. Cymhwyso Rhif; a 3. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.
Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru	Mae Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru yn strategaeth medrau a chyflogaeth sy'n dod ag ymateb o Gymru ynghyd i Adolygiad Leitch o Sgiliau yn y DU, ac ymateb rhagarweiniol i'r Adolygiad annibynnol o Genhadaeth a

	Diben Addysg Bellach yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, dan gadeiryddiaeth Syr Adrian Webb.
Sgiliau Sylfaenol Cymru	Strategaeth Llywodraeth Cymru i helpu plant ac oedolion yng Nghymru sy'n cael anhawster â rhifedd a llythrennedd sylfaenol trwy weithredu 'Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri', sef Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru.
SIMS	System Gwybodaeth Reoli sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer ysgolion i reoli gwybodaeth sydd ei hangen i wneud y penderfyniadau iawn ynghylch dysgu disgyblion.
SPAEM	Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yng Nghymru. Bu'r arolygiaeth addysg yng Nghymru yn gweithio o dan yr enw hwn o 1992 tan i'r enw gael ei newid i Estyn ym 1999.
Statws preswyl	Er mwyn i ddysgwyr fodloni gofynion preswyl, mae'r meini prawf canlynol yn gymwys: <ul style="list-style-type: none"> • mae'r dysgwyr yn ddinesydd mewn Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'n ddinesydd yn y Swistir, neu • mae'r dysgwyr yn geisiwr lloches; neu • mae statws ffoadur gan y dysgwyr; neu • mae'r dysgwyr wedi 'ymgartrefu' yn y DU ac mae ei basbort yn dangos ei fod yn byw yn y DU heb unrhyw reolaeth fewnfudo. Mae'n rhaid iddo ddangos hefyd ei fod yn byw 'fel arfer' yn y DU/Ardal Economaidd Ewropeaidd am dair blynedd cyn bod y cwrs SSIE yn dechrau, ac nad ar gyfer addysg yw ei brif ddiben dros fyw yn DU.
STI	Sefydliad Troseddwy'r Ifanc; man lle mae pobl ifanc rhwng 15 a 21 oed sydd wedi torri'r gyfraith, yn treulio'u dedfryd ar ôl cael eu dyfarnu'n euog mewn llys.
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn	Mae hon yn darparu sail strwythuredig i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i ddatblygu polisïau a chynlluniau yn y dyfodol, sy'n adlewyrchu'n well anghenion pobl hŷn ac sy'n cydnabod natur newidiol cymdeithas ac amgylchiadau cymdeithasol.
Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru	Strategaeth Cymru ar gyfer gwasanaethau ieuenctid. Mae'n barhad o'r polisïau a'r pryderon a amlinellir yn 'Ymestyn Hawliau'.
Strategaeth Gofal Plant Cymru	Mae'r strategaeth yn ganlyniad yr argymhellion a wnaed mewn adroddiad gan y Gweithgor Gofal Plant. Mae'n

	<p>datgan y gall gofal plant ddod o'r wladwriaeth, darpariaeth breifat neu ymrwymiad gwirfoddol, ac mae'n awgrymu y dylai'r tri maes hwn weithio i gefnogi'i gilydd. Tri phrif nod y strategaeth yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod gofal plant yn diwallu anghenion datblygiadol plant yng Nghymru; • sicrhau bod pobl yn gallu fforddio gofal plant a bod darpariaeth helaeth ohono ar gael; a • darparu gofal plant er mwyn i rieni allu sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith, y teulu ac ymrwymadau eraill.
Strategaeth Gymunedol	Cynllun yw hwn sy'n nodi sut y gall cyngor wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y bobl yn ei ardal. Mae'n nodi nifer o faterion a chynigion ar gyfer mynd i'r afael â hwy.
Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	O fis Ebrill 2003, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu a chyflwyno Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer eu hardal leol.
Strategaeth Trosedd ac Anhrefn	Roedd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn rhoi cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol, yr heddlu, awdurdodau heddlu, awdurdodau iechyd a phwyllgorau prawf i gydweithredu wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â throseddu ac anhrefn yn eu hardal, a'i rhoi ar waith.
SWLA (ALIS)	System Wybodaeth Lefel A. System fonitro, a luniwyd gan Brifysgol Durham, sy'n defnyddio data TGAU a phrofion sylfaenol eraill i fesur gallu y gellir mesur yn eu herbyn. Mae hyn yn galluogi SWLA i ddarparu data rhagfynegol a dadansoddiadau gwerth ychwanegol sy'n benodol i bob myfyriwr a phob pwnc sy'n cael ei astudio.
Swyddfa Archwilio Cymru	O dan gyfarwyddyd Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu gwasanaeth archwilio ac arolygu cynhwysfawr i Gymru ar draws amrediad eang o wasanaethau cyhoeddus.
Swyddog Lles Addysg	Mae swyddogion Lles Addysg yn gweithio gydag ysgolion, disgyblion a theuluoedd i ddelio â materion presenoldeb gwael.
Symud y Dosbarth!	Mae Symud y Dosbarth! yn rhaglen o ymarferion ymlacio ar gyfer plant ysgol gynradd. Nod y rhaglen yw annog plant i gymryd rhan mewn ymarferion corfforol, a'r amcanion yw cynyddu cymhelliant, gwella canolbwyntio, codi ymwybyddiaeth gorfforol, annog datblygiad synhwyraidd-weithredol, a hyrwyddo hunanofal ac atal anafiadau.

<p>System Cyfiawnder Ieuencid</p>	<p>Mae tair prif ran i'r System Cyfiawnder Ieuencid.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Timau Troseddau Ieuencid (TTIau) sy'n cynnwys swyddogion yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau cymdeithasol a phobl o sefydliadau eraill. Eu gwaith yw delio â throseddwyr ifanc yn y gymuned, a'u helpu i'w hatal rhag cyflawni troseddau. • Mae Llysoedd Ieuencid yn delio â'r holl bobl ifanc sydd wedi'u cyhuddo o drosedd. Weithiau mewn achosion difrifol iawn, gall llys Ieuencid benderfynu anfon unigolyn ifanc i sefyll ei brawf yn Llys y Goron, sef yr un math o lys sy'n delio â throseddau difrifol a gyflawnir gan oedolion. • Y ddalfa. Mewn rhai sefyllfaoedd gall llys roi dedfryd o garchar i unigolyn ifanc. Mae hyn yn golygu ei fod yn colli'i ryddid ac yn cael ei gadw mewn llety diogel.
<p>System Integredig ar gyfer Plant</p>	<p>Mae'r System Integredig ar gyfer Plant yn darparu'r sail ar gyfer datblygu system electronig i gofnodi ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol a'u hasiantaethau partner gyda phlant.</p>

<p>T</p>	
<p>Targedau 'SMART'</p>	<p>Acronym yw hwn a ddefnyddir i ddisgrifio prosesau cynllunio da. Cynlluniau SMART yw cynlluniau â thargedau clir, sy'n dargedau penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, ag adnoddau, ac wedi'u cyfyngu gan amser.</p>
<p>Teuluoedd ysgolion</p>	<p>Crëwyd teuluoedd ysgolion er mwyn galluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad yn erbyn perfformiad ysgolion tebyg eraill ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ar lefel gweithredu gan yr ysgol a mwy neu sydd â datganiad, ac sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ac y mae eu caffaeliad yn llai na chymwys.</p>
<p>TGCh</p>	<p>Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.</p>
<p>Ti a Fi</p>	<p>Grŵp cyfrwng Cymraeg i rieni a phlant bach.</p>
<p>tîm troseddau Ieuencid</p>	<p>Nod timau troseddau Ieuencid yw atal pobl ifanc rhag torri'r gyfraith neu eu helpu i beidio â gwneud hynny eto. Mae gweithwyr proffesiynol lleol yn gweithio gyda'i gilydd mewn timau ac yn rhoi'r gwasanaethau angenrheidiol i</p>

	<p>bobl ifanc i'w helpu i oresgyn eu hanawsterau. Mae gweithwyr timau troseddau ieuencid yn gweld pobl ifanc yn rheolaidd. Maent yn helpu pobl ifanc i ddod i ddeall teimladau eu dioddefwyr, ac i feddwl beth a'u harweiniodd at droseddu. Mae gweithwyr timau yn datblygu rhaglen o gymorth hefyd, sy'n cynnwys cyngor ar gyffuriau ac alcohol, a chymorth gydag addysg, iechyd a chartrefi. Hefyd, mae pobl ifanc yn cael help i reoli eu dicter.</p>
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru	<p>Mae hwn yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i wrando a phenderfynu ar apeliadau rhieni yn erbyn penderfyniadau awdurdodau addysg lleol ynghylch darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig a gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.</p>
Troseddwyr	<p>Defnyddir y term 'troseddwyr' i gyfeirio at y rhai 18 oed a hŷn, p'un a ydynt yn cael eu cadw yn y ddalfa, yn treulio rhan o'u dedfryd yn y gymuned neu tra'u bod dan oruchwyliaeth yn y gymuned. Nid yw'r rheiny sy'n cael eu cadw ar remand yn droseddwyr.</p>
troseddwyr ifanc	<p>Pobl ifanc dan 17 oed sydd wedi torri'r gyfraith.</p>
Trothwy	<p>Cafodd dangosyddion yn dangos cywertheddoedd trothwy eu cyhoeddi (fel dangosyddion dros dro) am y tro cyntaf yn 2007, a'r rhain bellach yw'r dangosyddion perfformiad pennawd mewn ysgolion uwchradd. Mae trothwyau yn cynrychioli nifer, neu 'faint', cymwysterau ar lefel benodol ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC). Mae tri throthwy wedi'u sefydlu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lefel 1 – nifer o gymwysterau ar Lefel 1 cywerth â phum TGAU gradd D-G; • Lefel 2 – nifer o gymwysterau ar Lefel 2 cywerth â phum TGAU gradd A*-C; a • Lefel 3 – nifer o gymwysterau ar Level 3 cywerth â dwy dystysgrif safon uwch gradd A-E.
Tystysgrif a Diploma Hyfforddi a Mentora	<p>Mae'r Dystysgrif lefel 3 mewn Hyfforddi a Mentora wedi'i chynllunio ar gyfer arbenigwyr medrau allweddol gydag o leiaf un flwyddyn o brofiad llwyddiannus yn cyflwyno ac yn asesu un neu fwy o fedrau allweddol. Mae ffocws y cymhwyster ar ddefnyddio hyfforddiant fel cyfrwng gwella, gan helpu arbenigwyr medrau allweddol i drosglwyddo'u profiad a'u harbenigedd i eraill</p> <p>Mae'r Diploma lefel 5 mewn Hyfforddi a Mentora wedi'i gynllunio ar gyfer cydlynwyr a rheolwyr medrau allweddol profiadol i gynorthwyo twf a datblygiad medrau allweddol yn weithredol o fewn eu sefydliad.</p>

Tystysgrif Datblygiad Proffesiynol mewn Medrau Allweddol	Mae'r cymhwyster lefel 5 hwn yn datblygu ymwybyddiaeth feirniadol o'r safonau medrau allweddol cenedlaethol ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu medrau allweddol. Mae'r dystysgrif wedi'i haddasu i'w defnyddio yng Nghymru, ac mae'n cynnwys uned benodol mewn Medrau Allweddol a Bagloriaeth Cymru.
Tystysgrif dechnegol	Papur ysgrifenedig yw tystysgrif dechnegol sy'n canolbwyntio ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gwblhau'r fframwaith cymhwyster ar gyfer prentisiaeth sylfaen neu brentisiaeth fodern.
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU)	Mae'r mwyafrif o bobl ifanc 16 oed yn ennill y cymhwyster hwn.

Th	
therapyddion	Mae'r term hwn yn cynnwys pobl fel therapyddion lleferydd ac iaith, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a seicolegwyr sy'n asesu, ac yn darparu cymorth ar gyfer, plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

U	
Undeb Credyd	Mae Undebau Credyd yn cynnig gwasanaethau ariannol i'r gymuned, gan gynnwys benthyciadau, cynilion, cyfrif cyfredol, cyfrifol ac yswiriant.
uned cyfeirio disgyblion (UCD)	Mae'r rhain wedi'u sefydlu ac yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion o oed ysgol gorfodol. Mae disgyblion fel arfer yn mynd i unedau cyfeirio disgyblion am eu bod wedi'u gwahardd o'r ysgol neu am eu bod yn absennol dro ar ôl tro o'r ysgol. Fel arall, efallai na fyddai'r disgyblion yn cael addysg addas mewn ysgol brif ffrwd.
UNICEF	Cronfa Plant y Cenhedloedd Unedig.

W	
Wake and shake	Cyfes o ymarferion i gerddoriaeth.
WNHSS	Mae Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHSS) yn annog datblygu cynlluniau ysgolion iach yn

	lleol o fewn fframwaith cenedlaethol. Mae pob awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth â staff lleol o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â materion iechyd.
--	--

Y	
Y Cwricwlwm Cymreig	Mae hwn yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n helpu disgyblion i ddatblygu a defnyddio'u gwybodaeth am nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru, a dod i'w deall. Enw arall arno yw'r dimensiwn Cymreig.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol 1 (plant rhwng tair a saith oed). Nod y fenter yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac amrywiol mewn saith maes dysgu er mwyn diwallu anghenion datblygu gwahanol plant ifanc. Y saith maes dysgu yw: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol a lles; • iaith, llythrennedd a chyfathrebu; • datblygiad mathemategol; • dealltwriaeth ddwyieithog ac amlddiwylliannol; • gwybodaeth am y byd a dealltwriaeth ohono; • datblygiad corfforol; a • datblygiad creadigol.
y ddalffa	Carchar lle mae troseddwyd yn treulio cyfnodau dedfryd. Gall fod yn garchar y sector cyhoeddus neu'r sector preifat.
Y Ddraig Ffynsi	Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Ei nod yw rhoi'r cyfle i'r rhai 0 i 25 i roi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt. Prif dasgau'r Ddraig Ffynsi yw gwneud yn siwr bod barnau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru, ac i gefnogi'u cyfranogiad yn y broses benderfynu ar lefel genedlaethol.
Y fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgolion (AGChY)	Cafodd y fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (AGChY) ei chyflwyno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001. Mae'n cynnwys nifer o linyddau, yn benodol i godi safonau mewn addysg gorfforol yn y cwricwlwm.
Y Gronfa Buddsoddi ar y Cyd	Menter gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cydweithio, gwelliannau yn y seilwaith dysgu, ansawdd y profiad dysgu ac ansawdd yr amgylchedd dysgu

Y Rhaglen Anelu at Ragoriaeth	Menter gan Lywodraeth Cymru i wella trefniadau trosglwyddo a lefelau cynnydd disgyblion pan fyddant yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
Y Swyddfa Cofnodion Troseddol	Yn rhan o'r Swyddfa Gartref, sefydlwyd yr asiantaeth hon i helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Mae'n darparu mynediad i wybodaeth am gofnodion troseddol.
Y trydydd sector	Mae'r trydydd sector yn cynnwys sefydliadau anllywodraethol sy'n cael eu gyrru gan werth, sydd, yn bennaf, yn ail-fuddsoddi'r arian sydd ganddynt dros ben i ddatblygu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol. Mae'n cynnwys mudiadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Cynhwysir cymdeithasau tai yn y trydydd sector hefyd.
Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith	Dogfen gan Lywodraeth Cymru sy'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer addysg.
YELLIS	Mae System Wybodaeth Blwyddyn 11 yn system monitro gwerth ychwanegol sy'n darparu ystod eang o ddangosyddion perfformiad a mesurau agweddol ar gyfer myfyrwyr yn y ddwy flynedd olaf o addysg orfodol (h.y. 14 i 16 oed). Mae'n rhan o'r teulu o systemau gwybodaeth sy'n cael eu cynnig gan y Ganolfan Arfarnu a Monitro (CEM) ym Mhrifysgol Durham.
Ymarfer corff yn gysylltiedig ag iechyd	Mae ymarfer corff yn gysylltiedig ag iechyd yn cyfeirio at y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y medrau a'r agweddau yr ystyrir eu bod yn hanfodol er mwyn hybu ffordd weithgar o fyw. Yng Nghwricwlwm Cymru 2008, mae rhaglenni ymarfer corff yn gysylltiedig ag iechyd wedi'u disodli gan weithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles ar draws yr holl gyfnodau allweddol er mwyn adlewyrchu pwyslais integredig, ehangach ac ymarferol ym mhob rhaglen astudiaeth. Mae gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles yn ffurfiau anghystadieuol o ymarfer corff, fel jogio, gwaith cylchol, sgipio, nofio ac ioga a ddewisir am yr hyn maent yn ei gyfrannu at iechyd cyffredinol, nodau ffitrwydd a theimladau.
ymarferydd	Mae'r term hwn yn cynnwys staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu.
Ymestyn Hawliau	Polisi canolog Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2001. Mae'n defnyddio hawliau'n sylfaen i ddull o gynnig cymorth a gwasanaethau i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae 10 o hawliau, sy'n cynnwys addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith.

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

ymgyngorydd annibynnol	Arbenigwr sy'n cynghori ac yn cynorthwyo corff llywodraethol yr ysgol pan fydd yn adolygu perfformiad y pennaeth.
Ymgynghorydd cyswllt	Aelod o dîm addysg yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb arwain am gysylltu ag ysgolion penodedig.
Ymyriadau	Cwrs gweithredu penodol a gynllunnir gan weithiwr proffesiynol a/neu wasanaeth penodol, gyda'r nod o wella dysgu neu leihau aildroseddu, er enghraifft, cwrs ymddygiad troseddol neu gwrs cyffuriau ac alcohol.
Yn y Parth	Pecyn ar gyfer yr iard chwarae a lanswyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r prosiect yn darparu hyfforddiant i oruchwylwyr iard chwarae i helpu plant ddod yn fwy gweithgar.
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Mae'n disodli'r Ganolfan Byd Gwaith. Hwn yw sefydliad y llywodraeth sy'n delio â phobl ddi-waith ac sy'n eu helpu i ddod o hyd i waith.
Yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS)	Yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yw cyfarwyddiaeth Llywodraeth Cymru sy'n darparu arweinyddiaeth ar gyfer addysgu, sgiliau a'r iaith Gymraeg yng Nghymru.
ysgol annibynnol	Ysgol yw hon nad yw'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol. O dan adran 172 Deddf Addysg 2002, mae'n cynnwys unrhyw ysgol sy'n darparu addysg amser llawn i bump neu fwy o ddisgyblion o oed ysgol gorfodol ac o leiaf un disgybl â datganiad anghenion addysgol arbennig neu ddisgybl sy'n 'derbyn gofal' (gweler 'Plant sy'n derbyn gofal' uchod yn yr eirfa hon).
Ysgol Goedwig	Mae gweithgareddau'r Ysgol Goedwig yn defnyddio coed, pren ac amgylchedd y goedwig i alluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu medrau, hyder a hunan-barch. Mae llawer o'r gweithgareddau'n heriol yn gorfforol.
Ysgol Gymraeg	Ysgol sy'n addysg dros hanner y pynciau yn Gymraeg yw ysgol Gymraeg.
Ysgol Iach	Ysgol iach yw ysgol sy'n dilyn Cynllun Bwyd a Ffitrwydd a Chynllun Gweithredu Blas am Oes Llywodraeth Cymru dros bum mlynedd. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu camau i wella maeth a gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc, ac i helpu hybu byw'n iach yn yr ysgol.
ysgolion a gynhelir	Ysgolion yw'r rhain y mae gan awdurdod addysg lleol ddyletswydd i'w cynnal, ac maent yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • unrhyw ysgol sirol neu wirfoddol;

Rhestr o dermau arolygu
Medi 2011

	<ul style="list-style-type: none"> • ysgolion cymunedol ac ysgolion arbennig cymunedol; • ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig; ac • unrhyw ysgol arbennig a gynhelir nad yw wedi'i sefydlu fel ysbyty.
ysgolion bro	Mae ysgolion bro yn darparu amrediad o wasanaethau a gweithgareddau, tu hwnt i'r diwrnod ysgol yn aml, i helpu i ddiwallu anghenion eu disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach
Ystâd ddiogel	Cyfleusterau sy'n cael eu cynnal gan Wasanaeth Carchardai EM, gan gynnwys carchardai a sefydliad troseddau ieuentid.

Rhif	
5x60	Mae'r rhaglen 5x60 yn cael ei rheoli gan Gyngor Chwaraeon Cymru a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw annog disgyblion ysgol uwchradd i fod yn fwy gweithgar.